

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

8/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/02/2019

Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru

Ymchwil i bennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru

Hefin Thomas, Brett Duggan, Dr Alison Glover, Jennifer Lane
(Ymchwil Arad)

Dr Carmel Conn, Dr Kathy Evans, Sharon Drew, Amanda
Kelland (Prifysgol De Cymru)



Thomas, H yn al (2019) *Ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig yng Nghymru*. . Adroddiad rhif GSR 8/2019.

Ar gael trwy droi at: <https://llyw.cymru/gwaith-ymchwil-i-sefydlu-llinell-sylfaen-o-ran-y-system-anghenion-addysgol-arbennig-yng-nghymru-0>

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:

Enw: Ymchwil Ysgolion

Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0377

E-bost: ymchwilysgolion@llyw.cymru

Tabl y cynnwys

Geirfa.....	2
1. Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
2. Dull.....	Error! Bookmark not defined.
3. Canfyddiadau'r arolwg gwaelodlin AAA.....	Error! Bookmark not defined.
4. Canfyddiadau astudiaethau achos ALLau	Error! Bookmark not defined.
5. Synthesis a thrafodaeth am y canfyddiadau.....	Error! Bookmark not defined.
6. Casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer arfer.....	121
Llyfryddiaeth.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad A. Astudiaethau achos ALLau	Error! Bookmark not defined.
Atodiad B. Dadansoddiad o'r arolwg gwaelodlin AAA.....	Error! Bookmark not defined.
Atodiad C. Dadansoddiad o'r ymatebion i geisiadau am ddata gan ALLau..	Error! Bookmark not defined.
Atodiad D. Holiadur arolwg gwaelodlin AAA	Error! Bookmark not defined.
Atodiad E. Canllawiau testun astudiaethau achos AAA ALLau	Error! Bookmark not defined.
Atodiad F. Ffurflen cais am ddata gan ALLau	Error! Bookmark not defined.

Geirfa

Acronym/gair allweddol	Diffiniad
ADCG	Anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd
ADY	Anghenion dysgu ychwanegol
DDdY	Darpariaeth ddysgu ychwanegol
ALNCo	Cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol
AMBDA	Aelod Cyswllt o Gymdeithas Dyslecsia Prydain
AYECh	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
BPVS	Graddfa Geirfa Lluniau Prydain
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
DECLO	Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig
ELSA	Cynorthwydd cymorth llythrennedd emosiynol
EOTAS	Addysg heblaw yn yr ysgol
SA	Seicolegydd Addysg
SLIA	Swyddog Lles Addysg
SAB	Sefydliad addysg bellach
CALU	Cynorthwydd addysgu lefel uwch
CYU	Cynllun ymddygiad unigol
CDU	Cynllun datblygu unigol
IEP	Cynllun addysg unigol
CCU	Cynllun cyfathrebu unigol
Cwrs SBA	Cwrs sgiliau byw'n annibynnol
CAA	Coleg arbenigol annibynnol
ALI	Awdurdod lleol
LAC	Plant sy'n derbyn gofal
BILI	Bwrdd iechyd lleol
AAD	Anawsterau a/neu anabledau dysgu
CCD	Cynorthwydd cymorth dysgu
ThG	Therapi/therapydd galwedigaethol
PCP	Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
PEP	Cynllun addysg personol
PRU	Uned cyfeirio disgyblion
AAA	Anghenion addysgol arbennig
SENCo	Cydlynnydd anghenion addysgol arbennig
SEP	Darpariaeth addysgol arbennig
SLT	Therapi/therapydd lleferydd ac iaith
CAMPUS	Cyraeddadwy, amser wedi'i bennu, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol
SMT	Tîm uwch-reolwyr
SNAP Cymru	Mae SNAP Cymru yn elusen sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd ac ymarferwyr ynghylch AAA
CA	Cynorthwydd addysgu
PSHC	Prawf Sgiliau Hanfodol Cymru

1. Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd Ymchwil Arad a Phrifysgol De Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil i bennu gwaelodlin y system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol yng Nghymru cyn gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf). Mae'r adroddiad terfynol hwn yn amlinellu'r dull astudio ac yn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil.

Cefndir yr astudiaeth

- 1.2 Pasiwyd y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017, ac fe sicrhiodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith statudol newydd er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn parhau â bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sy'n cynnig y cyfle i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol (ALI) mewn perthynas â'u ADY neu ADY eu plentyn, ond mae'n ei ailenwi yn Dribiwnlys Addysg Cymru.¹
- 1.3 Mae gan y Ddeddf dri amcan cyffredinol ac mae'n creu:
- a) fframwaith deddfwriaethol unedig er mwyn cynorthwyo pob plentyn oedran ysgol gorfodol neu iau sydd ag ADY, a phobl ifanc sydd ag ADY yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB);
 - b) proses asesu, cynllunio a monitro integredig ac ar y cyd sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
 - c) system deg a thryloyw er mwyn darparu gwybodaeth a chyngor, ac er mwyn datrys pryderon ac apeliadau.
- 1.4 Pennwyd un ar ddeg nod craidd sy'n ceisio cyflawni'r tri amcan cyffredinol:

¹ Mae memorandwm esboniadol y Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2018a) yn nodi bod 'Yr enw newydd yn adlewyrchu nid yn unig rôl y Tribiwnlys wrth benderfynu ynghylch apeliadau mewn perthynas ag ADY ond hefyd, y rôl a gyflawnir gan y SENTW ar hyn o bryd wrth benderfynu ynghylch hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd sy'n ymwneud ag ysgolion, swyddogaeth y bydd y Tribiwnlys yn parhau i'w chyflawni.' (Llywodraeth Cymru, 2018a)

- cynllun unedig – mae'r Ddeddf yn creu un cynllun statudol (y cynllun datblygu unigol (CDU)) i ddisodli amrywiaeth bresennol y cynlluniau AAA ac AAD statudol ac anstatudol sy'n bodoli ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY mewn ysgolion ac AB;²
- cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol;³
- ystod oedran 0 i 25 oed;
- rhagor o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc;
- dyheadau a gwell deilliannau;
- system symlach a llai gwrthwynebol;
- rhagor o gydweithio;
- dyletswydd newydd ar fyrddau iechyd lleol i benodi Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO);
- osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach;
- hawliau clir a chyson i apelio;
- cod gorfodol;
- system ddwyieithog.

1.5 Disgwylir y caiff y system newydd ei gweithredu rhwng mis Medi 2020 a mis Gorffennaf 2023. Am y tro, rhaid i ALLau a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag AAA sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r dyletswyddau sydd arnynt dan ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Addysg 1996 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac mae'n rhaid iddynt barhau i roi sylw i God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004).⁴

Diben yr astudiaeth

² Nid yw'r gofynion CDU gorfodol, a nodir yn y Cod ADY newydd i Gymru, wedi cael eu cyhoeddi eto. Gallai hyn fod yn wahanol i'r CDU a ddatblygwyd ac a beilotwyd fel rhan o astudiaeth ymchwil gweithredol Llywodraeth Cymru (Gweler Adran 1.7 y prif adroddiad). Yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon, cyfeiriodd rhai sefydliadau at y templed CDU a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod peilota hwn (e.e. ALLau yn darparu hyfforddiant sy'n ymwneud â CDUau i ymarferwyr ysgol). Yn ogystal, cyfeiriodd sefydliadau eraill at ddefnyddio CDUau ond efallai eu bod yn defnyddio'r term yn gyfnewidiol gyda Chynlluniau Addysg Unigol (IEPau).

³ Mae rhai sefydliadau wedi dechrau defnyddio'r term ADY ac mae eraill yn parhau i ddefnyddio'r term AAA. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term AAA i adlewyrchu'r system bresennol, er y gwneir rhai cyfeiriadau at sefydliadau sy'n defnyddio terminoleg ADY pan fo hynny'n briodol.

⁴ Gweler [Anghenion addysgol arbennig: cod ymarfer](#) (Cyrchwyd 19 Mehefin 2018)

- 1.6 Diben yr astudiaeth hon yw pennu gwaelodlin y system AAA bresennol, cyn gweithrediad y Ddeddf. Defnyddir y canfyddiadau er mwyn cyfrannu at werthusiad a gynhelir yn y dyfodol o effaith y Ddeddf.
- 1.7 Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn yn ystod cyfnod o drawsnewid yn y system AAA yng Nghymru. Mae'n bwysig cydnabod bod hyn yn creu rhai heriau o ran pennu gwaelodlin y system AAA a oedd yn bodoli cyn y cyflwynwyd y newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar, y dylanwadwyd arnynt gan y rhaglen drawsnewid ADY. Er enghraifft, gallai argaeledd y Cod ADY Drafft (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2017) fel rhan o'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan Llywodraeth Cymru i Aelodau Cynulliad er mwyn cynorthwyo eu gwaith o graffu'r Bil, fod wedi dylanwadu ar yr arfer mewn ysgolion, ALLau neu sefydliadau eraill.⁵ Ymhellach, bu rhai ALLau, ysgolion a sefydliadau eraill yn ymwneud â phrosiectau ymchwil gweithredol rhwng 2009 a 2012, yr oeddent yn ceisio datblygu a threialu systemau a dulliau gweithredu newydd er mwyn helpu i siapio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol (e.e. datblygu a pheilotu CDUau). Cyhoeddwyd canfyddiadau o'r gwaith ymchwil gweithredol hwn ac felly, maent ar gael i sefydliadau y gallent ddysgu ganddynt o bosibl, ac addasu eu harferion, os oeddent wedi cymryd rhan yn y rhaglenni peilot neu beidio.⁶ Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar ffurf grantiau i ALLau (yn 2015-16 a 2016-17) i hyrwyddo arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) mewn perthynas ag AAA, gan gynnwys datblygu a darparu cyrsiau hyfforddiant PCP. Byddai modd ystyried bod hyn wedi dylanwadu ar yr arfer draws Cymru, a dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r canfyddiadau (trafodir hyn ymhellach yn adran 5).

Nod ac amcanion yr astudiaeth

- 1.8 Roedd manyleb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr astudiaeth yn nodi mai nod y prosiect oedd 'cynllunio a chynnal asesiad gwaelodlin o'r system AAA/AAD/ADY bresennol gyda phersonél allweddol mewn ALLau, ym maes iechydd, mewn ysgolion ac mewn SABau sy'n gyfrifol am ddarparu a chyflwyno cymorth, arferion a phrosesau ar gyfer AAA/AAD/ADY yn ein system addysg yng Nghymru. Dylid gwneud hyn trwy gyfrwng cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol a dylai data

⁵ Gweler [Draft Additional Learning Needs Code](#) (Cyrchwyd 12 Hydref 2018)

⁶ Mae cyfres o adroddiadau wedi'u seilio ar y [rhaglen ymchwil gweithredol er mwyn cyfrannu at y gwerthusiad o'r Peilot ADY](#) (cyrchwyd Awst 17 2018)

monitro a nodwyd mewn ffordd briodol gyd-fynd ag ef pan fo modd.' (Llywodraeth Cymru, 2017a).

- 1.9 Amcanion yr astudiaeth oedd cynnal asesiad gwaelodlin cenedlaethol, ar ffurf arolwg, a gwaith astudiaeth achos manwl mewn pedair ardal ddaearyddol; un ALI o blith pedwar rhanbarth y consortia addysg. Cyfeirir at y rhain yn yr adroddiad hwn fel yr arolwg gwaelodlin AAA (yr arolwg) a'r astudiaethau achos ALLau (astudiaethau achos). Yn ogystal â'r arolwg a'r astudiaethau achos, cynhaliwyd ymarfer casglu data ychwanegol (ceisiadau am ddata) er mwyn casglu data gan ALLau. Mae adran 2 yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion pellach am yr arolwg, yr astudiaethau achos a'r ceisiadau am ddata.

Strwythur yr adroddiad

- 1.10 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg a'r astudiaethau achos. Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:
- Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn amlinellu'r dull.
 - Mae Adran 3 yr adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg gwaelodlin AAA.
 - Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau'r astudiaethau achos ALLau.
 - Mae Adran 5 yr adroddiad hwn yn cynnwys synthesis a thrafodaeth am y canfyddiadau.
 - Mae Adran 6 yr adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau'r astudiaeth a'r goblygiadau ar gyfer arfer.
- 1.11 Cyflwynir y bedair astudiaeth achos ALI yn unigol yn Atodiad A, a chaiff canlyniadau'r arolwg (gan gynnwys tablau data) eu cynnwys yn Atodiad B, a chaiff canlyniadau'r ceisiadau am ddata gan ALLau eu cynnwys yn Atodiad C. Mae Atodiadau D ac E yn cynnwys holiadur yr arolwg a chanllawiau testun yr astudiaethau achos. Mae Atodiad F yn cynnwys y ffurflen er mwyn gwneud cais am ddata gan ALLau.

2. Dull

- 2.1 Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'n cyflwyno disgrifiad o'r arolwg, gwaith maes yr astudiaethau achos a'r broses o ofyn am ddata gan ALLau.

Arolwg gwaelodlin AAA

- 2.2 Cynhaliwyd e-arolwg er mwyn casglu safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol o'r system bresennol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA ac AAD. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am y system AAA/AAD bresennol yn gyffredinol ac ynghylch agweddau penodol ar y system, gan gynnwys asesu, cynllunio, trosglwyddo, osgoi a datrys anghytundebau a gweithio mewn partneriaeth. Mae Atodiad D yr adroddiad hwn yn cynnwys holiadur yr arolwg.
- 2.3 Roedd yr arolwg ar gyfer SENCos/ALNCos ysgolion (er bod ymarferwyr ysgol eraill wedi ymateb hefyd), staff addysg a gwasanaethau cymdeithasol ALLau, staff byrddau iechyd lleol (BILlau), sefydliadau addysg bellach (SABau) a cholegau arbenigol annibynnol (CAAau). Darparwyd manylion cyswllt staff ALLau, BILlau, SABau a CAAau gan Lywodraeth Cymru.⁷ Sicrhawyd manylion cyswllt ysgolion trwy ddefnyddio rhestr cysylltiadau ysgolion Llywodraeth Cymru ac ychwanegwyd at hon wrth chwilio ar y we am gyfeiriadau e-bost ysgolion.
- 2.4 Estynnwyd gwahoddiad i'r sawl a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg i wneud hynny o'u gwirfodd. Datblygwyd hysbysiad preifatrwydd ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi, gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Caiff yr hysbysiad preifatrwydd ei gynnwys gyda'r holiadur yn Atodiad D yr adroddiad hwn.
- 2.5 Roedd yr arolwg ar agor rhwng 31 Ionawr a 5 Mawrth 2018 – cyfnod o bedair wythnos a hanner. Dosbarthwyd yr arolwg yn uniongyrchol (mewn neges e-bost) at 1,904 o unigolion neu sefydliadau (e.e. ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion). Anfonwyd hyd at dair neges e-bost at y rhai na wnaethant ymateb yn ystod y cyfnod hwn, yn eu hatgoffa i lenwi'r arolwg. Yn ogystal, ffonwyd ysgolion pan ganfuwyd bod cyfeiriadau e-bost yn annilys er mwyn gofyn am eu cyfeiriad e-bost cywir.

⁷ Darparwyd manylion cyswllt ar gyfer staff mewn 12 o'r 22 o adrannau addysg ALI ac 19 o'r 22 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â phob pennaeth SAB a staff ym mhob CAA a BILI gan Lywodraeth Cymru. Yn yr ALLau eraill, estynnodd y tîm ymchwil wahoddiad i'r cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ac addysg i ddosbarthu'r arolwg i gydweithwyr sy'n cyflawni rolau sy'n ymwneud â'r system AAA.

- 2.6 Gwnaethpwyd galwadau ffôn wedi'u targedu i ysgolion uwchradd nad oeddent wedi ymateb er mwyn gofyn am gyfeiriad e-bost y SENCo neu (os nad oedd hwn ar gael) er mwyn gofyn i staff gweinyddol roi'r arolwg i'r SENCo. Codwyd ymwybyddiaeth o'r arolwg trwy gyfrwng rhestr ddosbarthu ADY a chylchlythyr addysg Llywodraeth Cymru hefyd.
- 2.7 At ei gilydd, barnwyd bod 726 o ymatebion i'r arolwg 'o fewn y cwmpas' at ddibenion y gwaith o ddadansoddi'r arolwg.⁸ Roedd y rhain yn cynnwys 525 o ymatebwyr yr oeddent wedi llenwi'r holiadur (wedi cyrraedd diwedd yr arolwg) a 201 o ymatebwyr a oedd wedi rhoi ymateb rhannol (gan ateb o leiaf un o gwestiynau'r arolwg y tu hwnt i'r cwestiynau proffil).
- 2.8 Mae'r tabl isod yn cynnig dadansoddiad o nifer yr ymatebion fesul sector. Darparir data proffil manylach am yr ymatebwyr o ysgolion fesul sector a chyfrwng yr addysg yn Atodiad B.

⁸ Barnwyd mai ymatebwyr yr oeddent y tu hwnt i'r cwmpas oedd y rhai a oedd wedi clicio 'arall' pan ofynnwyd iddynt pwy y maent yn gweithio iddynt (ac ni chawsant eu cynnwys yn yr arolwg gan nad oeddent yn dod o fewn cwmpas yr astudiaeth), ymatebwyr a gychwynnodd yr arolwg fwy nag unwaith (cynhwyswyd eu hymateb mwyaf cyflawn yn y dadansoddiad) ac ymatebwyr nad oeddent wedi ateb unrhyw gwestiynau y tu hwnt i'r cwestiynau proffil (ac felly, nid oeddent wedi darparu data digonol i'w ddadansoddi).

Tabl 1. Nifer yr ymatebion yn ôl sector yr ymatebydd

A ydych chi'n gweithio mewn:	Ymatebion cyflawn	Cyfanswm yr ymatebion (ymatebion rhannol + cyflawn)	Nifer y cysylltiadau yr estynnwyd
Ysgol, uned cyfeirio disgyblion neu ddarparwr EOTAS* <i>Yr oeddent o:</i>	330	470	1546
<i>Ysgolion cynradd, canol ac uwchradd prif ffrwd</i>	306	428	1482
<i>Ysgolion arbennig</i>	15	24	40
<i>Uned cyfeirio disgyblion</i>	6	8	24
<i>Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)</i>	0	2	**
<i>Arall</i>	3	8	-
Sefydliad addysg bellach	27	30	13
Darparwr blynyddoedd cynnar	1	4	**
Adran addysg ALI	72	98	105
Adran gwasanaethau cymdeithasol ALI	26	29	120
Bwrdd iechyd lleol	62	88	113
Coleg arbenigol annibynnol	7	7	7
Cyfanswm	525	726	1904

*Mae'r cyfansymiau o ysgolion yn cynnwys 47 o ymatebion gan 21 ysgol lle'r oedd mwy nag un ymarferwr wedi llenwi'r arolwg. Mae arall yn cynnwys ysgolion annibynnol ac uned CAMHS mewn addysg.

**Heb fod yn grŵp targed penodol ar gyfer yr arolwg.

2.9 Mae gofyn diffinio poblogaeth arolwg er mwyn cyfrifo'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg. Fodd bynnag, ceir heriau wrth nodi poblogaeth yr arolwg a'r gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg hwn. Y brif her yw'r ffaith nad yw cyfanswm yr ymatebwyr yr estynnwyd gwahoddiad iddynt llenwi'r arolwg yn hysbys. Er mwyn rhoi sylw i hyn, gellir ffurfio rhai tybiaethau er mwyn diffinio poblogaeth yr arolwg. Yna, gall hyn ein galluogi i amcangyfrif cyfraddau ymateb ymhlith rhai categorïau o ymatebwyr.

- 2.10 Ar gyfer rhai grwpiau o ymatebwyr (staff ALI a BILI), roedd y dull dosbarthu yn cynnwys estyn gwahoddiad uniongyrchol i unigolion llenwi'r arolwg. Ar gyfer y grwpiau hyn, gellir cyfrifo'r gyfradd ymateb ymhlith y rhai yr estynnwyd gwahoddiad uniongyrchol iddynt i gymryd rhan yn yr arolwg. Fodd bynnag, mae'n hysbys hefyd y cafwyd ymatebion ychwanegol gan staff ALI a BILI nas anfonwyd y ddolen i'r arolwg atynt yn uniongyrchol.
- 2.11 Ar lefel sefydliadol, mae cyfanswm yr ysgolion, y PRUs, y CAAau a'r SABau yn hysbys ac anfonwyd y gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg at bob un ohonynt yn uniongyrchol. Felly, gellir adrodd am gyfradd ymateb ar lefel sefydliadol ar gyfer y rhain. Mae hyn yn golygu bod gofyn nodi sefydliadau lle'r oedd mwy nag un unigolyn wedi llenwi'r arolwg (gwnaethpwyd hyn ar gyfer Tabl 2 isod). Ar sail hyn, gallwn adrodd y cafwyd ymatebion gan 28% o ysgolion, 33% o PRUs, 92% o SABau, a 67% o CAAau. Fodd bynnag, nid oes modd gwybod canran y staff yn y sefydliadau hyn a gafodd yr arolwg, felly ni allwn adrodd am gyfradd ymateb i'r arolwg ar gyfer ymarferwyr yn y lleoliadau hyn.

Tabl 2: Poblogaeth yr arolwg, nifer yr ymatebwyr a'r cyfraddau ymateb fesul sector

Sector	Nifer yr ymatebwyr yr estynnwyd gwahoddiad uniongyrchol iddynt lenwi'r arolwg	Nifer yr ymatebwyr y cawsant wahoddiad uniongyrchol ac yr aethant ymlaen i lenwi'r arolwg	Cyfradd ymateb ymhlith y rhai yr estynnwyd gwahoddiad uniongyrchol iddynt	Ymatebwyr ychwanegol*	Nifer yr ymatebwyr yr estynnwyd gwahoddiad uniongyrchol iddynt + ymatebion ychwanegol	Cyfanswm yr ymatebwyr**	Cyfradd ymateb ar sail yr ymatebwyr yr estynnwyd gwahoddiad uniongyrchol iddynt + ymatebion ychwanegol
Ysgolion**	1,522	431***	28%	3	1525	434***	28%
Unedau cyfeirio disgyblion	24	8	33%	0	24	8	33%
Darparwyr EOTAS	N/A	N/A	N/A	2	2	2	N/A
Sefydliadau addysg bellach	13	12****	92%	0	13	12****	92%
Darparwyr blynyddoedd cynnar	N/A	N/A	N/A	4	4	4	N/A
Staff adran addysg ALI	105	24	23%	74	179	98	55%
Staff adran gwasanaethau cymdeithasol ALI	120	15	13%	14	134	29	22%
Staff bwrdd iechyd lleol	113	25	22%	63	176	88	53%
Colegau arbenigol annibynnol	7	4	57%	2*****	9	6*****	67%
Cyfanswm	1904	519	27%	162	2066	681	33%

*Ymatebwyr na cawsant wahoddiad uniongyrchol gan y tîm ymchwil i gymryd rhan yn yr arolwg. **Mae'n cynnwys yr holl ymatebion o fewn y cwrpas (rhannol a chyflawn). ***Nid yw'n cynnwys 26 o ymatebion gan ysgolion lle'r oedd mwy nag un ymarferwr wedi llenwi'r arolwg. Cafwyd cyfanswm o 47 o ymatebion gan 21 ysgol lle'r oedd mwy nag un ymarferwr wedi llenwi'r arolwg. ****Nid yw'n cynnwys 18 ymateb gan SABau lle'r oedd mwy nag un ymarferwr wedi llenwi'r arolwg. *****Nid yw'n cynnwys un ymateb gan CAA lle'r oedd dau ymatebydd wedi llenwi'r arolwg.

- 2.12 O ystyried y heriau wrth geisio nodi poblogaeth yr arolwg, ni ellir nodi'n hyderus y graddau y gellir cyffredinolï'r canfyddiadau i'r boblogaeth. Felly, wrth ddadansoddi'r canlyniadau isod, ac wrth gymharu canfyddiadau ar draws sectorau yn arbennig, dylid nodi na ddylid ystyried bod y canlyniadau'n gynrychioliadol o'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sectorau hyn a dylid eu dehongli fel sampl o ymatebwyr er hwylustod.
- 2.13 Wrth ddadansoddi gwahaniaethau rhwng is-grwpiau o ymatebwyr o wahanol fathau o ysgolion (cynradd ac uwchradd; cyfrwng Cymraeg a Saesneg), rydym wedi cyfeirio at wahaniaethau o dros 10 pwynt canrannol rhwng is-grwpiau fel rhai 'llawer' yn uwch neu'n is. Yn ogystal, pan welwyd gwahaniaethau o lai na 10 pwynt canrannol, rydym wedi nodi nad oedd 'gwahaniaethau nodedig' rhwng is-grwpiau. Mae'n bwysig nodi nad yw nodi gwahaniaethau nodedig yn golygu eu bod yn arwyddocaol mewn ffordd ystadegol, a dylid ystyried hyn wrth adolygu'r canfyddiadau.
- 2.14 Ar gyfer rhai cwestiynau, roedd niferoedd sylweddol o ymatebwyr wedi ateb 'ddim yn gwybod' wrth ymateb. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer BILlau ac ysgolion arbennig wrth iddynt ymateb i gwestiynau ynghylch prosesau anstatudol (nad ydynt wastad yn ymwneud â nhw efallai) ac ar gyfer SABau a ysgolion cyfrwng Saesneg wrth iddynt ymateb i gwestiynau a oedd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Er mwyn ceisio sicrhau bod ymatebion i gwestiynau unigol yn gymaradwy rhwng sectorau, rydym wedi adrodd y canlyniadau ar gyfer rhai cwestiynau gan gynnwys yr ymatebion 'ddim yn gwybod' a heb gynnwys yr ymatebion 'ddim yn gwybod'. Dylid cadw hyn mewn cof wrth adolygu canfyddiadau, ac yn enwedig os bydd rhywun yn cymharu'r canlyniadau gydag arolwg dilynol sy'n defnyddio'r un raddfa ymateb. Roedd holiadur yr arolwg yn cynnwys dewis 'amherthnasol' i rai cwestiynau hefyd. Tynnwyd yr ymatebwyr a oedd wedi ticio 'amherthnasol' allan o'r dadansoddiad ar gyfer pob cwestiwn unigol. Ni ystyrir bod hyn wedi effeithio ar y broses o adrodd am y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, ond byddai angen ei ystyried yn y gwaith o gynllunio a dadansoddi unrhyw arolygon dilynol er mwyn gallu cymharu canfyddiadau dros gyfnod o amser. Er enghraifft, sicrhau y defnyddir yr un categorïau neu bod unrhyw wahaniaethau'n cael eu hamlinellu'n glir wrth gymharu canlyniadau.
- 2.15 Mae'r gwaith o ddadansoddi prosesau sy'n ymwneud â dysgwyr sydd â chynlluniau statudol (datganiadau AAA) yn cynnwys ymatebion ymarferwyr prif ffrwd ac ysgolion

arbennig, yn ogystal ag ymatebwyr o ALLau a BILlau (nid yw unigolion sy'n gweithio mewn SABau/CAAau yn ymwneud â phrosesau sy'n gysylltiedig â datganiadau fel arfer, felly ni chawsant eu holi amdanynt).⁹ Mae'r gwaith o ddadansoddi prosesau sy'n ymwneud â dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol (dysgwyr gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy, gweithredu gan yr ysgol/a mwy neu y mae ganddynt gynlluniau mewn SAB) yn cynnwys ymatebion ymarferwyr prif ffrwd ac ysgolion arbennig, yn ogystal ag ymatebwyr o SABau a BILlau (ni holwyd ymatebwyr o ALLau am brosesau sy'n ymwneud â gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy).

Astudiaethau achos ALLau

- 2.16 Cynhaliwyd gwaith ymchwil ansoddol manwl mewn pedwar ALI, un o bob un o'r consortia addysg rhanbarthol. Seiliwyd yr astudiaethau achos hyn ar gyfweiliadau gydag ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion, PRUs, SABau, ALLau a BILlau. Diben y cam hwn yn y gwaith ymchwil oedd creu darlun manwl o'r system AAA bresennol mewn sefydliadau, ardaloedd daearyddol a chyd-destunau amrywiol.
- 2.17 Roedd manyleb y gwaith ymchwil yn nodi bod deg ALI wedi cymryd rhan mewn gwaith peilota a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf, ac felly, na ddylid eu cynnwys nhw yn y gwaith astudiaethau achos gan eu bod eisoes wedi cyflwyno rhai o'r diwygiadau a oedd yn cael eu cyflwyno trwy'r Bil. Roedd hyn yn golygu na fyddai modd ystyried sawl ALI fel ardal astudiaeth achos.
- 2.18 O blith y gweddill, dewiswyd pedwar ALI. Dewiswyd y rhain er mwyn cynnwys amrediad o nodweddion o ran canran y disgyblion sydd ag AAA, canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM), maint, daearyddiaeth, amddifadedd a chanran y siaradwyr Cymraeg. Isod, cynigir trosolwg o nodweddion y pedwar ALI (cadwyd y rhain yn fras er mwyn sicrhau nad oes modd eu hadnabod o'r wybodaeth).

⁹ Mae Atodiad B yn cynnwys manylion ynghylch rolau ymatebwyr i'r arolwg ym mhob sefydliad.

Tabl 3. Crynodeb o nodweddion ALLau yn yr astudiaethau achos

ALI 1 • Canran disgyblion ag AAA yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran disgyblion eFSM yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru; • Poblogaeth yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran siaradwyr Cymraeg yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Lefelau amddifadedd yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru.	ALI 2 • Canran disgyblion ag AAA yn debyg i gyfartaledd ALLau Cymru; • Canran disgyblion eFSM yn debyg i gyfartaledd ALLau Cymru; • Poblogaeth yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran siaradwyr Cymraeg yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru; • Lefelau amddifadedd yn is na chyfartaledd ALLau Cymru.
ALI 3 • Canran disgyblion ag AAA yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran disgyblion eFSM yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Poblogaeth yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran siaradwyr Cymraeg yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Lefelau amddifadedd yn is na chyfartaledd ALLau Cymru.	ALI 4 • Canran disgyblion ag AAA yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran disgyblion eFSM yn debyg i gyfartaledd ALLau Cymru; • Poblogaeth yn uwch na chyfartaledd ALLau Cymru; • Canran siaradwyr Cymraeg yn is na chyfartaledd ALLau Cymru; • Lefelau amddifadedd yn debyg i gyfartaledd ALLau Cymru.

Ffynonellau (Cyrchwyd pob un ohonynt ar 12 Mehefin 2018):

Data ynghylch disgyblion AAA ac eFSM fesul ALI gan Lywodraeth Cymru, 2017b: [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion](#)

Amcangyfrifon poblogaeth fesul ALI gan ONS, 2017: [Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Data ynghylch y gallu i siarad Cymraeg fesul ALI gan ONS, 2011: [Siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol a grwpiau oedran ehangach. Cyfrifiad 2001 a 2011](#)

Data amddifadedd o Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd\): 2014](#)

- 2.19 At ei gilydd, cynhaliwyd gwaith maes mewn wyth ysgol prif ffrwd, pedair ysgol arbennig a phedair PRU. Ym mhob ALI, cynhaliwyd ymweliadau ag un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig, yn ogystal ag un PRU. Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb neu drafodaethau grŵp ym mhob lleoliad ac roedd y gwaith maes yn cynnwys uwch-reolwyr, SENCos ac athrawon. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda staff mewn pedwar SAB hefyd – un o bob ALI. Cynhaliwyd y rhain ar ffurf cymysgedd o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn gyda rheolwyr/cydlynwyr ADY neu reolwyr gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.
- 2.20 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda 18 o staff ALI – 12 o adrannau addysg a 6 o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALI. Ym mhob ALI, cyfweiliwyd 4-6 o staff gan gynnwys 2-4 o staff addysg ALI ac 1-2 o staff gwasanaethau cymdeithasol ALI. Cynhaliwyd y rhain ar ffurf cymysgedd o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn. Roedd rolau staff addysg ALI yn amrywio yn ôl ardal, ond roeddent yn cynnwys: prif swyddog addysg, pennaeth AAA, pennaeth cyflawniad, swyddogion datganiadau, seicolegydd addysg a rheolwr cynhwysiant. Roedd rolau y sawl a gyfweiliwyd o adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn amrywio fesul ardal, ond roeddent yn cynnwys: rheolwr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALI, rheolwr gwasanaeth ar gyfer anabledd, rheolwr ar gyfer y rhai dan 25 oed, rheolwr plant sydd ag anableddau.
- 2.21 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chyfanswm o 19 o staff BILI, a oedd yn cynnwys 3-7 ym mhob ardal. Cynhaliwyd y rhain ar ffurf cymysgedd o gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a dros y ffôn. Roedd rolau y sawl a gyfweiliwyd o BILlau yn amrywio fesul ardal, ond roeddent yn cynnwys staff yn y timau canlynol: pediatreg cymunedol, gwasanaethau seicoleg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), therapi lleferydd ac iaith (SLT) pediatrig, nyrsio, gwasanaeth ymweliadau iechyd Dechrau'n Deg, therapi galwedigaethol.
- 2.22 Mae Atodiad E yr adroddiad hwn yn cynnwys canllawiau testun astudiaethau achos a ddefnyddiwyd er mwyn cynnal gwaith maes ym mhob ALI.
- 2.23 Paratowyd nodiadau o bob cyfweiliad neu drafodaeth grŵp gan y cyfweilydd. Ni thrawsgrifiwyd y cyfweiliadau air am air, ond ysgrifennwyd rhai dyfyniadau ar y pryd ac fe'u hadroddir yn llawn er mwyn amlygu safbwyntiau ymatebwyr ynghylch

agweddau penodol ar y system AAA. Adolygwyd sampl o nodiadau cyfweiliadau gan aelodau'r tîm ymchwil er mwyn datblygu cyfres o godau at ddibenion dadansoddi – seiliwyd y rhain ar themâu'r canllawiau testun yn bennaf. Yna, adolygwyd y nodiadau cyfweiliadau a neilltuwyd codau iddynt (h.y. labelwyd brawddegau a pharagraffau ym mhob set o nodiadau gyda 'chodau' yn rhoi crynodeb o'r hyn a ddywedwyd e.e. asesu – cryfder) er mwyn gallu tynnu themâu cyffredin yr adroddwyd amdanynt allan yn ystod y gwaith dadansoddi. Defnyddiwyd meddalwedd dadansoddi data ansoddol er mwyn cynorthwyo'r broses ac er mwyn sicrhau bod modd cael gafael ar y data unwaith eto yn hawdd. Mae hyn wedi ein galluogi i roi crynodeb o'r data a chofnodi'r prif themâu yn deillio o'r gwaith maes.

Ceisiadau am ddata gan ALI

2.24 Cynlluniwyd ffurflen gwneud cais am ddata i gasglu data gan ALLau ynghylch:

- eu defnydd o CDUau;¹⁰
- nifer yr asesiadau statudol y gofynnwyd amdanynt ac a gynhaliwyd;
- amser y staff a dreuliwyd ar brosesau amrywiol sy'n ymwneud â'r system AAA bresennol;
- nifer yr anghytundebau, yr apeliadau a'r tribiwnlysoedd sy'n ymwneud ag AAA.

2.25 Mae Atodiad F yr adroddiad hwn yn cynnwys copi o'r ffurflen er mwyn gwneud cais am ddata.

Cyfyngiadau'r dull

2.26 Wrth ddadansoddi'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio am rai o gyfyngiadau'r dull. Fel y trafodwyd yn adran 1.8, mae amseriad yr ymchwil yn ystod cyfnod trosglwyddo ar gyfer y system AAA yng Nghymru yn cyfyngu ar y graddau y gallwn deimlo'n siŵr bod y canfyddiadau'n cynrychioli 'gwir' waelodlin ar gyfer y system. Fodd bynnag, ceir cyfyngiadau eraill hefyd mewn perthynas â'r arolwg, yr astudiaethau achos a'r ceisiadau am ddata (neu fwy nag un o'r elfennau hyn), y rhoddir ystyriaeth iddynt isod.

¹⁰ Nid yw'r gofynion CDU gorfodol, a nodir yn y Cod ADY newydd i Gymru, wedi cael eu cyhoeddi eto. Gallai hwn fod yn wahanol i'r CDU a ddatblygwyd ac a beilotwyd fel rhan o astudiaeth ymchwil gweithredol Llywodraeth Cymru (Gweler Adran 1.7 y prif adroddiad).

- 2.27 O ran yr arolwg, ceir cyfyngiadau sy'n ymwneud â'r heriau wrth adnabod poblogaeth yr arolwg a dibynadwyedd y data (trafodir yn adrannau 2.8-2.11), maint bach is-samplau mewn rhai sectorau (yn enwedig ymatebwyr o CAAau, SABau, ysgolion arbennig a gwasanaethau cymdeithasol ALI) a nifer yr ymatebwyr sy'n ateb 'ddim yn gwybod' neu 'amherthnasol' i rai cwestiynau (gweler adran 2.12). Caiff nifer yr ymatebwyr i gwestiynau yn yr arolwg (gan gynnwys is-samplau o bob sector a adroddwyd) eu cynnwys mewn tablau data ar draws yr adroddiad ac adroddiad data am y canrannau, gan gynnwys a heb gynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod' pan fo hynny'n briodol.
- 2.28 Ar gyfer yr arolwg a'r astudiaethau achos, mae cyfyngiadau'n ymwneud â natur hunan-adroddol y data, gwahaniaethau rhwng dehongliadau o'r cwestiynau a ofynnwyd (e.e. gwahanol ddehongliadau o'r term effeithiolrwydd) a dealltwriaeth o'r derminoleg a ddefnyddir (e.e. gwahaniaethau rhwng CDUau ac IEPau). Mae'r problemau gyda data hunan-adroddol yn cynnwys gorbwysleisio materion neu dan-adrodd am faterion, y mae amseriad y broses o gasglu'r data wedi dylanwadu ar hyn efallai, sut yr oedd ymatebwyr yn teimlo ar y pryd neu'r ffaith eu bod wedi methu cofio gwybodaeth berthnasol. Felly, mae'r canfyddiadau yn aml yn seiliedig ar safbwyntiau hunan-adroddol goddrychol ymarferwyr yn hytrach na mesurau mwy systematig, gwrthrychol ac wedi'u dilysu. Fodd bynnag, dylid nodi, mewn rhai achosion, bod data o'r ceisiadau am ddata neu gan ffynonellau eraill wedi cael ei ddefnyddio i ddilysu canfyddiadau.
- 2.29 I rai o'r cwestiynau yn yr arolwg, yr astudiaethau achos a'r ceisiadau am ddata (e.e. yr amser a gaiff ei dreulio ar brosesau asesu), roedd dibyniaeth ar amcangyfrifon ymarferwyr yn gyfyngiad pellach. Ar gyfer y mathau hyn o gwestiynau, nid oedd rhai ymatebwyr yn gallu cynnig ymatebion ac roedd eraill yn darparu ystodau data neu ddadansoddiadau o'r ffordd yr oeddent wedi amcangyfrif y ffigurau. Pan adroddir am y canfyddiadau hyn, rydym wedi cynnwys rhybuddion priodol gan gynnwys nifer yr ymatebion a'r dull a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi, yn ogystal â'r angen i drin rhai canfyddiadau fel rhai mynegol yn hytrach na mesuriadau manwl o'r systemau presennol.
- 2.30 Ar gyfer yr astudiaethau achos, mae'n bwysig cadw mewn cof bod natur ansoddol y gwaith maes yn golygu na fydd pob un a gyfwelwyd wedi gwneud sylwadau am yr holl faterion a drafodwyd yn yr adroddiad efallai. Mae hyn yn golygu, os bydd rhan

fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn nodi eu bod yn teimlo bod agwedd ar y system yn effeithiol, nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod rhai yn teimlo nad yw'r agwedd hon ar y system yn effeithiol. Dylid cofio hyn wrth ddehongli canfyddiadau'r astudiaethau achos.

3. Canfyddiadau arolwg gwaelodlin AAA

- 3.1 Cyflwynir prif ganfyddiadau'r arolwg yn yr adran hon. Mae Atodiad B yn cynnwys dadansoddiad manylach o holl gwestiynau'r arolwg, fesul sector (ysgolion, SABau, CAAau, adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau).

Safbwyntiau am y prosesau


- 3.2 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg ynghylch elfennau amrywiol o'r prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â phrosesau asesu statudol yn canolbwyntio ar ymatebion gan ysgolion, ALLau a BILlau. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg ynghylch **prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn canolbwyntio ar ymatebion ysgolion, SABau a BILlau (nid yw ymatebwyr o ALLau yn ymwneud gymaint â'r prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol, felly, ni ofynnwyd iddynt am hyn).

Effeithiolrwydd prosesau asesu

- 3.3 Pan holwyd am effeithiolrwydd **prosesau asesu statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws pob sector (rhwng 41% a 47%) yn cytuno i raddau bod prosesau asesu statudol yn effeithiol. Roedd ail gyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws pob sector (rhwng 19% a 34%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau asesu statudol yn effeithiol.¹¹

¹¹ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (29%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (19%), bod prosesau asesu statudol yn effeithiol. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 1. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu statudol yn effeithiol




3.4 Ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd oedd y sector lle y gwelwyd bod cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y **prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** (y rhai a gaiff eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a chan gynlluniau mewn SAB yn achos ymatebwyr AB) yn effeithiol. I ddysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy,¹² roedd 43% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy¹³, roedd 34% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Ac eithrio ysgolion arbennig (lle'r oedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno hefyd bod prosesau asesu y cytunir arnynt yn effeithiol ar ôl tynnu'r rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' allan), ymatebwyr o SABau a CAAau oedd yr unig rai lle'r oedd llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod prosesau asesu yn effeithiol. Nid oedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o SABau a CAAau (46% a 42%) yn cytuno nac yn anghytuno bod prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau mewn SAB yn effeithiol.

¹² Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (44%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (32%), bod prosesau asesu gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

¹³ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 2. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol




Effeithiolrwydd cyfranogiad dysgwyr trwy gydol prosesau asesu

3.5 Pan holwyd am effeithiolrwydd cyfranogiad dysgwyr trwy gydol **prosesau asesu statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion prif ffrwd (32%)¹⁴, ysgolion arbennig (33%) ac adrannau addysg ALLau (32%) yn cytuno i raddau bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol. Roedd llai o ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (26%) yn anghytuno bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol ac nid oedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o BILlau yn cytuno nac yn anghytuno (29%). At hynny, roedd 27% o ymatebwyr o adrannau addysg ALLau a BILlau yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol.

¹⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 3. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu statudol



3.6 Holwyd ymatebwyr mewn ysgolion, BILlau a SABau am gyfranogiad dysgwyr trwy gydol **prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** (holwyd ymatebwyr SAB a ddefnyddir PCP mewn ffordd effeithiol trwy gydol prosesau asesu ar gyfer cynlluniau mewn SAB). Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr mewn ysgolion prif ffrwd (43%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy¹⁵. Roedd cyfran fwyaf y SABau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y defnyddir PCP mewn ffordd effeithiol. I'r gwrthwyneb, roedd cyfrannau is o ymatebwyr BILI yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (11%), ac nid oedd y gyfran fwyaf yn cytuno nac yn anghytuno (29%), ac roedd dros chwarter (27%) naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol.

¹⁵ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 4. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod cyfranogiad dysgwyr yn effeithiol trwy gydol prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol




Cynnwys pobl briodol trwy gydol prosesau asesu

3.7 Pan holwyd am gyfraniad pobl briodol i **brosesau asesu statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws pob sector (rhwng 34% a 61%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cynnwys mewn prosesau asesu statudol¹⁶. Fodd bynnag, roedd ychydig dros chwarter (26%) yr ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau yn anghytuno i raddau bod y pobl briodol yn cymryd rhan.

¹⁶ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 5. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan mewn prosesau asesu statudol



3.8 Pan holwyd am gyfraniad pobl briodol mewn **prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, ar gyfer rhan fwyaf y sectorau (ac eithrio ysgolion arbennig mewn perthynas â gweithredu gan yr ysgol/a mwy a BILLau a CAAau), roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (rhwng 41% a 50%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud â phrosesau asesu anstatudol¹⁷. Fodd bynnag, adroddodd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (31% mewn perthynas â gweithredu gan yr ysgol/a mwy) a BILLau (24%) nad ydynt yn gwybod a yw'r bobl briodol yn ymwneud â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol.

¹⁷ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (50%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (36%), bod y bobl briodol yn ymwneud â phrosesau asesu gweithredu gan yr ysgol/a mwy. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 6. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan mewn prosesau asesu statudol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol




Yr iaith Gymraeg

- 3.9 Pan holwyd am yr iaith Gymraeg mewn perthynas â **phrosesau asesu statudol**, roedd ymatebwyr o ALLau yn fwyaf tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf bod y trefniadau hyn yn effeithiol. Roedd cyfran uchaf adrannau addysg ALLau (41%) ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (42%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi asesu statudol trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir am hynny. Er bod cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (29%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trefniadau hyn yn effeithiol, nododd cyfran sylweddol o ymatebwyr (20%)¹⁸, nad oeddent yn gwybod a yw'r trefniadau hyn yn effeithiol neu beidio. Roedd hyn yn wir hefyd yn achos ysgolion arbennig (42% yn ateb 'ddim yn gwybod') a BILlau (36% yn ateb 'ddim yn gwybod').

¹⁸ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd cyfran lawer uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (35%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (22%), bod prosesau asesu statudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt.


Ffigwr 7. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi asesu statudol trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir am hynny



3.10 Pan holwyd am yr iaith Gymraeg mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol, gwelwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng y gwahanol sectorau. Ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd oedd y grŵp lle'r oedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi asesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol pan ofynnir am hynny (32% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy¹⁹ a 25% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy). Fodd bynnag, dywedodd cyfran fawr o ymatebwyr ar draws pob sector, ac eithrio SABau, nad oeddent yn gwybod a oes trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi asesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sydd â cynlluniau anstatudol, pan ofynnir am hynny (rhwng 35% a 56%).

¹⁹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt (40% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 31% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (21% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac 17% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy).

Ffigwr 8. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod trefniadau effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi asesu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol pan ofynnir am hynny




Osgoi anghytundebau

- 3.11 Pan holwyd am y graddau y mae **prosesau asesu statudol** presennol yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion prif ffrwd (30%)²⁰, ysgolion arbennig (26%) ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (26%), yn cytuno i raddau bod prosesau asesu presennol yn helpu i osgoi anghytuno. Roedd safbwyntiau ymatebwyr o adrannau addysg ALLau yn fwy cymysg, ac roedd 22% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, a 22% pellach yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, bod prosesau asesu statudol presennol yn helpu i osgoi anghytuno. Ymhellach, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr BILlau (25%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

²⁰ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 9. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu statudol presennol yn helpu i osgoi anghytundebau



3.12 Pan holwyd am y graddau y mae prosesau asesu statudol presennol **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu o gytuno gyda hyn. Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau asesu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau (33% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy²¹ a 26% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy). Roedd rhan fwyaf y CAAau yn cytuno hefyd, gyda chyfran fwyaf yr ymatebwyr (57%) yn cytuno i raddau ac nid oedd unrhyw un yn anghytuno bod y prosesau asesu yn helpu i osgoi anghytuno. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (31% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy) a BILLau (30%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r broses asesu bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytuno.

²¹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 10. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu statudol presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau




Datrys anghytuno

3.13 Pan ofynnwyd a yw **prosesau asesu statudol** presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng y gwahanol sectorau. Ysgolion prif ffrwd oedd grŵp yr ymatebwyr oedd fwyaf tebygol o gytuno, ac roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno i raddau (29%), ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (23%) bod prosesau asesu statudol presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar²². Roedd llai o ymatebwyr o adrannau addysg ALLau, adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau yn cytuno, ac roedd cyfran sylweddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (24%, 15% a 23%) neu'n anghytuno i raddau (13%, 26% a 7%) bod prosesau asesu statudol presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar.

²² Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 11. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu statudol presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar



- 3.14 Pan ofynnwyd a yw'r prosesau asesu presennol **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar, ysgolion prif ffrwd oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o gytuno. Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau asesu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar (31% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy²³ a 26% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy). Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (57%) yn cytuno i raddau bod y prosesau asesu yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno (ac nid oedd unrhyw un ohonynt yn anghytuno). Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (37% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 23% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) a BILLau (31%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r broses asesu bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno.

²³ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 12. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod prosesau asesu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar



Safbwyntiau am Ddarpariaeth Addysgol Arbennig (SEP)

3.15 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o safbwyntiau ymatebwyr yr arolwg am elfennau amrywiol o SEP ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau a dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â SEP ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn canolbwyntio ar ymatebion gan ysgolion, ALLau a BILlau. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg ynghylch SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn canolbwyntio ar ymatebion ysgolion, SABau a BILlau (nid yw ymatebwyr o ALLau yn ymwneud gymaint â SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol, felly ni ofynnwyd iddynt am hyn).


Effeithiolrwydd SEP

3.16 Pan holwyd am effeithiolrwydd **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion arbennig (73%), ysgolion prif ffrwd (50%)²⁴ ac adrannau addysg ALLau (45%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn effeithiol. Roedd

²⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

cyfran fwyaf yr ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau yn cytuno i raddau (45% a 42%) bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn effeithiol.

Ffigwr 13. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn effeithiol




- 3.17 Pan holwyd am effeithiolrwydd **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (71%), SABau (53%), ac ysgolion prif ffrwd (45% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy²⁵ a 43% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy²⁶) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) a BILlau (28%) nad oeddent yn gwybod a yw SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol.

²⁵ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (47%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (36%), bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

²⁶ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (50%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (38%), bod prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy yn effeithiol.

Ffigwr 14. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol




Amseroldeb SEP

3.18 Pan holwyd am amseroldeb **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (39%)²⁷, ysgolion arbennig (47%) ac adrannau addysg ALLau (36%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cael ei darparu mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o wasanaethau cymdeithasol ALLau (41%) a BILlau (38%) yn cytuno i raddau, ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn anghytuno i raddau (20% a 22%) y caiff SEP ei darparu mewn ffordd amserol.

²⁷ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 15. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cael ei darparu mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr




3.19 Pan holwyd am amseroldeb **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (71%), SABau (59%), ac ysgolion prif ffrwd (42% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy²⁸ a 37% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy²⁹) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael ei darparu mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (45%) a BILLau (30%) yn nodi nad oeddent yn gwybod a yw SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael ei darparu mewn ffordd amserol neu beidio.

²⁸ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (41%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg (26%), y caiff SEP ei darparu mewn ffordd amserol.

²⁹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 16. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael ei darparu mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr




Lleoliad darparu SEP

3.20 Pan ofynnwyd a yw **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol** yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol i'r dysgwyr, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig yn fwy tebygol o gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (63%) ac ysgolion prif ffrwd (35%)³⁰ yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol i'r dysgwr. Roedd ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau wedi adrodd safbwyntiau mwy cymysg, wrth i tua un o bob tri (36% a 32%) gytuno i raddau a thua un o bob pump (20% a 18%) anghytuno i raddau bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y dysgwr.

³⁰ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd cyfran llawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (41%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (31%), y caiff SEP ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol.


Ffigwr 17. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y dysgwr



3.21 Pan ofynnwyd a yw **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol i'r dysgwyr, roedd ymatebwyr o CAAau a SABau yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (71%), SABau (62%), ac ysgolion prif ffrwd (38% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy³¹) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y caiff SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol i'r dysgwr. Fodd bynnag, dywedodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o ysgolion arbennig (45%) a BILlau (28%) nad oeddent yn gwybod a chaiff SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol.

³¹ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (40%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (29%), y caiff SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (35%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg (21%), bod SEP yn y lleoliad mwyaf priodol.

Ffigwr 18. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer y dysgwr




Hyblygrwydd SEP

3.22 Pan holwyd am hyblygrwydd **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Er enghraifft, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr ar draws pob sector yn cytuno i raddau bod y system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg wrth gyflwyno SEP³²; Fodd bynnag, roedd ail gyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (21%), adrannau addysg ALlau (25%) a BILlau (20%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod y system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg.

³² Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 19. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol yn caniatáu dull gweithredu hyblyg wrth ddarparu SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol




3.23 Pan holwyd am hyblygrwydd **SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, unwaith eto, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o SABau (44%) ac ysgolion prif ffrwd (39% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy³³ a 33% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy³⁴) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg tuag at ddarparu SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. Fodd bynnag, roedd 18% o ymatebwyr SAB yn anghytuno i ryw raddau hefyd. Dywedodd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (45%) a BILLau (28%) nad oeddent yn gwybod a yw'r system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg wrth ddarparu SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol.

³³ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (39%), o'i chymharu ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg (21%), bod y system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg tuag at ddarparu SEP.

³⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 20. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol yn caniatáu dull gweithredu hyblyg wrth ddarparu SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol




SEP yn galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial llawn

3.24 Pan ofynnwyd a yw SEP yn galluogi **dysgwyr sydd â chynlluniau statudol** i wireddu eu potensial llawn, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion prif ffrwd (39%)³⁵, ysgolion arbennig (68%) ac adrannau addysg ALLau (36%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP yn galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial llawn. Roedd ail gyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws y sectorau hyn (28%, 21% a 33%), ac ail gyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (41%) a BILlau (36%) yn cytuno i raddau bod SEP yn galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial llawn.

³⁵ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 21. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP yn galluogi dysgwyr sydd â chynlluniau statudol i wireddu eu potensial llawn




3.25 Pan ofynnwyd a yw SEP yn galluogi **dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** i wireddu eu potensial llawn, roedd ymatebwyr o CAAau, SABau ac ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (57%), SABau (48%), ac ysgolion prif ffrwd (39% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy³⁶ a 36% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy³⁷) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP yn galluogi dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol i wireddu eu potensial llawn. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (45%) a BILLau (25%) yn nodi nad oeddent yn gwybod a yw SEP yn galluogi dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol i wireddu eu potensial llawn.

³⁶ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (39%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg (25%), bod SEP yn galluogi dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy i wireddu eu potensial llawn.

³⁷ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 22. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP yn galluogi dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol i wireddu eu potensial llawn




SEP cyfrwng Cymraeg

3.26 Pan holwyd am SEP cyfrwng Cymraeg ar gyfer **dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion prif ffrwd (33%)³⁸, ysgolion arbennig (27%) ac adrannau addysg ALLau (35%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol. Fodd bynnag, roedd 22% pellach o ymatebwyr ysgolion arbennig yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani. Ymhellach, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (19%) a BILlau (34%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a oes SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani.

³⁸ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (45%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (19%), bod SEP cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdani.


Ffigwr 23. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol



3.27 Pan holwyd am SEP cyfrwng Cymraeg ar gyfer **dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, roedd ymatebwyr o CAAau, SABau ac ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno ei bod ar gael pan ofynnir amdani. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (40%) ac ysgolion prif ffrwd (33% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy³⁹ a 31% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (20%), ysgolion arbennig (45%), a BILLau (40%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a yw SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani.

³⁹ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (35%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (23%), bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdani (35% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 41% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (20% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 18% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy).

Ffigwr 24. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod SEP trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael pan ofynnir amdani ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol




Osgoi anghytundebau

3.28 Pan holwyd a yw'r ffordd y darparir SEP i **ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol** yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig yn fwyaf tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf. Mae cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (52%) ac ysgolion prif ffrwd (31%)⁴⁰ yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn helpu i osgoi anghytundebau. Roedd ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau yn llai tebygol o gytuno. Er bod cyfran uchaf yr ymatebwyr yn cytuno i raddau (30% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a 21% o BILlau), roedd cyfran sylweddol (21% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau ac 17% o BILlau) yn anghytuno hefyd i raddau y caiff SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol ei darparu mewn ffordd sy'n helpu i osgoi anghytundebau.

⁴⁰ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 25. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y ffordd y darparir SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn helpu i osgoi anghytundebau



3.29 Pan ofynnwyd a yw'r ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd ymatebwyr o CAAau (71%, 5 o 7) yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno, ac roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno i raddau⁴¹. Nododd ymatebwyr o BILlau (29%) ac ysgolion arbennig (45%) yn fwyaf aml nad oeddent yn gwybod a chaiff SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ei darparu mewn ffordd sy'n helpu i osgoi anghytundebau, ac roedd 20% o ymatebwyr BILlau yn anghytuno i raddau, ac roedd 10% pellach yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

⁴¹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy neu weithredu gan yr ysgol/a mwy.

Ffigwr 26. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y ffordd y darparir SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau




Datrys anghytuno

3.30 Pan ofynnwyd a yw'r ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (42%) ac ysgolion prif ffrwd (30%)⁴² yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno. Ond nid oedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o adrannau addysg ALLau (27%), adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (33%) a BILlau (24%) yn cytuno nac yn anghytuno. Ymhellach, roedd cyfran sylweddol o staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau yn anghytuno i raddau (29%) neu'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (16%) bod y ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno.

⁴² Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 27. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y ffordd y darparir SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynllun statudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytuno yn gynnar



3.31 Pan ofynnwyd a yw'r ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (57%) a SABau (38) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno i raddau (29% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁴³ a 33% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar. Roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (45%) a BILLau (30%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r ffordd y darparir SEP i ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytuno yn gynnar.

⁴³ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy neu weithredu gan yr ysgol/a mwy.

Ffigwr 28. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y ffordd y darparir SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynllun anstatudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytuno yn gynnar



Prosesau adolygu

3.32 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o safbwyntiau ymatebwyr i'r arolwg am elfennau amrywiol o'r prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg sy'n ymwneud â phrosesau adolygu statudol yn canolbwyntio ar ymatebion gan ysgolion, ALLau a BILlau. Mae'r dadansoddiad o gwestiynau'r arolwg ynghylch prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn canolbwyntio ar ymatebion ysgolion, SABau a BILlau (nid yw ymatebwyr o ALLau yn ymwneud gymaint â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol, felly ni ofynnwyd iddynt am hyn).


Effeithiolrwydd prosesau adolygu

3.33 Pan holwyd am effeithiolrwydd **prosesau adolygu statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (50%) ac ysgolion prif ffrwd (44%)⁴⁴ yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn cytuno i raddau (43% a 30%) bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn effeithiol. Er bod cyfran uchaf yr ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (50%) a BILlau (41%) yn

⁴⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

cytuno i raddau, roedd cyfran sylweddol (16% ac 20%) yn anghytuno i raddau hefyd bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn effeithiol.


Ffigwr 29. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn effeithiol



3.34 Pan holwyd ymatebwyr o CAAau, SABau ac ysgolion prif ffrwd am effeithiolrwydd prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (71%, neu 5 o 7 ymatebydd) ac ysgolion prif ffrwd (47% mewn perthynas ag adolygiadau o gynlluniau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁴⁵ a 42% mewn perthynas ag adolygiadau o gynlluniau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod trefniadau adolygu yn effeithiol. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o SABau (40%) yn cytuno i raddau bod y trefniadau adolygu yn effeithiol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) a BILLau (29%) wedi dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r prosesau ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol.

⁴⁵ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (51%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (31%), bod y prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (43%) bod y prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol.

Ffigwr 30. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol




Defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

3.35 Pan ofynnwyd a yw'r **trefniadau adolygu statudol** presennol yn defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) mewn ffordd effeithiol, ymatebwyr o ysgolion arbennig oedd y grŵp a oedd fwyaf tebygol o gytuno bod hyn yn wir. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (87%), ysgolion prif ffrwd (39%)⁴⁶ ac adrannau addysg ALLau (30%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod trefniadau adolygu yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (33%) a BILIau (35%) yn cytuno i raddau bod trefniadau adolygu yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol.

⁴⁶ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


Ffigwr 31. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn ffordd effeithiol



3.36 Pan holwyd am effeithiolrwydd y defnydd a wneir o PCP mewn prosesau adolygu ar gyfer **dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, ymatebwyr o CAAau ac ysgolion prif ffrwd oedd y mwyaf tebygol o gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (57%) ac ysgolion prif ffrwd (40% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁴⁷ a 38% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (30%), SABau (36%) a BILlau (27%) yn cytuno i ryw raddau bod y trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) a BILlau (27%) wedi nodi nad oeddent yn gwybod a yw'r prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol.

⁴⁷ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (42%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (31%), bod prosesau adolygu yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau adolygu yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol (50% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 44% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (33% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 33% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy).

Ffigwr 32. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn ffordd effeithiol




Amseroldeb trefniadau adolygu

3.37 Pan holwyd am amseroldeb **trefniadau adolygu statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (75%), ysgolion prif ffrwd (46%)⁴⁸, adrannau addysg ALLau (40%) ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (25%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y cynhelir trefniadau adolygu statudol mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (20%) yn anghytuno i raddau y cynhelir trefniadau adolygu statudol mewn ffordd amserol.

⁴⁸ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 33. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno y cynhelir trefniadau adolygu statudol presennol mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr




3.38 Pan holwyd am amseroldeb prosesau adolygu ar gyfer **dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (42%) ac ysgolion prif ffrwd (44% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁴⁹ a 42% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁵⁰) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno y cynhelir trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o SABau (36%), BILlau (22%) ac ysgolion arbennig (20%) yn cytuno i raddau y cynhelir trefniadau adolygu mewn ffordd amserol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) a BILlau (27%) wedi dweud nad oeddent yn gwybod a chynhelir prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol mewn ffordd amserol.

⁴⁹ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (47%), o'i chymharu ag ysgolion (34%), y cynhelir prosesau adolygu mewn ffordd amserol. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

⁵⁰ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 34. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cael eu cynnal mewn ffordd amserol er mwyn bodloni anghenion y dysgwr




Cynnwys pobl briodol trwy gydol prosesau adolygu

3.39 Pan holwyd am gyswllt pobl briodol gyda phrosesau adolygu statudol, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig ac adrannau addysg ALLau yn fwyaf tebygol o gytuno neu gytuno'n gryf. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (53%)⁵¹, ysgolion arbennig (50%) ac adrannau addysg ALLau (39%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl sy'n briodol i angen y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cynnwys mewn prosesau adolygu statudol, ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn cytuno i raddau (27%, 37% a 32%).

⁵¹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 35. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud ag adolygiadau statudol




3.40 Pan holwyd am gyswllt pobl briodol gyda phrosesau adolygu statudol **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (42%) ac ysgolion prif ffrwd (44% mewn perthynas â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁵² a 46% mewn perthynas â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁵³) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y bobl briodol yn ymwneud â'r trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o SABau (52%), BILLau (25%) ac ysgolion arbennig (20%) yn cytuno i raddau y cynhelir trefniadau adolygu mewn ffordd amserol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) a BILLau (26%) wedi dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r bobl briodol yn ymwneud â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol.

⁵² Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (47%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (31%), bod pobl briodol yn ymwneud â phrosesau adolygu. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

⁵³ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 36. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod pobl sy'n briodol i anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud ag adolygiadau ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol




Adolygiadau cyfrwng Cymraeg

3.41 Pan holwyd am **adolygiadau statudol** cyfrwng Cymraeg, roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr o adrannau addysg ALLau (48%), ysgolion prif ffrwd (36%)⁵⁴ ac ysgolion arbennig (26%) yn cytuno'n gryf bod adolygiadau statudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt. Nid oedd cyfran fwyaf adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (43%) yn cytuno nac yn anghytuno bod adolygiadau statudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd cyfran sylweddol o ymatebwyr BILlau (40%) nad oeddent yn gwybod.

⁵⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd.


Ffigwr 37. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod adolygiadau statudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt



3.42 Pan holwyd am brosesau adolygu cyfrwng Cymraeg **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (40%) ac ysgolion prif ffrwd (37% mewn perthynas â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁵⁵ a 33% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod adolygiadau ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr ar draws pob sector, ac eithrio CAAau, wedi dweud nad oeddent yn gwybod a oes adolygiadau ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt (rhwng 20% a 50%).

⁵⁵ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (39%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (28%), bod adolygiadau cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdanynt. Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod adolygiadau cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdanynt (50% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 43% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (22% ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 21% ar gyfer gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy).

Ffigwr 38. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod adolygiadau ar gyfer dysgwyr sydd â cynlluniau anstatudol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt




Osgoi anghytundebau

3.43 Pan holwyd am y graddau y mae **trefniadau adolygu statudol** presennol yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion prif ffrwd (39%)⁵⁶ ac ysgolion arbennig (68%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trefniadau adolygu presennol yn helpu i osgoi anghytundebau, ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn cytuno i raddau (19% a 25%). Roedd gan ymatebwyr o ALLau safbwyntiau mwy cymysg. Roedd 34% o ymatebwyr o adrannau addysg ALLau a 29% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau yn cytuno i raddau. Fodd bynnag, roedd 12% o staff adrannau addysg ALLau ac 20% o staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau yn anghytuno i raddau bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn helpu i osgoi anghytundebau.

⁵⁶ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 39. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn helpu i osgoi anghytundebau




3.44 Pan holwyd am y graddau y mae trefniadau adolygu statudol presennol **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn helpu i osgoi anghytundebau, roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau (36% mewn perthynas â phrosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁵⁷ ac ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁵⁸). Roedd grŵp mwyaf yr ymatebwyr o SABau (44%) yn cytuno i raddau bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau ac roedd 20% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr o ysgolion arbennig (40% mewn perthynas â phrosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 50% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) a BILLau (28%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a yw'r trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundeb.

⁵⁷ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

⁵⁸ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 40. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn helpu i osgoi anghytundebau




Datrys anghytundeb

3.45 Pan ofynnwyd a yw'r **trefniadau adolygu statudol** presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytundeb yn gynnar, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng y gwahanol sectorau⁵⁹. Roedd ysgolion arbennig yn fwy tebygol o gytuno, wrth i gyfran fwyaf yr ymatebwyr gytuno'n gryf neu gytuno (68%), ac roedd yr ail gyfran fwyaf yn cytuno i raddau (18%) bod y trefniadau presennol o ran adolygiadau statudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar. Roedd adrannau addysg ALLau, adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau yn llai tebygol o gytuno, wrth i gyfran sylweddol anghytuno neu anghytuno'n gryf (12%, 8% ac 14%) neu anghytuno i raddau (12%, 25% a 21%) bod trefniadau adolygu statudol presennol yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytundeb yn gynnar.

⁵⁹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 41. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu statudol presennol yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar




3.46 Pan ofynnwyd a yw trefniadau adolygu **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn cynorthwyo wrth ddatrys anghytundeb yn gynnar, roedd ysgolion prif ffrwd yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno. Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar (37% mewn perthynas â threfniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁶⁰ a 36% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁶¹); Roedd 30% pellach o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno i raddau. Ymhlith ymatebwyr o BILlau, nid oedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (29%) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 11% yn anghytuno i raddau, ac roedd 9% pellach yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno. Fodd bynnag, dywedodd 27% o BILlau nad ydynt yn gwybod a yw trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar.

⁶⁰ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (40%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (27%), bod prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar. Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

⁶¹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 42. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y trefniadau adolygu presennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn cynorthwyo i ddatrys anghytundeb yn gynnar



Gweithio gydag eraill

3.47 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag elfennau amrywiol o weithio gydag eraill mewn perthynas â dysgwyr sydd â chynlluniau statudol (datganiadau AAA) a dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol (ar gyfer dysgwyr ar lefel gweithredu gan yr ysgol/a mwy mewn ysgolion a'r rhai sydd â chynlluniau mewn SAB mewn colegau). Yn gyffredinol, nododd cyfran uwch o ysgolion bod eglurder o ran rolau partneriaid o'i chymharu â chyfran yr ysgolion a nododd bod y gweithgarwch rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn effeithiol (mewn perthynas â dysgwyr sydd â chynlluniau statudol ac anstatudol).

3.48 Isod, cyflwynir prif ganfyddiadau'r arolwg mewn perthynas ag eglurder y cyfrifoldebau a'r gweithgarwch rhannu gwybodaeth.


Eglurder cyfrifoldebau

3.49 Pan ofynnwyd mewn perthynas â **dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (60%), ysgolion prif ffrwd (49%)⁶² ac adrannau addysg ALLau (48%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y system

⁶² Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn sicrhau eglurder o ran y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu elfennau amrywiol o'r ddarpariaeth. Roedd llai o ymatebwyr BILlau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd y gyfran fwyaf (42%) yn cytuno i raddau, ac roedd 10% pellach yn anghytuno i raddau ac roedd 15% pellach yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigwr 43. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol i ddysgwyr sydd â datganiadau yn sicrhau eglurder o ran y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu elfennau amrywiol o'r ddarpariaeth




- 3.50 Pan ofynnwyd a yw'r system bresennol **ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol** yn sicrhau eglurder o ran y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu elfennau amrywiol o'r ddarpariaeth, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd (43% mewn perthynas â threfniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁶³ a 40% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd yr ail gyfan fwyaf (33% mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 31% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo

⁶³ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (46%), o'i chymharu ysgolion uwchradd (34%), y ceir eglurder o ran y cyfrifoldebau.

trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁶⁴) yn cytuno i raddau bod eglurder o ran y cyfrifoldebau. Gwelwyd ymatebwyr o BILlau a SABau yn mynegi safbwyntiau cymysg: ar gyfer BILlau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (24%) yn cytuno i raddau, yn ogystal â chyfran sylweddol (22%) a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno; ar gyfer SABau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr (25%) yn cytuno i raddau, ac roedd cyfran sylweddol yn anghytuno i raddau (22%) neu'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno (18%) y ceir eglurder o ran y cyfrifoldebau.

Ffigwr 44. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn sicrhau eglurder o ran y sawl sy'n gyfrifol am gyflawni elfennau amrywiol o'r ddarpariaeth




Rhannu gwybodaeth

- 3.51 Pan ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill ynghylch **dysgwyr sydd â chynlluniau statudol**, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno. Roedd ymatebwyr BILlau yn llai tebygol o gytuno, ac roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno i raddau (27%), ac roedd cyfran sylweddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (26%) neu'n anghytuno i raddau (19%) eu bod yn

⁶⁴ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno i raddau (37%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (28%), bod eglurder o ran y cyfrifoldebau o fewn y system bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy.

cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill ynghylch dysgwyr sydd â chynlluniau statudol.

Ffigwr 45. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â datganiadau




3.52 Pan ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am **ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd tua un o bob tri o'r ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (32% mewn perthynas â threfniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁶⁵ a 29% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) neu'n cytuno i raddau (32% mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 33% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁶⁶) eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill. Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan ymatebwyr BILLau a SABau: ar gyfer BILLau, roedd cyfran

⁶⁵ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (35%) o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (21%) eu bod yn cael y wybodaeth ofynnol.

⁶⁶ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno i raddau (39%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (28%), eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy.


sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno i raddau (26%) ac yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno (22%); ar gyfer SABau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn anghytuno i raddau (42%) ac roedd cyfran sylweddol yn cytuno i raddau (23%) eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol.

Ffigwr 46. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol



- 3.53 Pan ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am **ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol pan fo angen iddynt ei chael**, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf neu gytuno. Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion arbennig (40%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, ac roedd yr ail gyfran fwyaf (33%) yn cytuno i raddau eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael pan fydd ei hangen. Roedd ymatebwyr o BILlau yn llai tebygol o gytuno, ac roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno i raddau (28%), ac roedd cyfran sylweddol yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf (12%) neu'n anghytuno i raddau (23%) eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â chynlluniau statudol pan fo angen iddynt ei chael.

Ffigwr 47. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â datganiadau pan fydd angen iddynt ei chael




- 3.54 Pan ofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am **ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol pan fydd angen iddynt ei chael**, mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr rhwng ac o fewn y gwahanol sectorau. Roedd tua un o bob tri o'r ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (34% mewn perthynas â'r trefniadau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy⁶⁷ a 31% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) neu'n cytuno i raddau (30% mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 33% ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy⁶⁸) eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill pan fydd angen iddynt ei chael. Mynegwyd safbwyntiau cymysg gan ymatebwyr o BILLau a SABau: ar gyfer BILLau, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr yn cytuno i raddau (22%) ac yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno (17%) neu'n anghytuno i raddau (22%); ar gyfer SABau, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno i raddau (34%) ac roedd cyfran sylweddol yn anghytuno i raddau (19%) eu bod yn cael y

⁶⁷ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion cynradd a chanol yn cytuno'n gryf neu'n cytuno (38%), o'i chymharu ag ysgolion uwchradd (21%), eu bod yn cael y wybodaeth ofynnol pan fydd angen iddynt ei chael

⁶⁸ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno i raddau (42%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (27%), eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy.

wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol pan fydd angen iddynt ei chael.

Ffigwr 48. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael gan sefydliadau eraill am ddysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol pan fydd angen iddynt ei chael



Effeithiolrwydd perthnasoedd gwaith

3.55 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag amrediad o sefydliadau partner. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu safbwyntiau ymatebwyr ynghylch a ddatblygwyd perthnasoedd gwaith effeithiol gyda'r canlynol:

- Ysgolion
- Sefydliadau addysg bellach
- Gwasanaethau iechyd
- Adrannau addysg ALLau
- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau
- Rhieni a gofalwyr
- Darparwyr blynyddoedd cynnar neu cyn ysgol
- Gyrfa Cymru

- 3.56 Roedd dros 76% o'r ymatebwyr o fewn pob sector o'r farn bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag **ysgolion**. Adrannau addysg ALLau oedd y sector lle'r oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag ysgolion, wrth i 77% gytuno'n gryf neu gytuno ac roedd 22% yn cytuno i raddau. Ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig oedd y sector lle y gwelwyd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr yn nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gydag ysgolion, gyda 68% o ysgolion prif ffrwd⁶⁹ a 76% o ysgolion arbennig yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag ysgolion. Fodd bynnag, roedd 15% o'r ymatebwyr o ysgolion arbennig yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda hyn. SABau a BILlau oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr a oedd wedi nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag ysgolion. Roedd 50% o SABau a BILlau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ac roedd 26% o SABau a 32% o BILlau yn cytuno i raddau bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag ysgolion.
- 3.57 Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr ar draws pob sector ynghylch a oes perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda **SABau**. Ysgolion arbennig oedd y sector lle'r oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda SABau, wrth i 41% gytuno'n gryf neu gytuno a 50% pellach gytuno i raddau. SABau oedd y sector lle'r oedd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gyda SABau, gyda 56% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ac 16% pellach yn cytuno i raddau. BILlau oedd y sector lle y gwelwyd cyfran uchaf yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda SABau, gyda 25% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno a 7% pellach yn anghytuno i raddau.
- 3.58 Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr ar draws yr holl sectorau ynghylch a oes perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda **gwasanaethau iechedd**. BILlau oedd y sector lle'r oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda gwasanaethau iechedd, wrth i 68% gytuno'n gryf neu gytuno a 24% pellach gytuno i raddau. Ysgolion arbennig oedd y sector lle y gwelwyd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr yn nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gyda gwasanaethau iechedd, wrth i 46%

⁶⁹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

gytuno'n gryf neu gytuno a 38% pellach gytuno i raddau. SABau oedd y sector lle'r oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr yn anghytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda gwasanaethau iechyd, wrth i 25% anghytuno'n gryf neu anghytuno a 18% pellach anghytuno i raddau.

- 3.59 Roedd dros 71% o'r ymatebwyr mewn bron pob sector, ac eithrio SABau (57%), o'r farn bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag **adrannau addysg ALLau**. Adrannau addysg ALLau oedd y sector lle y gwelwyd bod cyfran uchaf yr ymatebwyr yn nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag adrannau addysg ALLau eraill, wrth i 81% gytuno'n gryf ac 14% pellach gytuno i raddau. Ysgolion arbennig oedd y sector lle'r oedd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gydag adrannau addysg ALLau, wrth i 64% gytuno'n gryf neu gytuno a 28% pellach gytuno i raddau bod perthnasoedd effeithiol gydag adrannau addysg ALLau wedi cael eu meithrin. SABau oedd y sector lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr yn nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag adrannau addysg ALLau, wrth i 30% gytuno'n gryf neu gytuno a 26% gytuno i raddau. Ymhellach, roedd 15% o SABau yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno ac roedd 7% pellach yn anghytuno i raddau bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag adrannau addysg ALLau.
- 3.60 Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr ar draws pob sector ynghylch a oes perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag **adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau**. Ysgolion arbennig oedd y sector lle'r oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau, wrth i 42% gytuno'n gryf neu gytuno a 50% pellach gytuno i raddau. Adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau oedd y sector lle y gwelwyd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr a nododd ddatblygiad perthnasoedd effeithiol gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau eraill, wrth i 62% gytuno'n gryf neu gytuno a 25% pellach gytuno i raddau. SABau a BILlau oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran uchaf yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau; roedd 14% o SABau a BILlau yn anghytuno i raddau ac roedd 14% pellach o SABau a 15% o BILlau yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.

- 3.61 Roedd cyfran uchel o ymatebwyr (rhwng 77% a 100%) ym mhob sector o'r farn bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda **rhieni a gofalwyr**. Roedd 100% o ymatebwyr o ysgolion arbennig a CAAau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda rhieni a gofalwyr. Adrannau addysg ALLau oedd y sector lle'r oedd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr wedi nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, wrth i 74% gytuno'n gryf neu gytuno a 24% pellach gytuno i raddau bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda rhieni a gofalwyr. SABau oedd y sector lle y gweld cyfran leiaf yr ymatebwyr yn nodi bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda rhieni a gofalwyr, wrth i 55% gytuno'n gryf neu gytuno a 22% gytuno i raddau bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda rhieni a gofalwyr.
- 3.62 Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau gan ymatebwyr ar draws pob sector ynghylch a oes perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gyda Gyrfa Cymru. Ysgolion prif ffrwd oedd y sector lle y gwelwyd cyfran uchaf yr ymatebwyr a nododd bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda Gyrfa Cymru, wrth i 70% gytuno'n gryf neu gytuno a 21% gytuno i raddau. SABau oedd y sector lle y gwelwyd ail gyfran uchaf yr ymatebwyr yn nodi datblygiad perthnasoedd effeithiol gyda Gyrfa Cymru, wrth i 59% gytuno'n gryf neu gytuno a 18% pellach gytuno i raddau. BILlau oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr a nododd bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda Gyrfa Cymru. Roedd 16% o BILlau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, 22% yn cytuno i raddau, 16% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, 8% yn anghytuno i raddau, 15% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno a nododd yr 20% a oedd yn weddill nad oeddent yn gwybod a oes perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda Gyrfa Cymru.


Trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau

- 3.63 Holwyd ymatebwyr am y trefniadau trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr mewn ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig, ALLau a BILlau yn cytuno bod prosesau trosglwyddo effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau, er mwyn iddynt bontio i mewn i, o fewn ac allan o'u

gwasanaeth neu eu lleoliad⁷⁰. Roedd ymatebwyr ym mhob sector yn fwy tebygol o gytuno bod prosesau trosglwyddo effeithiol yn eu lle **o fewn** eu lleoliad/gwasanaeth nhw, o'u cymharu â phrosesau trosglwyddo **i mewn** ac **allan o'u** gwasanaeth/lleoliad. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd, er enghraifft, wedi nodi bod prosesau effeithiol yn eu lle er mwyn trosglwyddo o fewn eu lleoliad, o'i chymharu ag i mewn ac allan o'u lleoliad.


- 3.64 Roedd canran uwch o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig nag ymatebwyr o ALIau a BILIau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn galluogi trosglwyddo effeithiol i mewn i, o fewn ac allan o'u lleoliadau.

Ffigwr 49. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn galluogi trosglwyddo effeithiol i mewn i'n lleoliad/gwasanaeth




⁷⁰ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion uwchradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y trosglwyddo i mewn i, o fewn ac allan o'u lleoliad/gwasanaeth (63%, 80% a 60%) yn effeithiol, o'i chymharu ag ysgolion cynradd a chanol (51%, 68% a 50%). Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 50. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn galluogi trosglwyddo effeithiol o fewn ein lleoliad/gwasanaeth



Ffigwr 51. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn galluogi trosglwyddo effeithiol allan o'n lleoliad/gwasanaeth



Trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol


3.65 Pan holwyd am y trefniadau trosglwyddo ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol (gweithredu gan yr ysgol/a mwy mewn ysgolion a chynlluniau SAB mewn colegau), roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd⁷¹, SABau a CAAau yn

⁷¹ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.


cytuno bod prosesau trosglwyddo effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol ac y maent yn trosglwyddo i mewn i, o fewn ac allan o'u gwasanaeth neu eu lleoliad. Roedd llai na hanner yr ymatebwyr o ysgolion arbennig a BILlau yn cytuno, o leiaf i raddau, bod prosesau trosglwyddo effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau i mewn i ac allan o'u lleoliad neu eu gwasanaeth, er bod nifer sylweddol wedi nodi 'ddim yn gwybod'.

- 3.66 Roedd ymatebwyr ym mhob sector yn fwy tebygol o gytuno bod prosesau trosglwyddo effeithiol yn eu lle **o fewn** eu lleoliad/gwasanaeth, o'u cymharu â phrosesau er mwyn trosglwyddo i **mewn** ac **allan** o'u gwasanaeth/lleoliad.


Ffigwr 52. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn galluogi trosglwyddo effeithiol i mewn i'n lleoliad/gwasanaeth



Ffigwr 53. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn galluogi trosglwyddo effeithiol o fewn ein lleoliad/gwasanaeth



Ffigwr 54. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod y system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn galluogi trosglwyddo effeithiol allan o'n lleoliad/gwasanaeth




Cyswilt plant a phobl ifanc gyda chynlluniau statudol ac anstatudol


3.67 Gofynnwyd i ymatebwyr a yw plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac a ydynt yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau hyn. Yn gyffredinol, roedd cyfran fwy o ymatebwyr ar draws y sectorau wedi nodi bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau, o'i chymharu â chyfran yr ymatebwyr a nododd bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau. Er enghraifft, roedd 85% o ysgolion prif ffrwd a 93% o ysgolion arbennig yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau, o'i chymharu ag 81% o ysgolion prif ffrwd ac 86% o ysgolion arbennig a oedd yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau. Ysgolion prif ffrwd⁷² ac ysgolion arbennig oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran uchaf yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Y sector lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall a chymryd rhan lawn mewn penderfyniadau oedd BILlau, wrth i 52% a 45% gytuno a 31% a 38% anghytuno.

⁷² Roedd cyfran llawer yn uwch o ysgolion uwchradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau (62%) ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau (63%) o'i chymharu ag ysgolion cynradd a chanol (43% a 39%). Roedd cyfran llawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau (53%) a chymryd rhan mewn penderfyniadau (50%) o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (44% a 41%).

Ffigwr 55. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt




Ffigwr 56. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt



3.68 Gofynnwyd i ymatebwyr a yw **plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi pryderon ac i gael ateb i'w cwestiynau**. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr ar draws y sectorau yn nodi safbwyntiau tebyg wrth ateb y ddau gwestiwn hwn.


Ysgolion prif ffrwd⁷³ ac ysgolion arbennig oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran fwyaf yr ymatebwyr a nododd bod plant a phobl ifanc yn cael cynnig y cyfle i fynegi pryderon (roedd 84% a 93% yn cytuno) a chael ateb i'w cwestiynau (roedd 86% o'r ymatebwyr o'r ddau sector yn cytuno). Y sector lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi pryderon a chael ateb i'w cwestiynau oedd BILlau, wrth i 45% a 44% gytuno a 31% a 22% anghytuno.

Ffigwr 57. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon



⁷³ Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion uwchradd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi pryderon (70%) a chael ateb i'w cwestiynau (75%), o'i chymharu ag ysgolion cynradd a chanol (46% a 47%). Roedd cyfran lawer yn uwch o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod pobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi pryderon (62%), o'i chymharu ag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg (46%). Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ynghylch a chaiff plant a phobl ifanc y cyfle i gael ateb i'w cwestiynau.

Ffigwr 58. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gael ateb i'w cwestiynau




Cynnwys rhieni a gofalwyr mewn perthynas â'r system bresennol ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol ac anstatudol

3.69 Gofynnwyd i ymatebwyr a **chaiff rhieni a gofalwyr eu cynorthwyo i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant ac a chânt eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau hyn.** Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr ar draws y sectorau yn nodi safbwyntiau tebyg wrth ateb y ddau gwestiwn hwn, gyda chyfran fawr o ymatebwyr o bob sector (rhwng 71% a 93%) yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant. Ysgolion prif ffrwd⁷⁴, ysgolion arbennig ac adrannau addysg ALLau oedd y sectorau a oedd yn cynnwys cyfran fwyaf yr ymatebwyr a nododd bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau (roedd 92%, 93% a 92% yn cytuno) ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau (roedd 91%, 93% ac 89% yn cytuno). Y sectorau lle y gwelwyd cyfran leiaf yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau oedd CAAau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau. Roedd 71% o CAAau a 76% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau yn cytuno gyda'r ddau gwestiwn hwn. Ymhellach, roedd cyfran fach o CAAau (14% ar gyfer y ddau gwestiwn) ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau (12% ac


⁷⁴ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

16%) yn anghytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant.

Ffigwr 59. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant




Ffigwr 60. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant



3.70 Gofynnwyd i ymatebwyr a yw rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon ac i gael ateb i'w cwestiynau. Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr ar draws y sectorau yn nodi safbwyntiau tebyg wrth ateb y ddau gwestiwn hwn, ac


roedd cyfran fawr o ymatebwyr o bob sector (rhwng 76% a 100%) yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon ac i gael ateb i'w cwestiynau. Ysgolion prif ffrwd⁷⁵, ysgolion arbennig ac adrannau addysg ALLau oedd y sectorau lle y gwelwyd cyfran fwyaf yr ymatebwyr a nododd bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon (roedd 95%, 100% a 96% yn cytuno) ac i gael ateb i'w cwestiynau (roedd 95%, 100% a 94% yn cytuno). Y sectorau a oedd yn cynnwys cyfran leiaf yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon a chael ateb i'w cwestiynau oedd adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a BILlau. O ran a chaiff rhieni gyfleoedd i fynegi pryderon, roedd 84% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a 78% o BILlau yn cytuno ac roedd 12% o ymatebwyr o'r ddau sector hwn yn anghytuno. O ran a chaiff rhieni gyfleoedd i gael ateb i'w cwestiynau, rodd 76% o ymatebwyr o'r ddau sector hwn yn cytuno ac roedd 12% o adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau ac 14% o BILlau yn anghytuno.

Ffigwr 61. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i fynegi pryderon



⁷⁵ Ni welwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng ymatebion ysgolion cynradd a chanol ac ysgolion uwchradd, na rhwng ymatebion ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Ffigwr 62. Y graddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfleoedd i gael ateb i'w cwestiynau



4. Canfyddiadau astudiaethau achos ALLau

- 4.1 Mae'r adran hon yn darparu synthesis o'r prif ganfyddiadau o'r astudiaethau achos ALLau. Cyflwynir y bedair astudiaeth achos ALI unigol yn Atodiad A, a chyflwynir y prif ganfyddiadau isod.
- 4.2 Cyflwynir canfyddiadau sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau yn gyntaf, a dilynir hyn gan safbwyntiau'r sawl a gyfwelwyd am brosesau mewn perthynas â SEP, gan gynnwys nodi ac asesu, cynllunio, cynnwys rhieni/gofalwyr a dysgwyr, adolygu a datrys anghytundeb. Cyflwynir canfyddiadau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau yn gweithio gydag eraill, prosesau trosglwyddo a'r iaith Gymraeg tuag at ddiwedd yr adran.

Rolau a chyfrifoldebau

- 4.3 Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag AAA yn glir dan y trefniadau presennol. Nododd y rhan fwyaf hefyd eu bod yn deall rolau'r sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn glir ynghylch rôl ysgolion, ALLau a phartneriaid eraill wrth nodi'r pryder cychwynnol, cynnal gwahanol fathau o asesiadau, cynllunio a darparu SEP a datrys anghytundebau.
- 4.4 Roedd y sawl a gyfwelwyd yn gallu disgrifio strwythurau sydd yn eu lle ar wahanol lefelau (ysgol, clwstwr, ALI, rhanbarthol, aml-asiantaeth) sy'n helpu i gynnig eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Roedd y rhain yn cynnwys: cyfarfodydd mewnol rheolaidd ynghylch AAA ar gyfer staff ysgol, cyfarfodydd SENCo clystyrau ysgolion, cyfarfodydd rheolaidd rhwng ysgolion a staff ALI, paneli asesu ALI, a chyfarfodydd amlasiantaeth eraill (e.e. rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg neu rhwng ALLau a BILlau).
- 4.5 Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd am ddiffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ariannu SEP, mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r sir. Roedd hyn yn tueddu i godi yng nghyd-destun plant sy'n derbyn gofal mewn achosion pan fydd newid sydyn mewn lleoliad maeth yn arwain at blentyn yn symud i ALI arall. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod diffyg eglurder rhwng BILlau a phartneriaid eraill ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu ac ariannu SEP.

Nodi ac asesu dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.6 Barnwyd bod prosesau er mwyn adnabod yn effeithiol mewn lleoliadau addysg cyfrwng Saesneg. Barnwyd bod prosesau yn weddol effeithiol mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, er yr amlygwyd rhai materion o ran argaeledd offerynnau sgrinio ac asesu. Adroddwyd bod prosesau adnabod tebyg yn eu lle ar draws lleoliadau, sef adnabod AAA posibl ar gyfer dysgwr, a ddilynir gan asesiadau casglu gwybodaeth, monitro ac sy'n cynnwys ffocws, a gynhelir yn fewnol neu gan asiantaeth allanol, ac ymgynghori gyda dysgwyr a'u rhieni a gofalmwr os yw hynny'n briodol. Mewn ysgolion, disgrifiwyd y broses o adnabod anghenion dysgu unigol fel cyfrifoldeb ar y cyd ac yn rhywbeth y gallai unrhyw aelod o staff fynegi pryderon amdano, er enghraifft, athro dosbarth, cynorthwydd addysgu (CA), pennaeth blwyddyn, hyfforddwr dysgu neu aelod o'r tîm cymorth bugeiliol. Yn ogystal, nododd y sawl a gyfwelwyd y gallai rhieni a gofalmwr fynegi pryder hefyd.
- 4.7 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod effeithiolrwydd gweithgarwch adnabod cynnar yn amrywio ar draws ALLau. Mewn rhai ALLau, barnwyd bod adnabod angen yn gynnar ymhlith plant cyn ysgol yn effeithiol, ac fe'i cynorthwyir gan gyswllt agos rhwng gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar, gwasanaethau therapi a gwasanaethau iechyd cymunedol. Barnwyd bod cydleoli gwasanaethau yn ffactor pwysig sy'n cynorthwyo adnabod yn gynnar. Mewn ALLau eraill, adroddwyd bod plant yn cael eu hadnabod yn 'rhy hwyr' ac ystyriwyd bod adnabod yn gynnar yn faes y mae angen sicrhau gwelliant ynddo ar gyfer y gwasanaeth.
- 4.8 Disgrifiodd ysgolion eu prosesau mewnol er mwyn asesu anghenion dysgwyr a gwneud penderfyniadau ynghylch gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Disgrifiodd ysgolion eu strwythurau mewnol er mwyn gwneud penderfyniadau ac amrywiaeth o offerynnau a ddefnyddir er mwyn cynnal asesiad. Soniodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg bod diffyg offerynnau asesu diweddaraf ac sy'n addas i'r oedran ar gael i'w defnyddio trwy gyfrwng y Gymraeg (yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn). Roedd hyn mewn cyferbyniad ag argaeledd offerynnau Saesneg.

- 4.9 Yn y bedair astudiaeth achos, adroddodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion ac ALLau y bu cynnydd yn niferoedd y dysgwyr a welir sydd ag awtistiaeth ac anhawster sy'n ymwneud â chyfathrebu cymdeithasol.
- 4.10 Roedd ysgolion yn tueddu i fanteisio ar gyngor a chymorth staff yr ALI, er enghraifft, seicolegwyr addysg (SA), wrth wneud penderfyniadau am ddysgwyr gweithredu gan yr ysgol a mwy, er bod cyfyngiadau o ran yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer y SA yn rhwystr i rai ysgolion.
- 4.11 Mewn rhai achosion, adroddodd ysgolion eu bod wedi manteisio ar gymorth wedi'i ariannu gan yr ALI ar gyfer dysgwyr ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy. Mewn dau ALI, defnyddiwyd 'cytundebau adnoddau gweithredu gan yr ysgol a mwy' neu 'gontractau gweithredu gan yr ysgol a mwy' gyda rhai dysgwyr. Defnyddiwyd y rhain er mwyn amlinellu cymorth ychwanegol y bydd yr ALI yn ei ddarparu ar gyfer rhai dysgwyr ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy.
- 4.12 Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod rhieni yn aml yn disgwyl y bydd SEP yn ei lle ar unwaith ar ôl y mynegir y pryder cychwynnol. Fodd bynnag, amlygodd y sawl a gyfwelwyd hefyd ei bod yn bwysig neilltuo digon o amser i gynnal arsylwadau cychwynnol a sicrhau bod dysgu gwahaniaethol yn cael ei ddarparu a'i fonitro cyn cynnal asesiadau.
- 4.13 Oni bai bod gan ddysgwr ddatganiad AAA, adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SABau na fyddant yn aml yn cael gwybod am ddysgwyr sydd ag AAA/AAD nes y byddant yn cofrestru. Roedd amrediad o arferion asesu yn gweithredu o fewn SABau ar gyfer y rhai sy'n cychwyn, gan gynnwys ffurflenni hunanasesu i ddysgwyr pan fyddant yn cofrestru, asesiadau llythrennedd a rhifedd a chyfeiriadau gan diwtoriaid cwrs i dimau cymorth i ddysgwyr SAB. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd o SABau bod gan staff amrediad o gymwysterau mewn perthynas ag AAA/AAD, gan gynnwys cymwysterau ym maes cynnal profion gallu gwybyddol ac asesu ar gyfer trefniadau arholiadau.

Cynllunio ar gyfer SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.14 Mae ysgolion ar draws y pedwar ALI yn parhau i ddefnyddio IEPau yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004), er bod

yr holl leoliadau a gwasanaethau wedi mynegi ymwybyddiaeth o'r ffaith y byddai CDUau yn newid wrth weithredu'r ddeddfwriaeth ADY newydd. Roedd un ALI yn bwriadu cyflwyno CDUau ar gyfer yr holl ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 ac yn Mlwyddyn 6 sydd ag AAA, gyda'r IEP yn cael ei gynnwys yn y templed CDU.⁷⁶ Adroddodd ysgolion bod gan bob dysgwr yn yr ysgol ar lefel gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy ac y mae ganddynt ddatganiadau, IEPau.

- 4.15 Mynegwyd hyder gan ysgolion ynghylch defnyddio'r IEP fel system ac roeddent yn teimlo bod y ffurf hwn yn eu galluogi i flaenoriaethu anghenion dysgu unigol ac i gynnig ffocws clir ar gyfer cymorth addysgol heb iddo fynd â gormod o amser athrawon a gweithwyr cymorth.
- 4.16 Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo nad yw'r system IEP yn addas i bob dysgwr sydd ag AAA, a bod tri neu bedwar targed yn annigonol er mwyn cynnwys anghenion rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion cymhleth. Roedd rhai o'r sawl a gyfwelwyd o'r farn nad yw adnabod targedau dysgu ar wahân yn cynrychioli natur holistig datblygiad dysgwyr, hynny yw, bod datblygiad yn digwydd ar draws parthau gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol.
- 4.17 Yn ogystal, disgrifiodd lleoliadau fathau eraill o gynlluniau a ddefnyddir yn ychwanegol i IEPau. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ymddygiad unigol, cynlluniau chwarae, cynlluniau gofal iechyd, cynlluniau trosglwyddo a chynlluniau cymorth bugeiliol ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Cyfeiriwyd at systemau eraill sy'n bwysig o ran y cynllunio gan rai o'r rhai a gyfwelwyd, er enghraifft, defnyddio 'pasbortau disgyblion' gyda dysgwyr sydd ag awtistiaeth, sy'n nodi amodau amgylcheddol pwysig i athrawon eu hystyried.
- 4.18 Mewn SABau, defnyddiwyd cynlluniau dysgu unigol gyda'r holl ddysgwyr a defnyddir y system hon hefyd er mwyn cynllunio ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol. Adroddwyd bod cynlluniau ar gael ar-lein yn gyffredinol i'r holl staff sy'n ymwneud â dysgwr a'u bod yn cynnwys gwybodaeth a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.
- 4.19 Nododd y sawl a gyfwelwyd bod prosesau cynllunio ym mhob lleoliad wedi dechrau canolbwyntio yn fwy ar yr unigolyn dros y blynyddoedd diwethaf, a disgrifiwyd bod

⁷⁶ Nid yw'r gofynion CDU gorfodol, a nodir yn y Cod ADY newydd i Gymru, wedi cael eu cyhoeddi eto. Gallai hyn fod yn wahanol i'r CDU a ddatblygwyd ac a beilotwyd fel rhan o astudiaeth ymchwil gweithredol Llywodraeth Cymru (Gweler Adran 1.7).

dysgwyr a'u rhieni a'u gofalmwyr yn cael mwy o gyswllt gyda'r broses gynllunio ar ôl y caiff angen dysgu ei nodi. Proffiliau un tudalen oedd yr offeryn PCP a ddefnyddir amlaf gan y sawl a gyfwelwyd mewn lleoliadau ysgol ac fe'u defnyddir ar y cyd ag IEP yn aml.

- 4.20 Mae ALLau wedi cael cyswllt gweithredol gyda'r broses o hyrwyddo PCP. Sefydlwyd gweithgor mewn un ALI i ddatblygu hyfforddiant PCP ar gyfer ysgolion ac adnoddau cysylltiedig. Nododd dau ALI bod pob SENCo ysgol wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant PCP a chadarnhawyd hyn yn ystod ymweliadau ysgol a gynhaliwyd.

Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalmwyr wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â SEP gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.21 Roedd rhan fwyaf y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod prosesau er mwyn cynnwys dysgwyr a rhieni/gofalmwyr mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â SEP a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, yn effeithiol. Mynegwyd ymrwymiad cadarn gan bob lleoliad addysgol i ymgynghori â dysgwyr, eu rhieni, eu gofalmwyr a rhanddeiliaid eraill. Dywedodd rhai lleoliadau eu bod wedi bod yn ymgynghori â phlant, pobl ifanc a rhieni a gofalmwyr ers cryn amser yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004) sy'n bodoli eisoes, ac roeddent o'r farn bod blaenoriaethu gwrando mewn dull gweithredu wedi'i seilio ar PCP yn dilysu arferion presennol.
- 4.22 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau o'r farn bod ffurfio perthnasoedd cadarn gyda dysgwyr yn ffordd bwysig o alluogi eu cyfranogiad mewn prosesau penderfynu. I nifer o ysgolion, barnwyd bod sicrhau safbwyntiau dysgwyr yn rhan annatod o'r arfer addysgu a dysgu ac yn agwedd allweddol ar asesu ffurfiannol. Adroddwyd yr ymgynghorir â dysgwyr yn rheolaidd ynghylch gosod targedau, yn aml fel rhan o drefniadau cynllunio ac adolygu parhaus yn yr ystafell ddosbarth.
- 4.23 Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn lleoliadau addysgol yn teimlo bod y gallu i fynegi safbwyntiau personol ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu ymhlith dysgwyr. Roedd strategaethau cymorth a ddisgrifiwyd gan y sawl a gyfwelwyd yn cynnwys paratoi dysgwyr ymlaen llaw ar gyfer cyfarfodydd, defnyddio offerynnau hunanwerthuso, a chaniatáu i ddysgwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd amdanynt pan fyddant yn ifanc, fel eu bod yn cael cyfle i

feithrin eu sgiliau. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod offerynnau PCP o gymorth defnyddiol ar gyfer hyn a'u bod yn dda wrth ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio ar gyfer dysgwr a'r hyn sy'n bwysig iddynt mewn ffordd adeiladol.

- 4.24 Pwysleisiodd y sawl a gyfwelwyd mewn leoliadau addysgol bwysigrwydd cael sgysiau ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr dysgwyr sydd ag AAA. Nododd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion a SABau bod presenoldeb rhan fwyaf y rhieni mewn cyfarfodydd yn dda, er mewn rhai lleoliadau, amlygodd y sawl a gyfwelwyd y gallai annog rhai rhieni/gofalwyr i gymryd rhan mewn penderfyniadau fod yn heriol (e.e. os na fyddent yn mynychu nosweithiau rhieni). Defnyddiwyd amrywiaeth o blatfformau cyfathrebu yn rheolaidd yn ychwanegol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn cynnwys llyfrau cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol, nosweithiau rhieni, galwadau ffôn a chyfathrebu trwy e-bost.
- 4.25 Roedd unigolion a gyfwelwyd o SABau yn cwestiynu pa mor briodol yw cael cyswllt rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr ar gyfer oedran rhan fwyaf eu dysgwyr, ac roeddent yn ei ystyried yn rhan bwysig o'r broses benderfynu i rai dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion cymhleth, ond yn amhriodol i ddysgwyr sydd ag anghenion llai cymhleth.
- 4.26 Dywedodd y sawl a gyfwelwyd ym maes iechyd eu bod yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a'u bod yn ceisio sicrhau bod plant a theuluoedd wrth wraidd penderfyniadau a wneir am SEP. Disgrifiwyd hyn gan y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd fel ffordd sefydledig o weithio o fewn BILlau ac yn rhywbeth sy'n rhan o bolisi a chanllawiau iechyd presennol. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn teimlo, er gwaethaf yr agenda hon o gyfranogi, bod gweithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn golygu eu bod yn cael llai o gyswllt gyda rhai plant, yn enwedig ar ôl iddynt symud ymlaen o'r cyfnod cyn ysgol.
- 4.27 Disgrifiwyd prosesau yr oeddent wedi'u sefydlu er mwyn cynnig mynediad i wybodaeth, canllawiau a chymorth i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr gan ran fwyaf y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys llinellau cymorth y gallai dysgwyr a rhieni/gofalwyr (yn ogystal ag ymarferwyr) fanteisio arnynt dros y ffôn neu trwy e-bost a chanllawiau a ddarparir ar-lein (e.e. fideos a dogfennau ar grŵp Facebook). Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o faes iechyd wedi disgrifio sesiynau galw heibio neu weithdai rheolaidd y maent yn eu darparu mewn ysgolion, sy'n galluogi dysgwyr a rhieni/gofalwyr i fanteisio ar gymorth wyneb yn wyneb.

SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.28 Yn gyffredinol, roedd lleoliadau addysgol yn teimlo eu bod yn cynnig SEP ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA sy'n effeithiol o ran gwella deilliannau dysgwyr. Roedd y sawl a gyfwelwyd wedi darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd ar ffurf sgorau cyrhaeddiad, cyfraddau absenoldeb isel, nifer fach iawn o waharddiadau, yn ogystal â bodlonrwydd dysgwyr a rhieni, mwy o hyder a lles ymhlith dysgwyr, a gwell cymhelliant a gallu i ymgysylltu â dysgu.
- 4.29 Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd amrywiaeth o fathau o SEP sy'n cael eu darparu yn eu lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys: gwaith mewn grwpiau bach a chymorth yn y dosbarth, sesiynau encilio, gwaith dal i fyny a darparu rhaglenni ymyrraeth sy'n targedu sgiliau ar wahân (e.e. llythrennedd a rhifedd, iaith a lleferydd, llythrennedd emosiynol, sgiliau rhyngweithio cymdeithasol).
- 4.30 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau prif ffrwd a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith ymchwil yn rhedeg 'dosbarthiadau arbennig', 'lleoliadau' neu 'ganolfannau' ar gyfer dysgwyr AAA. Roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod y rhain yn cynnig budd i rai dysgwyr sydd ag AAA oherwydd maint bach y grŵp, ansawdd yr addysgu a'r amgylchedd dysgu, a hyblygrwydd a chymhwysedd y cymorth sydd ar gael. Nododd sawl un o'r rhai a gyfwelwyd bod perthnasoedd cryf a'r drafodaeth barhaus ynghylch addysgeg (dull ac arfer addysgu fel pwnc academiaidd neu gysyniad damcaniaethol) gyda dysgwyr yn arferion a oedd yn cynnig sylfaen ar gyfer SEP effeithiol. Roedd rhai yn teimlo bod y math hwn o arfer yn fwy posibl mewn amgylcheddau dysgu sy'n cynnwys llai o ddysgwyr.
- 4.31 Mynegodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd eu cred y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gyfleu'r ffaith bod AAA yn gyfrifoldeb pob athro a darlithydd. Roedd rhai yn teimlo bod darparu SEP mewn dosbarthiadau arbennig yn lleihau mynediad dysgwyr i ehangder llawn y cwricwlwm, ac nad yw'n gallu addasu i ddatblygiad dysgwyr a'u hanghenion sy'n newid.
- 4.32 Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd y prosesau sy'n cynorthwyo darpariaeth SEP effeithiol yn eu barn nhw. Y pethau mwyaf cyffredin y cyfeiriwyd atynt gan y sawl a gyfwelwyd fel ffactorau allweddol wrth ddylanwadu ar effeithiolrwydd oedd arweinyddiaeth glir, addysgu o ansawdd, gwybodaeth ymarferwyr am ddysgwyr,

perthnasoedd cryf gyda rhieni a gofalwyr, gweithgarwch gofalus i fonitro cynnydd dysgwyr a gwerthuso SEP yn rheolaidd.

- 4.33 Er bod rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod SEP a ddarparir trwy gyfrwng trefniadau gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB yn effeithiol, roedd y rhan fwyaf o'r farn hefyd y gwelir diffyg capasiti ac argaeledd o ran SEP, sy'n gysylltiedig â phwysau ariannol. Barnwyd bod hyn yn her sylweddol wrth ddarparu SEP a fyddai'n galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial llawn. Nododd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o faes addysg, iechyd a gofal cymdeithasol bod gofyn i wasanaethau wneud gormod ac na allant gynnig cymorth amserol i rai dysgwyr mewn ysgolion, a disgrifiwyd bod gwasanaethau iechyd plant a CAMHS yn wynebu problemau arbennig o anodd o ran eu capasiti.
- 4.34 Er bod y sawl a gyfwelwyd wedi adrodd bod perthnasoedd gwaith yn dda ar draws gwasanaethau yn gyffredinol, roedd rhai o'r farn bod materion sy'n ymwneud â'r capasiti o fewn gwasanaethau iechyd yn rhoi plant a phobl ifanc nad oes ganddynt gyflwr y rhoddwyd diagnosis clir iddo, dan anfantais arbennig. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sawl a gyfwelwyd yn cwestiynu a ddylai asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan ALI, iechyd) ganolbwyntio gymaint ar ddarparu mewnbwn uniongyrchol i ddysgwyr, neu a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn hyfforddi ac yn datblygu capasiti ysgolion a cholegau er mwyn iddynt ddeall anghenion dysgu yn llawnach a defnyddio strategaethau sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- 4.35 Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod angen ystyried cyflawniad dysgwyr ac effeithiolrwydd SEP mewn gwahanol ffyrdd ar gyfer gwahanol ddysgwyr, er enghraifft, gan ddibynnu ar eu hoedran a'u hamgylchiadau unigol. Ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion, roedd y sawl a gyfwelwyd yn tueddu i gysylltu effeithiolrwydd SEP gyda mynediad at gwricwlwm amgen neu wahaniaethol a'r cynnydd mewn perthynas â hyn. Mewn SABau, ystyriwyd effeithiolrwydd SEP yn nhermau nodau'r dysgwr, y gallent fod yn canolbwyntio ar sicrhau cymhwyster neu ddatblygu i fod yn rhywun y gellir eu cyflogi, ond hefyd, ar wella lles, hunan-barch a hunan-hyder.

Adolygiadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.36 Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd mewn lleoliadau addysgol yn teimlo bod adolygiadau ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB yn effeithiol. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion eu bod yn adolygu IEPau yn rheolaidd (bob tymor fel arfer, er bod rhai ysgolion wedi nodi bod hyn yn digwydd ddwywaith y tymor), a chaiff diweddariadau eu gwneud os bydd gofyn gwneud unrhyw newidiadau/cymryd unrhyw gamau. Yn ogystal, disgrifiodd ysgolion drafodaethau anffurfiol mwy rheolaidd rhwng staff AAA (e.e. cyfarfodydd wythnosol SENCos, athrawon AAA a CA) a gyda'r holl staff mewn ysgolion (e.e. SENCos yn arwain eitemau mewn cyfarfodydd staff).
- 4.37 Roedd gan ysgolion a staff ALLau safbwyntiau cadarnhaol ynghylch y defnydd a wneir o PCP mewn adolygiadau. Roeddent yn teimlo ei fod yn cryfhau llais dysgwyr a rhieni, yn creu mwy o 'berchnogaeth' ymhlith dysgwyr ac yn gwella gweithgarwch cynllunio â ffocws a gosod amcanion mewn ysgolion. Barnwyd bod defnyddio arferion PCP yn cymryd mwy o amser i ymarferwyr, ond roeddent o'r farn ei fod yn fwy gwerth chweil yn y tymor hir. Fodd bynnag, roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn pryderu ynghylch eu gallu i gynnal adolygiadau PCP ar gyfer pob dysgwr sydd ag AAA. Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion at yr angen i hyfforddi mwy o staff er mwyn iddynt allu cynnal adolygiadau PCP, gan nodi y byddai hyn yn hanfodol er mwyn eu galluogi i ddefnyddio PCP er mwyn adolygu cynlluniau AAA pob dysgwr.
- 4.38 Ychydig iawn o'r rhai a gyfwelwyd y tu allan i leoliadau addysg oedd yn meddu ar safbwyntiau ynghylch prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a dysgwyr sydd â chynlluniau SAB. Roedd rhan fwyaf y staff ALI a wnaeth sylwadau am y prosesau adolygu IEP yn teimlo bod y rhain yn effeithiol, gan nodi nad ydynt yn mynychu fawr iawn o adolygiadau. Adroddodd un ALI y cynhelir adolygiadau blynyddol o gynlluniau ar gyfer SEP a ddarparir trwy gyfrwng trefniadau gweithredu gan yr ysgol a mwy, yn ogystal â datganiadau, ac roeddent yn teimlo bod y broses hon yn effeithiol.

Datrys anghytundebau sy'n ymwneud â SEP gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau SAB

- 4.39 Awgrymodd cyfweiliadau ar draws y pedwar ALI y ceir nifer isel iawn o anghytundebau mewn perthynas â SEP mewn ysgolion. Roedd y sawl a gyfwelwyd o leoliadau addysgol yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin perthnasoedd agored a gonest gyda rhieni a gofalwyr, a gweithredu polisi drws agored sy'n gwahodd cyfathrebu gyda theuluoedd. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn cytuno bod gweithredu'n gyflym pan godir mater, trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gwrando'n barchus ar bryderon rhieni a gofalwyr yn arferion pwysig a oedd yn sicrhau bod gwrthdaro yn cael ei ddatrys yn gynnar.
- 4.40 I rai o'r rhai a gyfwelwyd, roedd ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn agwedd bwysig ar SEP, sy'n cynorthwyo cynnydd dysgwyr yn eu barn nhw. Defnyddir amrediad o blatfformau cyfathrebu gan ysgolion a cholegau ac roedd rhai sefydliadau yn defnyddio strwythurau penodedig er mwyn cael sgysiau gyda rhieni a gofalwyr.
- 4.41 Mewn SABau, adroddodd y sawl a gyfwelwyd y gallai datrys anghytundebau gymryd cryn dipyn o amser a'i fod yn aml yn canolbwyntio ar ddatrys materion mewn perthynas â dilyniant dysgwr a natur y cymorth a ddarparir i ddysgwyr. Roedd SABau o'r farn mai trafodaethau rhwng ymarferwyr a theuluoedd yw'r ffurf bwysicaf o ddatrys gwrthdaro.

Asesiad statudol ar gyfer anghenion addysgol arbennig

- 4.42 Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion ac ALLau o'r farn bod prosesau asesu statudol yn effeithiol, a'u bod yn cynnwys unigolion priodol sy'n deall anghenion y dysgwr. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn cydnabod y gallai'r cynnydd ymddangos fel pe bai'n cymryd amser hir o bersbectif teuluoedd, ond y cynhelir asesiadau yn unol â'r amserlen a ragnodir gan God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004) yn rhan fwyaf yr achosion.
- 4.43 Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ALLau yn tueddu i gyfeirio at faterion sy'n ymwneud â chapasiti wrth drafod amseroldeb prosesau asesu. Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd at y heriau o fodloni cerrig milltir a chwblhau adroddiadau mewn pryd. Cyfeiriodd rhai at oedi wrth sicrhau tystiolaeth gan bartneriaid allanol (e.e. adroddiadau gan staff BILI), a oedd yn ymwneud weithiau â'r ffaith bod rhieni wedi colli apwyntiadau.

- 4.44 Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd eu bod fel arfer yn gallu ymateb i geisiadau am fewnbwn i asesiadau statudol mewn ffordd amserol, er bod nifer o ffactorau yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny. Roedd y rhain yn cynnwys: oedi cyn cael ceisiadau (e.e. nododd rhai bod oedi yn digwydd weithiau os na fyddai ceisiadau'n cael eu hanfon at therapyddion yn uniongyrchol, ond yn mynd trwy baediatregydd cymunedol), os oeddent wedi gweld y dysgwr yn flaenorol/yn ddiweddar (ac felly, a oedd angen iddynt drefnu ymgynghoriad arall), a chapasiti cyfyngedig, a oedd yn aml yn gysylltiedig â thargedau ynghylch amserau aros a/neu brinder staff.
- 4.45 Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ALLau ac mewn rhai ysgolion arbennig bod y math o dystiolaeth a ddarparir gan ysgolion i'w ystyried gan baneli asesu yn amrywio. Nododd un ALI eu bod yn darparu pecyn o adnoddau gan gynnwys canllawiau i ysgolion ynghylch gwneud cyfeiriadau, a nododd un BILI eu bod yn darparu hyfforddiant cyn cyfeirio i ysgolion er mwyn helpu i wella arfer. Awgrymodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd y byddai modd i ALLau ddarparu canllawiau mwy manwl i ysgolion am y dystiolaeth y dylent ei darparu ar gyfer asesiadau statudol (e.e. pa offerynnau sgrinio neu asesu y dylent eu defnyddio).
- 4.46 Mewn rhai BILlau, roedd un pwynt er mwyn anfon cyfeiriadau yn cael ei ddefnyddio a defnyddiwyd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd er mwyn trafod y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer pob cyfeiriad. Barnwyd bod y dull gweithredu hwn yn ffordd fwy effeithlon o ddelio â chyfeiriadau a nodi asiantaethau allweddol ar gyfer achosion unigol.
- 4.47 Mewn dau ALI, adroddodd y sawl a gyfwelwyd y bu cynnydd nodedig yn nifer y ceisiadau am ddatganiadau. Cefnogwyd hyn gan ddata a ddarparwyd gan yr ALLau hyn a oedd yn dangos cynnydd canrannol uwch na'r cynnydd a welwyd ar draws Cymru, sef 15% rhwng 2014/15 a 2016/17 (gweler Adran 5.11-5.25 am ddadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan ALLau). Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ALLau o'r farn bod y cyfrifoldebau statudol presennol yn tueddu i greu cymhelliant i ysgolion gyfeirio dysgwyr am asesiad fel ffordd o sicrhau SEP. Mewn rhai achosion, roedd staff ALI yn teimlo y gall hyn arwain at gyfeiriadau amhriodol am asesiad statudol. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o'r farn bod ymwybyddiaeth ysgolion a rhieni/gofalwyr o'r diwygiadau sydd ar y gorwel ac sy'n ymwneud â'r rhaglen trawsnewid ADY, yn ffactor a oedd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn.

Teimlwyd bod sicrhau datganiad yn ffordd o sicrhau bod SEP yn ddiogel, yn wahanol i SEP a ddarparir i ddysgwyr trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, y barnwyd ei fod yn haws i'w derfynu.

- 4.48 Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion o'r farn bod swm y dystiolaeth yr oedd gofyn iddynt ei chyflwyno i baneli asesu yn weddol feichus. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddysgwyr hefyd.
- 4.49 Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn ystyried y gallai fod rhywfaint o amharodrwydd ymhlith ALLau i gynnal asesiad o ddysgwyr yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn ystyried bod yn well gan ALLau aros tan Gyfnod Allweddol 2 weithiau cyn cynnal asesiadau.
- 4.50 Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod cynnwys datganiadau yn rhy fras. Nododd ymatebwyr bod amcanion mewn datganiadau yn aml yn cael eu geirio mewn ffordd fras, nad ydynt yn cynorthwyo datblygiad targedau ar gyfer y tymor byr sydd â ffocws. Roedd ymatebwyr o'r farn bod IEPau yn fwy defnyddiol fel dogfennau gwaith am y rheswm hwn, a gwneir mwy o gyfeiriad at y rhain yn y broses o gynllunio a monitro cynnydd dysgwyr.
- 4.51 Nododd lleoliadau addysgol arbenigol bwysigrwydd parhau i asesu am feysydd o anhawster sylfaenol i ddysgwyr ar ôl i'r broses asesu statudol gael ei chwblhau. Barnwyd bod anhawster sy'n gysylltiedig â dyslecsia, anhawster echddygol ac anhawster cyfathrebu cymdeithasol yn bresennol ymhlith nifer o ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt anawsterau Ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh).

SEP Statudol

- 4.52 Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos yn teimlo bod SEP yn effeithiol ond bod bylchau yn SEP, a oedd yn ymwneud â materion capasiti yn bennaf. Adroddwyd bod cynnal y cydbwysedd cywir o ran SEP yn her i ALLau. Adroddodd ALLau am newidiadau o ran y galw am fathau o SEP, a bod angen mwy o SEP sy'n addas i blant iau mewn rhai rhanbarthau ar hyn o bryd, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AYECh, yn enwedig ar gyfer merched sydd ag AYECh mewn un rhanbarth, ac ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth. Adroddodd dau ALI eu bod yn mynd trwy'r broses o adolygu a datblygu eu SEP

statudol, gan nodi mai rhan o ddiben y newidiadau oedd cynnig cymorth sy'n fwy lleol a chynhwysol.

- 4.53 Nododd rhai ALLau bod maint bach eu hawdurdod yn her o ran SEP. Roedd yr awdurdodau hyn wedi gwneud trefniadau gydag awdurdodau cyfagos i ddarparu rhai gwasanaethau. Adroddodd y sawl a gyfwelwyd mewn rhai ALLau bod nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir yn sylweddol ac y teimlwyd bod absenoldeb SEP addas yn gyfrifol yn rhannol am gyfraddau gwahardd uchel mewn rhai lleoliadau.
- 4.54 Mae cyllid ar gyfer AAA wedi cael ei ddirprwyo i ysgolion mewn rhai rhanbarthau, a rhoddir mwy o ymreolaeth i leoliadau wneud penderfyniadau am y ffordd y maent yn trefnu SEP. Roedd SEP a ariannir yn ganolog ar ffurf canolfan neu gyfleuster addysgu arbenigol a reolir gan yr ysgol prif ffrwd yn gweithredu mewn nifer o leoliadau. Roedd y rhain yn bodloni anghenion dysgwyr sydd â datganiadau, ond hefyd, y rhai heb ddatganiadau mewn rhai achosion, ac adroddwyd eu bod yn helpu i ehangu'r hyn sydd ar gael o ran SEP. Roedd rhai o'r cyfleusterau hyn yn gweithredu darpariaeth allgymorth SEP i ddysgwyr mewn lleoliadau eraill.
- 4.55 Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i blant sy'n derbyn gofal o ran eu hangen mewn paneli lleoli, yn ystod trafodaethau mewn ysgolion ac er mwyn manteisio ar ddarpariaeth iechyd a gwasanaeth cymdeithasol i blant.
- 4.56 Cyfeiriodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd o leoliadau addysg at ddefnyddio SEP arbenigol a ddisgrifiwyd fel dull personoledig wrth addysgu, ac sy'n cynnwys gosod targedau dysgu cyraeddadwy a realistig ar ffurf 'camau bach'. Nododd y sawl a gyfwelwyd bod asesu ffurfiannol parhaus a rhoi adborth cyson i ddysgwyr yn brosesau pwysig o fewn y dull gweithredu hwn. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo nad oedd y ffordd hon o weithio yn cyd-fynd ag amcanion dysgu cyffredinol y maent yn aml yn cael eu darparu mewn datganiadau AAA. Amlygodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd amrediad o arferion a ddefnyddir i roi blaenoriaeth i'r amcanion a'u rhannu'n gamau llai a mwy cyraeddadwy o fewn datganiadau.
- 4.57 Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod systemau cynllunio amgen yn cael eu defnyddio ac y defnyddir amrediad o gynlluniau ar gyfer nifer o ddysgwyr sydd â datganiad. Roedd PCP yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd dreiddiol mewn rhai lleoliadau, yn enwedig yn y rhai sy'n cynnig SEP mwy arbenigol. Roedd trefniadau PCP mewn rhai lleoliadau yn cynnwys gwerthuso cyd-destunau dysgu o ran yr hyn sy'n

gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio i ddysgwyr, gan geisio deall persbectifau dysgwyr o fewn profiadau dysgu a hyrwyddo gwerthoedd PCP ym mhob gweithgarwch mewn ysgolion. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod symud tuag at arferion PCP yn golygu newid diwylliant a chydabod dilysrwydd gwahanol bersbectifau yn yr ystafell ddosbarth. Nodwyd bod elfen cynllunio gweithredu PCP yn cynorthwyo manylder wrth ddatblygu targedau a strategaethau cymorth priodol.

- 4.58 Roedd lleoliadau arbenigol ar draws ardaloedd y bedair astudiaeth achos wedi darparu ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd yn ychwanegol i'r cwricwlwm cenedlaethol. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn y mathau hyn o leoliadau yn ystyried bod gweithgareddau ymarferol estynedig nad ydynt yn seiliedig ar lythrennedd yn rhan bwysig o SEP, o ystyried anghenion y dysgwyr y maent yn eu gwasanaethu.
- 4.59 Adroddodd rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd bod manteisio ar gymorth gan ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i blant yn haws i ddysgwyr sydd â datganiad yn gyffredinol, er y barnwyd ei fod yn faes heriol mewn nifer o leoliadau hefyd. Disgrifiwyd gwasanaethau iechyd plant gan ran fwyaf y rhai a gyfwelwyd fel darpariaeth arbennig o anodd i fanteisio arni, a chyfeiriwyd at CAMHS fel yr un anoddaf yn hyn o beth.
- 4.60 Roedd y sawl a gyfwelwyd o ysgolion yn teimlo y ceir amrywiad o ran effeithiolrwydd SEP a ddarparir gan asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan yr ALI, iechyd), a barnwyd bod mewnbwn mwy rheolaidd (e.e. wythnosol) yn fwy gwerthfawr na mewnbwn tymhorol. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd ar draws gwasanaethau yn mynegi'r farn nad yw rôl gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyd-fynd â dysgu mewn ysgolion, hynny yw, dysgu fel y mae'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth, ac na ddylai ganolbwyntio gymaint ar ddarparu mewnbwn ar gyfer dysgwyr unigol, ond yn hytrach, ar ddarparu sgiliau priodol i athrawon ac ysgolion er mwyn iddynt ddarparu SEP.
- 4.61 Adroddodd SENCos mewn rhai lleoliadau eu bod yn neilltuo cyfran fawr o'r amser a gaiff ei neilltuo iddynt yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol ac roeddent o'r farn bod hyn yn sail i'w heffeithiolrwydd wrth fanteisio ar SEP gan wasanaethau ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA.
- 4.62 Adroddodd ysgolion a SABau eu bod yn meithrin partneriaethau newydd gyda sefydliadau cymunedol, gwirfoddol ac o'r trydydd sector fel ffordd o ddatblygu SEP y tu allan i wasanaethau plant. Adroddwyd bod rhai o'r sefydliadau hyn yn wynebu

materion sy'n ymwneud â chapasiti hefyd yn wyneb y galw sy'n cynyddu. Roedd datblygu arbenigedd a gwybodaeth fewnol trwy ariannu hyfforddiant i staff yn rhywbeth y soniodd rhan fwyaf y lleoliadau amdano, yn enwedig y rhai sy'n cynnig SEP mwy arbenigol.

Adolygu SEP statudol

- 4.63 Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod prosesau adolygu statudol yn gymharol effeithiol. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod strwythurau PCP a ddefnyddir mewn cyfarfodydd wedi cryfhau ansawdd y wybodaeth a gyflwynir fel rhan o adolygiadau.
- 4.64 Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan yr ALI ac y mae ganddynt ddatganiad, adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod cyfarfodydd adolygu blynyddol a chyfarfodydd PEP yn cael eu cynnal ar wahân yn gyffredinol. Ceir sawl rheswm am hyn, gan gynnwys: adroddwyd bod adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn amlach, mae gofyn cael gwahanol weithwyr proffesiynol ar gyfer adolygiadau, teimlwyd ei bod yn amhriodol bod gweithwyr addysgol proffesiynol yn cael clywed rhai manylion am fywydau teuluoedd y gallant gael eu trafod mewn cyfarfod PEP. Fodd bynnag, adroddwyd bod cyfarfodydd adolygu i blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addysgol weithiau.
- 4.65 Adroddodd y sawl a gyfwelwyd bod PCP yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol fel rhan o brosesau adolygu statudol a'u bod yn teimlo bod hyn yn cryfhau prosesau adolygu o ran cynyddu 'ymrwymiad' dysgwyr a rhieni a sicrhau bod gwahanol bersbectifau yn cael eu hystyried yn llawn. Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod PCP yn cynyddu effeithiolrwydd oherwydd ei bod yn broses gynhwysol a thryloyw sy'n grymuso, ond hefyd, roeddent yn pwysleisio bod prosesau adolygu yn cymryd llawer mwy o amser i'w cynnal na'r trefniadau adolygu presennol, ac na fyddai modd gwneud hyn ar gyfer pob dysgwr sydd ag AAA. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo'n gryf y byddai hyfforddi mwy o staff i gynnal adolygiadau PCP ac ymgorffori prosesau adolygu trwy gydol y flwyddyn ysgol yn hanfodol os yw PCP yn mynd i gael ei ddefnyddio fel rhan o'r holl adolygiadau AAA.

Cynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am SEP statudol a datrys anghytundebau

- 4.66 Ar draws ardaloedd y bedair astudiaeth achos, roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod prosesau er mwyn cynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch asesu statudol a SEP yn gymharol effeithiol, ond bod meysydd y byddai modd eu gwella hefyd. Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd at amrywiaeth o ddulliau gweithredu ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Roedd nifer o'r rhain yn debyg i brosesau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy (e.e. llyfrau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, nosweithiau rhieni, galwadau ffôn a chyfathrebu trwy e-bost). Fodd bynnag, roedd y sawl a gyfwelwyd o leoliadau addysgol yn adrodd bod yr arfer o gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn fwy rheolaidd, yn amlach ac yn fwy ffurfiol lle'r oedd asesu statudol a SEP, yn cael ei ystyried. Er enghraifft, roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd wedi dechrau defnyddio prosesau PCP ar gyfer rhai dysgwyr er mwyn cynyddu eu cyswllt gyda'r broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd systematig ar gyfer dysgwr fel arfer, ond yn hytrach, roedd yn cael ei dreialu gyda rhai grwpiau. Nododd rhan fwyaf yr ysgolion eu bod yn ceisio ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn gynnar wrth drefnu gwaith cynllunio neu gyfarfodydd adolygu, er mwyn sicrhau ei bod mor gyfleus ag y bo modd iddynt fynychu.
- 4.67 Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd ac ALLau yn ymwneud yn fwy uniongyrchol ag ymgysylltu dysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn gweithgarwch penderfynu ynghylch asesu statudol a SEP. Cyfeiriodd ALLau, er enghraifft, at ddarparu manylion cyswllt grwpiau eiriolaeth i rieni/gofalwyr yn unol â gofynion statudol, a soniodd rhai am y swyddogion cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol a gyflogir gan yr ALL yn ymgysylltu â rhieni/gofalwyr. Soniodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o faes iechyd bod rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn rhan bwysig o'u gwasanaeth.
- 4.68 Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn lleoliadau addysgol wedi disgrifio offerynnau amrywiol a ddefnyddir i hwyluso'r broses o gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn penderfyniadau ynghylch asesu statudol a SEP. Roedd y rhain yn cynnwys: PCP, taflenni adolygu 'yr hyn sy'n gweithio' a'r 'hyn nad yw'n gweithio', holiaduron i

rieni, arolwg Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS), model 'Cyflawniad i Bawb'.

- 4.69 Adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd y gallai cynnwys rhieni a gofalwyr mewn prosesau penderfynu fod yn heriol a bod hyn yn aml yn dibynnu ar ddealltwriaeth rhieni o brosesau, gallu rhieni (e.e. lefelau llythrennedd) a'u profiadau (e.e. profiadau niweidiol posibl o addysg), yn ogystal â'u parodrwydd i ymgysylltu a chymryd rhan. Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd yn rhan fwyaf y lleoliadau addysgol ac mewn ALLau at achosion lle'r oedd gofyn i rieni gael cymorth ac anogaeth sylweddol er mwyn ymgysylltu, wrth i nifer nodi eu bod yn ceisio grymuso rhieni/gofalwyr trwy eu cyfeirio i grwpiau eiriolaeth i rieni. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd y gallai dibynnu ar wybodaeth ysgrifenedig fod yn rhwystr a fyddai'n atal rhieni/gofalwyr yr oedden nhw eu hunain wedi cael anhawster wrth ddarllen, rhag ymgysylltu.
- 4.70 Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod prosesau datrys anghytundeb yn gadarn ac yn effeithiol. Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod nifer yr anghytundebau sy'n mynd i driwlynys yn gymharol fach. Fodd bynnag, nododd rhai staff ALI eu bod yn treulio cryn dipyn o amser ar achosion triwlynys, er bod cyfanswm yr amser yn amrywio'n fawr o achos i achos. Mewn dau ALI, adroddwyd y bu cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion triwlynys dros y blynyddoedd diwethaf a nododd un a gyfwelwyd o ALI bod hyn yn cymryd 'swm aruthrol o amser'.
- 4.71 Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd (gweithwyr iechyd proffesiynol yn bennaf) yn teimlo nad ydynt weithiau yn cael ymwneud â'r broses o drafod pryderon rhieni/gofalwyr yn ddigon cynnar. O ganlyniad, roedd yr unigolion hyn a gyfwelwyd yn teimlo eu bod yn cyflawni rôl cyfryngwyr rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a rhieni/gofalwyr o bryd i'w gilydd. Nododd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd bod rheoli safbwyntiau gwahanol ac sy'n gwrthdaro rhwng plant a rhieni yn faes heriol. Roedd y sawl a gyfwelwyd o leoliadau addysgol ac ALLau o'r farn bod rheoli gwrthdaro rhwng safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn her hefyd. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd wedi disgrifio prosesau yr oeddent wedi'u sefydlu er mwyn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau. Mewn un ysgol, er enghraifft, nododd y SENCo eu bod yn cyfarfod gyda dysgwyr sawl gwaith yn annibynnol cyn adolygiad er mwyn casglu eu safbwyntiau.

Gweithio gydag eraill

- 4.72 Roedd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd o'r farn bod perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, PRUs ac adrannau addysg ALLau. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn tueddu i briodoli hyn i brosesau gwaith amlasiantaeth wedi'u ffurfioli – er enghraifft, cyfarfodydd rheolaidd rhwng staff ALL ac ysgolion, cyfarfodydd clwstwr SENCo a chyfarfodydd panel amlasiantaeth.
- 4.73 Er bod rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod perthnasoedd gwaith da rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a gweithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol, cyfeiriodd y rhan fwyaf hefyd at rwystrau sy'n lleihau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: amseroedd aros hir er mwyn gweld gweithwyr iechyd proffesiynol, materion sy'n ymwneud â chapasiti ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (yn enwedig o fewn CAMHS), gwahanol systemau rheoli gwybodaeth a ddefnyddir gan addysg ac iechyd. Adroddodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd o wasanaethau cymdeithasol ALLau bod gwahaniaethau o ran eu dehongliad nhw o anghenion dysgwyr a dehongliad staff BILI ohonynt o bryd i'w gilydd.
- 4.74 Roedd ALLau yn tueddu i adrodd bod perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol, ond roedd ysgolion yn llai tebygol o adrodd bod arferion gwaith effeithiol gyda gwasanaethau cymdeithasol. Adroddodd rhai ysgolion ei bod yn gallu bod yn anodd cael staff gwasanaethau cymdeithasol i fynychu cyfarfodydd, er enghraifft. Adroddodd y sawl gyfwelwyd o faes iechyd am heriau wrth gydlynw SEP ar draws gwahanol wasanaethau iechyd.
- 4.75 Disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd amrywiaeth o arferion gwaith ar y cyd rhwng addysg ac iechyd, sydd wedi bod yn effeithiol yn eu barn nhw. Roedd y rhain yn cynnwys clinigau neu weithdai rheolaidd a ddarparir gan staff BILI mewn lleoliadau addysg, staff BILI yn darparu hyfforddiant cyn cyfeirio i athrawon a staff ALLau a BILlau yn datblygu protocolau ar y cyd ar gyfer lles dysgwyr.
- 4.76 Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd, o faes iechyd ac addysg, yn teimlo bod y ffaith y ceir ffocws ar weithwyr iechyd proffesiynol yn darparu ymyriadau, yn hytrach na chyflawni rôl mwy strategol, yn wendid o fewn y system bresennol. Roedd rhai yn teimlo y dylai gweithwyr iechyd proffesiynol ganolbwyntio'n fwy ar helpu i ddatblygu capasiti gweithwyr addysg proffesiynol trwy gyfrwng gweithgarwch ymgysylltu strategol, yn ogystal â hyfforddi a chynllunio DPP ar gyfer staff addysg.

- 4.77 Cyfeiriodd y sawl a gyfwelwyd o SABau at ystod eang o bartneriaid allanol yr oeddent wedi meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda nhw. Fodd bynnag, roedd rhai yn tueddu i ddisgrifio'r partneriaethau hyn fel partneriaethau gydag unigolion allweddol yn hytrach na phrosesau ffurfiol mwy systematig megis cyfarfodydd fforwm. Yn ogystal, roedd y sawl a gyfwelwyd o SABau wedi disgrifio amrywiadau o ran prosesau rhannu gwybodaeth ALLau, gan nodi bod rhai ALLau yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd ag AAA mewn ffordd systematig (e.e. lawrlwythiadau blynyddol o ddata AAA ar gyfer dysgwyr) ac mewn ALLau eraill, roedd yn rhaid i SABau ofyn am fanylion dysgwyr gan ysgolion, a ddisgrifiwyd fel proses sy'n cymryd mwy o amser.
- 4.78 Yn y sector ôl-16, cyfeiriodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd at 'feysydd digon amhendant' (e.e. cymorth ar gyfer iechyd meddwl dysgwyr sydd ag ADY) lle y ceir anghytundebau weithiau rhwng SABau ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddarparu ac ariannu cymorth. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod llai o fforymau sefydledig rhwng AB ac iechyd er mwyn trafod y materion hyn a dod i gytundeb amdanynt. Roedd hyn yn golygu bod datrys materion yn dibynnu ar berthnasoedd rhwng unigolion allweddol a thrafodaethau ad hoc weithiau.
- 4.79 Cyfeiriodd yr holl rai a gyfwelwyd at bwyntiau trosglwyddo fel cyfnodau allweddol lle'r oedd gwaith amlasiantaeth ar ei fwyaf effeithiol (gweler yr adran ynghylch trosglwyddo isod).

Trosglwyddo

- 4.80 Yn gyffredinol, roedd y sawl a gyfwelwyd o'r farn bod prosesau trosglwyddo yn effeithiol. Fodd bynnag, adroddodd y sawl a gyfwelwyd ar draws pedair ardal yr astudiaethau achos bod effeithiolrwydd prosesau trosglwyddo yn amrywio ar wahanol adegau a rhwng gwahanol wasanaethau. Yn gyffredinol, barnwyd bod trefniadau trosglwyddo yn fwy effeithiol ac yn fwy systematig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd nag y mae yn y sectorau blynyddoedd cynnar ac ôl-16 (er y disgrifiwyd enghreifftiau o arfer effeithiol yn y sectorau hyn hefyd).
- 4.81 Adroddodd y sawl a gyfwelwyd am amrywiadau o ran effeithiolrwydd y trosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar i'r Cyfnod Sylfaen. Mewn rhai ALLau, adroddwyd bod y trosglwyddo ar yr adeg hon yn effeithiol iawn, ac yn cael ei chynorthwyo gan

berthnasoedd gwaith a phrosesau cyfeirio da rhwng ymwelwyr iechyd (generig a rhai Dechrau'n Deg), paediatregwyr cymunedol, arbenigwyr iechyd (e.e. SLTs), lleoliadau blynyddoedd cynnar, gwasanaethau portage ALI⁷⁷ a swyddogion ALI. Roedd gan un ALI banel safoni amlasiantaeth y blynyddoedd cynnar a farnwyd yn beth effeithiol iawn wrth hwyluso trosglwyddo (yn ogystal ag adnabod yn gynnar a chyfeirio). Mewn ALLau eraill, fodd bynnag, disgrifiodd y sawl a gyfwelwyd brosesau trosglwyddo yn y blynyddoedd cynnar fel meysydd i'w datblygu, gan nodi bod llai o brosesau systematig er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol.

- 4.82 Barnwyd bod amrywiaeth o arferion yn hwyluso trosglwyddo effeithiol mewn gwahanol sectorau. Roedd y rhain yn cynnwys: paneli trosglwyddo amlasiantaeth ALI, ymweliadau estynedig cyn trosglwyddo â lleoliadau i ddysgwyr, cyswllt agos rhwng gweithwyr proffesiynol ar draws lleoliadau, systemau clir er mwyn cyfnewid gwybodaeth, cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr a defnyddio diwrnodau a sesiynau rhagflas. Roedd rhai a gyfwelwyd o ysgolion arbennig a SABau yn teimlo bod cyd-gynllunio a chyd-ddarparu sesiynau neu gyrsiau gydag ysgolion prif ffrwd yn effeithiol wrth baratoi rhai dysgwyr ar gyfer trosglwyddo (e.e. dysgwyr Blwyddyn 9 a 10 y bernir eu bod yn debygol o bontio i AB), yn ogystal â gwella gwaith traws-sector.

Yr iaith Gymraeg

- 4.83 Adroddodd yr holl rai a gyfwelwyd bod eu gwasanaethau yn holi dysgwyr a rhieni/gofalwyr am eu dewis iaith wrth gyfathrebu, gan nodi eu bod yn gallu darparu gwasanaethau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ym mhob ardal yr astudiaethau achos, adroddodd rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd nad yw gwasanaethau wastad yn gallu darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg bob amser. Roedd rhai ALLau wedi mapio'r galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r cyflenwad, er mwyn ceisio nodi unrhyw fylchau.
- 4.84 Er bod yr holl rai a gyfwelwyd wedi nodi bod eu gwasanaethau'n ceisio cynnig pob gwasanaeth yn ddwyieithog, roedd y rhan fwyaf yn cydnabod nad yw rhai gwasanaethau wastad ar gael yn Gymraeg. Y prif rwystrau sy'n atal gwasanaethau

⁷⁷ Mae Portage yn wasanaeth addysgol sy'n cynnal ymweliadau â'r cartref ar gyfer plant cyn ysgol sydd ag AAA, a'u teuluoedd.

rhag bod ar gael yn Gymraeg yw capasiti a phrinder sgiliau. Gwelwyd prinder cyffredinol staff a heriau wrth recriwtio mewn rhai sectorau a rolau, a theimlwyd y rhain yn fwy dwys mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

- 4.85 Nododd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eu bod yn gallu cynnal asesiadau ysgol yn ddwyieithog, ond adroddodd y sawl a gyfwelwyd sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob lleoliad a sector bod prinder offerynnau asesu Cymraeg yn benodol. Adroddodd sawl un a gyfwelwyd bod yr offerynnau Cymraeg sydd ar gael yn aml wedi dyddio o'u cymharu ag amrediad yr offerynnau sydd ar gael yn Saesneg.
- 4.86 Adroddodd rhai ALLau eu bod yn gallu cynnal asesiadau statudol yn Gymraeg, ond adroddodd eraill nad oes unrhyw alw am asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn tueddu i adlewyrchu proffil ieithyddol ardal yr astudiaeth achos (h.y. mwy o alw mewn ardaloedd lle y mae mwy o bobl yn siarad Cymraeg ac i'r gwrthwyneb), yn ogystal ag argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.
- 4.87 Roedd argaeledd SEP a phrosesau adolygu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio fesul sector a lleoliad. Adroddwyd bod darpariaeth ac adolygu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ar gael yn eang mewn lleoliadau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, adroddodd ysgolion, SABau ac ALLau am brinder cyffredinol Cynorthwyr Addysgu, a oedd yn arwain at heriau i leoliadau addysgol.
- 4.88 Adroddodd ysgolion, ALLau a BILlau bod problemau capasiti yn codi yn aml o ran staff arbenigol sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg. Yn ardal o leiaf un astudiaeth achos, cyfeiriwyd at ddiffyg neu brinder capasiti Cymraeg yn y gwasanaethau canlynol: therapi lleferydd ac iaith, seicoleg addysgol, therapi galwedigaethol, gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed, nyrsio cymunedol. Adroddwyd bod hyn yn cyfyngu capasiti ALLau a BILlau i gynnig yr holl wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith eto, amlygwyd y ffaith bod recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg yn her. Yn ogystal, adroddwyd am lefel isel y galw am rai mathau o SEP cyfrwng Cymraeg gan unigolion a gyfwelwyd o ALLau a BILlau, a ddynododd y gallai hyn arwain at ddiffyg niferoedd digonol mewn rhai gwasanaethau (e.e. dosbarthiadau SLT cyfrwng Cymraeg). Dylid nodi bod y Ddeddf yn mynnu bod ALLau yn parhau i adolygu DDdY, gan gynnwys digonolrwydd DDdY yn Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn nodi hefyd bod yn rhaid i Weinidogion Cymru drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY yn

Gymraeg bob pum mlynedd a bod yn rhaid paratoi a chyhoeddi adroddiadau ynghylch canlyniad yr adolygiadau. Ymhellach, mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu fframwaith cyfreithiol er mwyn rhoi dyletswydd ar rai sefydliadau – gan gynnwys ALLau, SABau a BILlau – i gydymffurfio â safonau ymddygiad ynghylch yr Iaith Gymraeg.⁷⁸

- 4.89 Roedd y galw am SEP AB cyfrwng Cymraeg, a chyflenwad hwn, yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos, gan ddibynnu ar broffil ieithyddol yr ardal. Mewn un ardal, nododd y sawl a gyfwelwyd eu bod yn gallu cynnig SEP cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr pan oeddent wedi nodi mai hon yw eu dewis iaith. Mewn ardal arall, adroddodd y SAB ac ysgolion bod SABau yn gallu cynnig staff Cymraeg yn ystod gweithgarwch trosglwyddo a rhywfaint o SEP cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mewn dwy ardal, adroddodd y SAB alw isel am SEP cyfrwng Cymraeg a chapasiti cyfyngedig i gynorthwyo dysgwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

⁷⁸ Mae modd gweld rheoliadau sy'n nodi safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i ALLau a SABau ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#). Gweler: (Cyrchwyd 15 Hydref 2018). Cyflwynwyd rheoliadau drafft sy'n cynnwys safonau'r [Gymraeg ar gyfer y sector iechydd](#), ym mis Chwefror 2018. (Cyrchwyd 15 Hydref 2018).

5. Synthesis a thrafodaeth am y canfyddiadau

- 5.1 Mae'r adran hon yn cynnwys synthesis o ganfyddiadau'r arolwg a'r astudiaethau achos, ynghyd â dadansoddiad o'r ceisiadau am ddata gan ALLau. Yn ogystal, cyflwynir rhai sylwadau cyffredinol am ddull gweithredu yr ymchwil a themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr astudiaeth, isod.

Rhai sylwadau am dull gweithredu yr ymchwil

- 5.2 Roedd yr ymchwil wedi ystyried pwnc cymhleth mewn ffordd gynhwysfawr, a oedd yn cynnwys ystod eang o safbwyntiau gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, mewn SABau, darpariaeth blynyddoedd cynnar, PRU ac EOTAS ac mewn colegau arbenigol annibynnol. Roedd yr ymchwil yn cynnwys casglu safbwyntiau proffesiynol ynghylch y trefniadau presennol mewn perthynas ag AAA/AAD ac felly, roedd yn cynnwys gofyn i bobl fyfyrion am eu harferion eu hunain, ond hefyd, am arferion eraill y maent yn gweithio gyda nhw neu agweddau eraill ar y system AAA.
- 5.3 Mae'n werth nodi na wnaeth yr ymchwil geisio cynnwys safbwyntiau'r dysgwyr eu hunain na safbwyntiau eu rhieni a'u gofalwyr. Mae gwaith ymchwil arall wedi casglu llais dysgwyr a'u teuluoedd (e.e. arolygon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o blant, pobl ifanc a theuluoedd a gynhaliwyd fel rhan o'u hymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil yn 2017) a theimlwyd ei bod yn bwysig bod yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar safbwyntiau a phrofiadau gweithwyr proffesiynol mewn perthynas ag AAA/AAD, gan mai nhw sy'n gweithredu'r diwygiadau a nodir yn y Ddeddf.⁷⁹ Fodd bynnag, mae angen darllen y canfyddiadau gydag ymwybyddiaeth o'r ffaith mai barn gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr am AAA/AAD yw hon, nid barn y dysgwyr, y rhieni neu'r gofalwyr.

⁷⁹ Mae canlyniadau'r arolwg ar gyfer pobl ifanc ar gael yma: [Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\): Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc](#) (Cyrchwyd 20 Awst 2018). [Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\): Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg gan rieni a gofalwyr](#) (Cyrchwyd 20 Awst 2018).

Cyfeirir at gyswilt rhieni/gofalwyr a phlant gyda'r broses o ddatblygu'r Bil drafft yn nogfen [Cwestiynau Cyffredin am Raglen Trawsnewid ADY](#)

Mae'r ymchwil yn crisialu cyfnod trawsnewidiol mewn perthynas â'r system AAA yng Nghymru

- 5.4 Er mai amcan y gwaith ymchwil oedd pennu gwaelodlin y system AAA yng Nghymru, mae'n amlwg o'r canfyddiadau bod y gwaith o addasu prosesau ac arferion, er enghraifft mewn perthynas â gweithgarwch cynllunio ac adolygu ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA, eisoes wedi cychwyn ar yr adeg y casglwyd y data. Er bod ymatebwyr yn ymwybodol o'r ffaith nad yw'r Ddeddf yn ofyniad statudol eto, adroddodd nifer bod newidiadau i systemau wedi cael eu gwneud er mwyn paratoi ar gyfer ei gweithrediad. Adroddodd ymatebwyr am newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar i systemau, a'r newid i'r system gynllunio ac adolygu yn arbennig, y mae bellach yn cynnwys defnyddio prosesau wedi'u seilio ar PCP. Mewn nifer o leoliadau addysgol, barnwyd bod y rhain yn ffordd o weithredu darpariaeth y Ddeddf sy'n ymwneud â safbwyntiau, teimladau a dymuniadau plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr. Mae gwasanaethau addysg wedi darparu hyfforddiant ynghylch PCP yn eang, gan ddefnyddio cyllid LIC at y diben hwn, ac roedd ysgolion wedi adrodd yn gyson ynghylch defnyddio'r prosesau hyn yn eu harfer.
- 5.5 Yn gysylltiedig â hyn, mae cyfranogiad dysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr yn faes arall lle'r adroddwyd am newid, wrth i waith ymgynghori manylach ddigwydd gyda'r grwpiau hyn dros y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chynllunio ac adolygu SEP, yn enwedig i ddysgwyr sydd â datganiadau.
- 5.6 Mewn rhai achosion, mae terminoleg sy'n gysylltiedig â'r trawsnewidiad i ADY a fydd yn digwydd cyn bo hir yn cael ei defnyddio gan ysgolion ac ALLau, er ei bod yn llai clir bod hyn yn arwydd o newid go iawn mewn arfer. Roedd hyn i'w weld amlycaf gyda'r defnydd o'r term CDU, a ddefnyddiwyd gan nifer o ymatebwyr. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y defnyddiwyd y term yn lle'r term IEP mewn rhai achosion, ac nad oedd yn cyfeirio mewn unrhyw achos at weithredu'r system newydd o ran CDUau a gynigir yn y Ddeddf.⁸⁰ Bydd y CDUau newydd yn cynnwys hawliau statudol, gan gynnwys yr hawl i apelio, er nad yw'r gofynion gorfodol llawn wedi cael eu cyhoeddi eto. Roedd ALNCo yn derm arall a ddefnyddir

⁸⁰ Nid yw'r gofynion CDU gorfodol, a nodir yn y Cod ADY newydd i Gymru, wedi cael eu cyhoeddi eto. Gallai hyn fod yn wahanol i'r CDU a ddatblygwyd ac a beilotwyd fel rhan o astudiaeth ymchwil gweithredol Llywodraeth Cymru (Gweler Adran 1.7 y prif adroddiad).

yn eang, ond unwaith eto, roedd hwn yn cael ei ddefnyddio yn lle'r term SENCo, ac nid oedd yn cyfeirio at unrhyw newid o ran rôl a chyfrifoldebau.⁸¹

- 5.7 Mae ysgolion yn parhau i weithredu yn unol â'r canllawiau a nodwyd yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004) ac mae hwn yn diffinio llawer o'r hyn a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr o ran y system AAA a'u prosesau a'u harferion.

Data a gasglwyd gan ALLau

- 5.8 Casglwyd data gan ALLau ynghylch nifer y ceisiadau am asesiadau statudol a gafwyd a nifer yr asesiadau a gynhaliwyd. Roedd gwaith i ddadansoddi'r ffurflenni a oedd yn gofyn am ddata a gasglwyd gan ALLau yn dangos cynnydd yng nghyfanswm y ceisiadau am asesiadau statudol bob blwyddyn, o 2,342 yn 2014/15 i 2,689 yn 2016/17 (Gweler Tabl 98). Roedd y data yn dangos bod nifer yr asesiadau statudol a gynhelir ar draws Cymru wedi codi hefyd rhwng 2014/15 a 2016/17, er bod y nifer wedi gostwng rhwng 2015/16 a 2016/17. Ymhellach, roedd canran y ceisiadau a oedd wedi arwain at asesiad statudol ychydig yn is yn 2016/17 nag yr oedd yn 2014/15 (Gweler Tabl 99).
- 5.9 Yn ogystal, casglwyd data gan ALLau (Tabl 101) ynghylch niferoedd yr anghytundebau a oedd yn ymwneud â phrosesau statudol (436) a welwyd dros y 12 mis diwethaf ac agweddau eraill ar brosesau AAA (221), yn ogystal â niferoedd yr apeliadau a oedd yn ymwneud ag AAA (123) a nifer y rhain a gyrhaeddodd gam y tribiwnlys (39). Roedd llai o ALLau yn gallu darparu data ynghylch anghytundebau a oedd yn ymwneud ag agweddau eraill ar brosesau AAA, ac roedd sylwadau a wnaethpwyd gan ALLau yn awgrymu nad ydynt yn casglu'r math hwn o ddata fel rheol. Mae hyn yn golygu bod pennu darlun manwl o'r gwaelodlin o ran yr agwedd hon ar y system bresennol yn heriol, a bydd angen ystyried hyn wrth gynnal unrhyw waith ymchwil dilynol.

⁸¹ Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru, 2004) yn nodi y dylai SENCOs fod yn gyfrifol am: oruchwylio gweithrediad polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd; cydlynw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA; cael cyswllt gyda a chynghori cyd athrawon; rheoli tîm AAA yr athrawon a'r cynorthwyywyr cymorth dysgu; goruchwylio cofnodion yr holl ddisgyblion sydd ag AAA; cael cyswllt gyda rhieni disgyblion sydd ag AAA; cyfrannu at hyfforddiant mewn swydd staff; cael cyswllt gydag asiantaethau allanol.

Amser a gaiff ei dreulio ar wahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig ag AAA

- 5.10 Yn ogystal, casglwyd data ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i gyflawni gweithgareddau amrywiol sy'n ymwneud ag AAA. O ran yr amser sy'n cael ei dreulio ar brosesau asesu, roedd gwaith a wnaethpwyd i ddadansoddi'r ceisiadau am ddata gan ALLau (gweler Tabl 100) yn dynodi bod ALLau yn amcangyfrif eu bod yn treulio tua 22 awr ar bob asesiad statudol, 6 awr 35 munud yn paratoi datganiad (ar ôl i asesiad statudol bennu bod angen un ar ddysgwr) a 5 awr a 42 munud ar adolygiad blynyddol arferol o ddatganiad AAA. Yn ogystal, roedd ymatebion i'r cais am ddata yn dangos bod ALLau yn amcangyfrif bod staff ALI yn treulio 34 awr yr wythnos ar gyfartaledd yn delio ag anghytundebau sy'n ymwneud ag AAA a 26 awr yr wythnos yn delio ag apeliadau sy'n ymwneud ag AAA. Fodd bynnag, dylid nodi bod llai o ALLau yn gallu darparu amcangyfrifon ynghylch yr amser a gaiff ei dreulio yn delio ag anghytundebau (14 ALI) ac apeliadau (12 ALI), o'i gymharu â phrosesau asesu (20).
- 5.11 Roedd ymatebion gan ysgolion prif ffrwd yn dangos bod SENCos yn amcangyfrif eu bod yn treulio tua 8 awr ar gyfartaledd yn cyfrannu at yr asesiad statudol diwethaf yr oeddent wedi bod yn ymwneud ag ef, a'r cyfanswm oedd 3.4 awr ar gyfer y rhai mewn ysgolion arbennig (Gweler Tabl 13).⁸² Ar gyfer eu hadolygiad statudol mwyaf diweddar, roedd datganiadau SENCos mewn ysgolion prif ffrwd yn amcangyfrif eu bod wedi treulio tua 5 awr yn paratoi ar ei gyfer ac yn cyfrannu ato, ac roedd y rhai mewn ysgolion arbennig yn amcangyfrif 2.4 awr.⁸³
- 5.12 Pan ofynnwyd iddynt amcangyfrif amseroldeb SEP yn cael ei weithredu ar gyfer yr asesiad statudol diwethaf y buont yn ymwneud ag ef, amcangyfrifodd SENCos mewn ysgolion prif ffrwd bod 19-22 wythnos wedi mynd heibio ar gyfartaledd rhwng y cam cychwynnol o adnabod angen cymhleth (angen yr oedd gofyn sicrhau datganiad yn ei gylch) a'r SEP yn cychwyn.⁸⁴ Roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig yn amcangyfrif 26.4 wythnos ar gyfartaledd wrth ateb yr un cwestiwn (Gweler Tabl 14).

⁸² Y ffigwr ar gyfer SENCos mewn ysgolion cynradd a chanol oedd 8.4 awr a 7.9 mewn ysgolion uwchradd.

⁸³ Y ffigwr ar gyfer SENCos mewn ysgolion cynradd a chanol oedd 5.2 awr a 4.5 mewn ysgolion uwchradd.

⁸⁴ Y ffigwr ar gyfer SENCos mewn ysgolion cynradd a chanol oedd 22.3 wythnos ac 19.2 mewn ysgolion uwchradd.

Effeithiolrwydd y system AAA yng Nghymru

- 5.13 Gwelwyd cytundeb cyffredinol, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sector addysg, bod prosesau ac arferion presennol o fewn y system AAA yn effeithiol. Teimlwyd bod gofyn rhoi sylw i rai meysydd cymorth a bod rhywfaint o amrywiad yn bodoli o hyd o ran yr ansawdd. Fodd bynnag, roedd rhan fwyaf y cyfranogwyr o ysgolion a cholegau yn cytuno bod prosesau asesu ac adolygu a'r ddarpariaeth SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy adysgwyr sydd â chynlluniau SAB yn effeithiol, a bod y sefyllfa ar gyfer dysgwyr sydd â datganiad yn effeithiol yn yr un modd. Roedd nifer yr ymarferwyr a oedd yn anghytuno bod agweddau amrywiol ar y system bresennol yn effeithiol yn gymharol fach.
- 5.14 Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr i'r arolwg a'r sawl a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos o'r farn bod asesu ar gyfer gweithredu gan yr ysgol/a mwy ac ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau yn effeithiol.⁸⁵ Gwelwyd cytundeb cyffredinol bod y prosesau hyn yn cynnwys pobl briodol, gan gynnwys dysgwyr, a'u bod yn helpu i osgoi a datrys anghytundebau. Roedd y sawl a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos yn disgrifio asesu statudol fel rhywbeth cadarn, teg a chynhwysfawr, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y bobl gywir yn cymryd rhan.
- 5.15 Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr o ysgolion a cholegau yn cytuno bod prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, datganiadau a chynlluniau SAB yn effeithiol (Gweler Ffigurau 29 a 30). Roedd cyfrannau mwyaf yr ymatebwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hyn yn wir ar gyfer prosesau adolygu statudol ac roedd cyfrannau mwyaf yr ymatebwyr o wasanaethau cymdeithasol ALLau a BILLau yn cytuno i raddau. Ar gyfer adolygiadau o gynlluniau anstatudol, roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr mewn ysgolion prif ffrwd a CAAau yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod prosesau'n effeithiol, ac roedd ymatebwyr mewn SABau yn fwy

⁸⁵ Roedd rhwng 41% a 47% o'r ymatebwyr mewn gwahanol sectorau yn cytuno i raddau bod prosesau asesu statudol yn effeithiol ac roedd rhwng 19% a 34% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hyn yn wir (Gweler Ffigwr 1). Yn yr un modd, roedd 43% o ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael cymorth trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol (gweler Ffigwr 2), ac roedd 40% pellach yn cytuno i raddau. Ac eithrio ysgolion arbennig (lle'r oedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn cytuno hefyd bod prosesau asesu yn effeithiol ar ôl tynnu allan y rhai a atebodd 'ddim yn gwybod'), ymatebwyr o SABau a CAAau oedd yr unig rai lle'r oedd llai na hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod prosesu asesu yn effeithiol.

tebygol o gytuno i raddau bod hyn yn wir. Adlewyrchwyd hyn yng nghyfweliadau'r astudiaethau achos, wrth i'r sawl a gyfwelwyd o ysgolion a SABau ystyried bod eu prosesau adolygu yn effeithiol.

- 5.16 Adroddwyd stori debyg ynghylch effeithiolrwydd mewn perthynas â darpariaeth SEP. Mae canfyddiadau arolygon yn dangos bod rhan fwyaf y cyfranogwyr yn yr astudiaeth o'r farn bod SEP yn effeithiol (Gweler Ffigwr 13). Roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr ar draws ysgolion arbennig (73%), ysgolion prif ffrwd (50%) ac adrannau addysg ALLau (45%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau statudol yn effeithiol. O ran agweddau penodol ar SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a'r rhai sydd â chynlluniau SAB (Gweler Ffigwr 14), roedd cyfran fwyaf yr ymatebwyr o CAAau (71%), SABau (53%), ac ysgolion prif ffrwd (45% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a 43% mewn perthynas â SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP ar gyfer dysgwyr sydd â chynlluniau anstatudol yn effeithiol. Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn mewn cyfweliadau astudiaethau achos a gynhaliwyd mewn ysgolion a SABau, wrth i'r sawl a gyfwelwyd adrodd bod eu prosesau er mwyn darparu SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a chynlluniau SAB yn effeithiol o ran cymorth wedi'i dargedu, gwaith un-i-un a gwaith grŵp, canolfannau adnoddau arbenigol a dosbarthiadau arbennig.
- 5.17 Yn gyffredinol, amlygwyd bod perthnasoedd gwaith ar draws gwasanaethau yn faes pellach o arfer effeithiol, er y gwelwyd amrywiadau o ran pa mor gryf yr oedd ymatebwyr yn teimlo bod perthnasoedd effeithiol wedi cael eu meithrin gyda gwahanol grwpiau neu sefydliadau. Roedd ymatebion i'r arolwg yn dangos bod rhan fwyaf yr ymatebwyr ym mhob sector yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu meithrin gydag ysgolion, adrannau addysg ALLau a rhieni/gofalwyr. Roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno i raddau bod perthnasoedd gwaith effeithiol wedi cael eu datblygu gyda SABau, gwasanaethau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau a Gyrfa Cymru. Mae ymatebion i'r astudiaethau achos yn ategu canfyddiadau'r arolwg ac roedd y sawl a gyfwelwyd yn fwy tebygol hefyd o ystyried bod perthnasoedd gwaith yn effeithiol yn eu sector eu hunain na gyda sectorau eraill.

- 5.18 Yn olaf, roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr o'r farn bod prosesau trosglwyddo yn effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a datganiadau. Roedd cyfrannau uwch o ymatebwyr o ysgolion nag ymatebwyr o SABau, ALLau a BILlau yn cytuno bod prosesau trosglwyddo yn effeithiol. Roedd ymatebwyr ym mhob sector yn fwy tebygol o gytuno bod prosesau trosglwyddo effeithiol yn eu lle o fewn eu lleoliad/gwasanaeth o'u cymharu â phrosesau er mwyn trosglwyddo i mewn ac allan o'u gwasanaeth/lleoliad. Mae canfyddiadau astudiaethau achos yn awgrymu bod trefniadau trosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd wedi cael eu datblygu'n dda a'u bod yn effeithiol yn gyffredinol, er bod rhan fwyaf y rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion ac mewn ALLau yn nodi bod effeithiolrwydd gweithgarwch trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar i ysgolion yn amrywio yn ôl ardal yr astudiaeth achos, wrth i rai ardaloedd adrodd eu bod wedi ffurfio cysylltiadau gwell nag eraill rhwng darparwyr blynyddoedd cynnar, ymwelwyr iechyd ac ysgolion. Adroddwyd bod y trosglwyddo i AB yn eithaf da er bod y sawl a gyfwelwyd o SABau wedi amlygu heriau wrth adnabod AAA/AAD, gan nodi bod amrywiadau o ran arferion ar draws ALLau wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo (e.e. faint o wybodaeth am ddysgwyr a rennir gyda nhw).
- 5.19 Yn erbyn y cefndir hwn o ran effeithiolrwydd cyffredinol y system AAA yng Nghymru, adroddwyd yn gyson am nifer o feysydd sy'n heriol. Roedd un maes heriol nodedig yn ymwneud â'r amserlen benodedig rhwng adnabod angen am asesiad statudol a chwblhau'r broses asesu, a farnwyd yn rhy hir i nifer o ddysgwyr, ac nad yw'n bodloni disgwyliadau rhieni ar hyn o bryd. Cyfeiriodd ymatebwyr yn gyson at y ffaith bod y mynediad i nifer o wasanaethau iechyd yn gyfyngedig iawn yn rhan fwyaf yr ardaloedd ar hyn o bryd, a bod yr amser y mae cyfeiriadau'n eu cymryd yn gallu bod yn rhy hir. Roedd rhai yn ystyried bod ansawdd arfer SEP yn faes heriol pellach, ac adroddwyd am arfer da mewn rhai lleoliadau, gwasanaethau a rhanbarthau, ond roedd beirniadaeth o arferion, systemau a gwasanaethau yn amlwg hefyd. Barnwyd bod datganiadau'n rhy fras a bod eu hamcanion yn aneglur, ac nad ydynt yn cael eu diweddarau mewn ffordd briodol mewn nifer o achosion, ac nad ydynt yn ddigon ymatebol i anghenion dysgwr sy'n newid.
- 5.20 Mae'n nodedig bod SABau/CAAau a BILlau wedi adrodd am heriau hefyd wrth iddynt ryngweithio gydag ALLau ac ysgolion, ac roedd llai na hanner yr ymatebwyr o

SABau/CAAau a BILlau yn cytuno bod perthnasoedd gwaith effeithiol yn bodoli, ac roedd colegau yn nodi anawsterau wrth adnabod AAA/AAD ar gyfer dysgwyr nad oedd ganddynt ddatganiad yn yr ysgol.

- 5.21 Bydd hi'n amlwg y bydd y Ddeddf newydd yn ceisio rhoi sylw i nifer o'r meysydd heriol hyn, yn fwyaf penodol trwy gyfrwng y trefniant newydd ar gyfer CDUau, sy'n cyflwyno un system i bob dysgwr sydd ag ADY ac sy'n gofyn bod cynlluniau yn cael eu cynnal nes bydd unigolion yn 25 oed. Fodd bynnag, mae'r ymchwil yr adroddir amdano yma yn amlygu'r ffaith nad oedd cytundeb llwyr ynghylch effeithiolrwydd y system AAA fel y mae'n bodoli ar hyn o bryd, a thrafodir hyn isod hefyd.
- 5.22 Yn ychwanegol i'r uchod, nodwyd nifer o gryfderau a heriau mewn perthynas â darparu SEP trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chapasiti sefydliadau i ddarparu cymorth yn Gymraeg.

Yr iaith Gymraeg

- 5.23 Mae rhan fwyaf yr ysgolion ac adrannau addysg ALLau yn cytuno bod trefniadau asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a'r rhai sydd â datganiadau. Efallai nad yw'n peri syndod bod ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno bod prosesau asesu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir amdanynt. Fodd bynnag, roedd cyfweiliadau gydag ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dangos eu bod yn teimlo bod diffyg offerynnau sgrinio ac asesu AAA cyfoes ac addas i'r oedran ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, gan awgrymu bod hwn yn faes y mae angen ei wella. Ymhellach, roedd cyfrannau sylweddol o ymatebwyr i'r arolwg o BILlau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol ALLau wedi ateb 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' wrth ateb cwestiynau ynghylch asesu cyfrwng Cymraeg, gan adlewyrchu eu hymwybyddiaeth gyfyngedig o'r mater neu eu cyswllt cyfyngedig ag ef.
- 5.24 O ran safbwyntiau cyffredinol am brosesau asesu, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr o ysgolion cyfrwng

Saesneg o gytuno bod prosesau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy yn effeithiol.

- 5.25 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn fwy tebygol o gytuno nac anghytuno bod SEP ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr sydd â datganiadau a'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy. Roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol nag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno bod SEP cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdani ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau a'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith eu bod yn fwy cyfarwydd gyda'r SEP cyfrwng Cymraeg a'r cymorth sydd ar gael yn gyffredinol (gan gynnwys ar gyfer AAA). Fodd bynnag, roedd cyfran nodedig o ymatebwyr mewn ysgolion arbennig yn anghytuno bod SEP cyfrwng Cymraeg ar gael i ddysgwyr sydd â datganiadau. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r astudiaethau achos, a oedd yn dynodi nad yw cymorth wastad ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hyn o ganlyniad i broblemau capasiti mewn rolau penodol yn bennaf, yn enwedig staff arbenigol. Mae hyn yn awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth bellach i sgiliau Cymraeg ymatebwyr sy'n gweithio yn y system AAA, a bod goblygiadau posibl o ran recriwtio a hyfforddi.⁸⁶ Yn yr un modd ag asesu, roedd cyfrannau nodedig o ymatebwyr wedi ateb 'ddim yn gwybod' i gwestiynau ynghylch SEP cyfrwng Cymraeg, gan ddynodi eu cyswllt cyfyngedig gyda'r agwedd hon o'r system. Gallai hyn hefyd adlewyrchu diffyg gwybodaeth ymhlith ymarferwyr ynghylch y sgiliau Cymraeg sy'n bodoli yn eu gweithlu a'r cymorth y gellir ei ddarparu yn Gymraeg os gofynnir amdano.
- 5.26 O ran safbwyntiau cyffredinol am SEP, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol o gytuno y caiff SEP ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg yn llawer mwy tebygol o gytuno: y caiff SEP ei darparu mewn ffordd amserol; y caiff SEP ei darparu yn y lleoliad mwyaf priodol; bod y system bresennol yn galluogi dull gweithredu hyblyg wrth ddarparu SEP; a bod SEP yn

⁸⁶ Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am sgiliau'r gweithlu yn ddiweddar yn [Data am weithlu gwasanaethau arbenigol yr awdurdodau lleol ym maes anghenion addysgol arbennig](#): (Cyrchwyd 3 Hydref 2018)

galluogi dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy i wireddu eu potensial llawn.

- 5.27 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn fwy tebygol o gytuno nac anghytuno bod prosesau adolygu ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy neu'r rhai sydd â datganiadau. Fodd bynnag, yn yr un modd â chwestiynau ynghylch asesu a SEP, roedd cyfran uchel o ymatebwyr mewn rhai sectorau wedi ateb 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'. Yn yr un modd ag asesu a SEP, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno bod adolygiadau cyfrwng Cymraeg ar gael pan ofynnir amdanynt. Awgrymodd canfyddiadau astudiaethau achos y cynhelir adolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg pan ofynnir am hyn, er bod y sawl a gyfwelwyd wedi nodi hefyd bod y gallu i ddarparu mewnbwn yn Gymraeg yn dibynnu ar sgiliau ieithyddol staff.
- 5.28 O ran safbwyntiau cyffredinol am brosesau adolygu, roedd ymatebwyr o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol na'r rhai o ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno: bod prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol; bod prosesau adolygu yn defnyddio PCP mewn ffordd effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy a gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy.
- 5.29 O ran gweithio gydag eraill, roedd ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol nag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno y ceir eglurder am y cyfrifoldebau o fewn y system bresennol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy. Yn ogystal, roeddent yn llawer mwy tebygol o gytuno eu bod yn cael y wybodaeth y mae angen iddynt ei chael ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu yn y blynyddoedd cynnar/a mwy.
- 5.30 Roedd ysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg yn llawer mwy tebygol nag ysgolion prif ffrwd cyfrwng Saesneg o gytuno: bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall penderfyniadau ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a bod pobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi pryderon. Yn ogystal, roedd gan y sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr astudiaethau achos

safbwyntiau cadarnhaol ynghylch yr eglurder o ran cyfrifoldebau, er nad oedd y rhain yn wahanol iawn i safbwyntiau'r sawl a gyfwelwyd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- 5.31 Efallai y byddai'n werth ymchwilio ymhellach i'r gwahaniaethau a amlygwyd uchod rhwng canfyddiadau gan ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn unrhyw waith ymchwil dilynol gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr.

Gwahanol safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd y system AAA yng Nghymru

- 5.32 Mae'r ymchwil yn dynodi bod gwahanol safbwyntiau yn bodoli ynghylch effeithiolrwydd systemau AAA, yn enwedig ymhlith y rhai sydd y tu allan i'r gwasanaeth addysg. Gellir gweld y dystiolaeth fwyaf clir ynghylch bodolaeth gwahanol safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd y system AAA yn yr ymatebion i'r arolwg gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn BILlau. Roedd y rhain wedi ystyried yn gyson bod effeithiolrwydd amrediad o brosesau ac arferion yn is nag yr oedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg yn ei ystyried. Er enghraifft, roedd lleiafrif o ymatebwyr o BILlau yn cytuno bod prosesau adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n cael SEP trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol o ran cyfranogiad dysgwyr ac osgoi anghytundebau. Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn astudiaethau achos o BILlau nad oes ganddynt y capasiti i gyfrannu at weithgarwch asesu ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, ond nododd rhai nad ydynt yn aml yn cael eu cynnwys yn ddigon cynnar. Dim ond 9% o'r ymatebwyr i arolwg BILI oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod SEP i ddysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn effeithiol (tynnwyd allan ymatebion yr 13% a atebodd 'ddim yn gwybod'), sydd unwaith eto yn cyfeirio at ddiffyg capasiti o ran SEP, yn enwedig y ddarpariaeth iechyd, ond hefyd, at her o ran amseroldeb, hyblygrwydd, galluogi dysgwyr i wireddu eu potensial, a datrys anghytundebau.
- 5.33 Roedd cyfranogwyr o BILlau yn tueddu i deimlo'n llai hyderus am arferion adolygu a SEP statudol o'u cymharu â'r rhai o sectorau eraill. Roedd lleiafrif yr ymatebwyr o BILlau yn cytuno bod SEP statudol yn effeithiol o ran ei hyblygrwydd, ei hargaeledd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r graddau y mae'n helpu i osgoi a datrys anghytundebau. O'u cymharu ag ysgolion, roedd canran is o ymatebwyr o ALLau a BILlau yn cytuno gydag amrediad o ddatganiadau mewn perthynas ag agweddau

amrywiol ar adolygiadau statudol, gan gynnwys defnyddio PCP, amseroldeb a'r graddau y mae trefniadau adolygu yn helpu i osgoi a datrys anghytundebau. Roedd y sawl a gyfwelwyd o faes iechyd yn teimlo y dylent ymwneud yn fwy â phaneli darpariaeth ALI a bod angen iddynt gael eu cynnwys yn fwy mewn gweithgarwch rhannu gwybodaeth, yn enwedig yn dilyn adolygiadau o SEP.

- 5.34 5.34 Roedd cyfweiliadau astudiaethau achos BILlau yn awgrymu mai materion sy'n ymwneud â chapasiti yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar safbwyntiau gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch SEP a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau, a barnwyd bod diffyg capasiti o fewn gwasanaethau iechyd, yn enwedig o fewn CAMHS, yn her go iawn o ran asesu, adolygu a darparu SEP. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o astudiaethau achos yn dynodi bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn feirniadol o arferion o fewn y system addysg hefyd. Roedd rhai ymatebwyr o BILlau wedi mynegi bod gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o AAA yn faes heriol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy. Amlygwyd heriau arbennig yn hyn o beth mewn ysgolion uwchradd, a barnwyd bod y ffocws ar arbenigo mewn pwnc yn rhwystr sy'n atal athrawon rhag meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn dysgu.
- 5.35 5.35 Gallai'r gwahaniaethau hyn rhwng safbwyntiau ynghylch prosesau ac arferion AAA/AAD fod yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn ymddangos bod gan dermau a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil ystyron ychydig yn wahanol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwahanol feysydd. Er enghraifft, pan ofynnwyd am gyswllt plant a phobl ifanc gyda'r broses o wneud penderfyniadau, disgrifiodd nifer o ymatebwyr o faes iechyd eu harfer nhw fel arfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, oherwydd eu bod yn cyfarfod gyda phlant a phobl ifanc, yn aml yn ystod apwyntiadau mewn clinig neu yn y cartref, gan bennu nodau triniaeth gyda nhw.
- 5.36 5.36 Mae'n ymddangos bod mater tebyg yn bodoli ynghylch y term 'anghytundeb' mewn perthynas ag AAA. Mae'n ymddangos bod y canfyddiadau'n anghyson yn y maes hwn, wrth i rai ymatebwyr i'r arolwg a'r astudiaethau achos, er enghraifft, rhai swyddogion ALI a rhai gweithwyr proffesiynol mewn BILlau nodi nad yw'r system AAA o gymorth wrth osgoi neu ddatrys anghytundebau. Mae hyn mewn cyferbyniad â neges gyson gan ysgolion a cholegau nad ydynt yn cael fawr iawn o anghytundebau mewn perthynas ag AAA. Efallai bod y wahaniaeth farn hon yn

adlewyrchu gwahanol ddehongliadau o'r term ar sail gwahanol gyd-destunau. Gosodir persbectif pennaeth ynghylch anghytundebau sy'n gysylltiedig ag AAA yn erbyn cefndir poblogaeth ysgol mwy o faint o ddysgwyr nad oes ganddynt AAA, ac fe allai gael ei ystyried yn rhywbeth y gellir ei ddatrys yn gyflym trwy gyfrwng cyfarfodydd a drefnir yn hawdd gyda phobl allweddol. Dyma'r hyn a adroddwyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr mewn ysgolion a cholegau, ac mae'n gwrthgyferbynnu â phrofiad swyddog ALI o anghytundeb, yn enwedig un sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatrys anghytundeb ac y mae o'r farn bod hwn yn agwedd arwyddocaol ac anodd ar eu rôl, neu weithiwr BILI proffesiynol yr ymgynghorir â nhw ar ôl y bydd anghytundeb wedi cael ei uwchgyfeirio. Mae'r term 'adolygiad' yn enghraifft dda bellach, y mae'n ymddangos ei fod yn golygu adolygiad syml o IEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, ond hefyd, proses adolygu llawer mwy cymhleth sy'n cynnwys amrediad o gynlluniau a phersonél ar gyfer nifer fawr o ddysgwyr, er enghraifft, yr holl ddysgwyr mewn ysgol arbennig.

- 5.37 5.37 Mae gan wahanol safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd y system AAA a gwahanol ddealltwriaeth o derminoleg a materion allweddol, oblygiadau ar gyfer gweithgarwch cydweithio ar draws gwasanaethau. Mae cydweithio yn rhywbeth y rhoddir blaenoriaeth iddo yn y rhaglen trawsnewid ADY ac mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith er mwyn archwilio a rhoi sylw i'r tensiynau sy'n bodoli ar hyn o bryd wrth derfynau gwahanol arferion proffesiynol. Gallai hyn fod fel ffordd o hwyluso dealltwriaeth fanylach o broffesiynau gan weithwyr proffesiynol y tu allan i wasanaeth a datblygu arferion cydweithio er mwyn cynorthwyo dysgwyr sydd ag AAA/AAD.

Gwahanol syniadau am arfer da ar gyfer AAA

- 5.38 I'r un perwyl, mae'n amlwg o'r gwaith ymchwil bod gwahanol syniadau yn bodoli am yr hyn sy'n cyfateb ag arfer da mewn perthynas ag AAA/AAD. O wybodaeth a gasglwyd trwy gyfrwng yr astudiaethau achos, mae gwahaniaethau clir yn dod i'r amlwg o ran yr hyn y mae gweithwyr proffesiynol yn eu hystyried yn nodweddion pwysig o ran yr arfer ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA/AAD. Er enghraifft, mynegodd nifer o ymatebwyr eu cred bod grwpiau bach a lleoliadau mwy arbenigol yn bwysig, gan gynnwys mewn lleoliadau prif ffrwd. Roedd rhai o'r farn bod grwpiau llai yn

ffordd o sicrhau y caiff SEP ei theilwra i anghenion y dysgwr unigol mewn ffordd gywir, a'i bod yn hyblyg mewn ffordd addas i'w hanghenion sy'n newid o ddydd i ddydd. Roedd y syniad bod meithrin perthnasoedd dysgu cefnogol yn allweddol ar gyfer arfer gorau ym maes AAA/AAD yn gysylltiedig â'r farn hon, a bernir bod perthnasoedd cryf yn ffordd o ategu hunaniaeth gadarnhaol i ddysgwyr a datblygu hyder wrth ddysgu. Roedd dehongliadau lleoliadau arbenigol o arfer da yn gysylltiedig â mwy o ddealltwriaeth o SEP a'r tueddiad o dderbyn gwahaniaeth ac amrywiaeth yn fwy ymhlith dysgwyr. Ystyriwyd bod grwpiau llai yn fannau mwy hylaw i ddysgwyr y mae'r profiad o fod mewn ystafell ddosbarth prif ffrwd yn ormod iddynt, a'u bod yn fwy tebygol o arwain at feithrin perthnasoedd cryf.

- 5.39 Mewn cyferbyniad, disgrifiodd ymatebwyr eraill arfer AAA fel arfer sy'n canolbwyntio ar degwch a chyfle cyfartal i ddysgwyr yn bennaf. Roedd ymatebion a oedd yn arddel y farn hon yn pwysleisio pwysigrwydd cynnig mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys, addysgu o ansawdd uchel a'r un cyfleoedd i bob dysgwr i ddysgwyr sydd ag AAA/AAD. Barnwyd bod gweithrediad effeithiol prosesau aml-lefel o fewn ysgolion yn cynorthwyo arfer da, gan gynnwys lefel yr arweinyddiaeth a'r broses o gydlynu AAA, yn ogystal ag ar lefel yr ystafell ddosbarth o fewn cysylltiadau addysgol.
- 5.40 Er hynny, roedd syniadau eraill ynghylch arfer da mewn perthynas ag AAA yn pwysleisio pwysigrwydd manylder wrth nodi anghenion dysgwyr fel ffordd o sicrhau y caiff ymyrraeth ar ffurf addas ei darparu. Mae'n ymddangos bod y farn hon yn cyd-fynd â'r syniad o gael rhaglenni cymorth ar wahân ar gyfer anghenion penodol, yn hytrach na dull gweithredu mwy holistig a pherthynol tuag at anghenion dysgwyr. Yn olaf, roedd pwysigrwydd gweithio gyda rhieni a darparu cymorth ar gyfer teuluoedd a dysgu i tu hwnt i'r ysgol yn syniad pellach a fynegwyd gan rai ynghylch yr hyn sy'n cyfateb ag arfer da.
- 5.41 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau yn cysylltu darpariaeth effeithiol SEP gyda system bresennol y datganiadau, gan ystyried ei bod yn fwy tebygol bod hon yn sicrhau bod amrediad o weithwyr proffesiynol yn bodloni anghenion mewn ffordd briodol. Mae'n ymddangos bod y farn hon ynghylch arfer da yn cyd-fynd â'r syniad bod gwybodaeth arbenigol yn bwysig ym maes AAA, er unwaith eto, mae'n ymddangos y gwelir gwahanol safbwyntiau am y pwynt hwn. Roedd rhai ymatebwyr, mewn ysgolion prif ffrwd yn

bennaf, wedi amlygu bod mewnbwn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol allanol, yn fwyaf nodedig o faes iechyd, yn ffactor hanfodol er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr. Soniwyd mewn cyfweiliadau astudiaethau achos bod mewnbwn wythnosol gan weithwyr iechyd proffesiynol, megis therapydd lleferydd ac iaith, yn hanfodol o ran SEP a ddarparir trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol a mwy a datganiadau. Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol o faes iechyd ac addysg, yn feirniadol o'r math hwn o ddull gweithredu uniongyrchol tuag at AAA ac roeddent yn ystyried rôl gweithwyr proffesiynol allanol yn fwy fel rôl sy'n cynorthwyo capasiti athrawon i ddarparu SEP, er enghraifft, trwy ddarparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer gweithgarwch cynllunio athrawon. Roedd yn ymddangos bod y farn hon yn cyd-fynd â'r syniad na ddylid ystyried SEP yn nhermau ymyriadau ar wahân a dull gweithredu meddygol tuag at ddysgu, ond dylai gynnwys gweithgarwch i addasu prosesau cyffredin addysgu a dysgu a newid diwylliant ysgolion. Yn ôl y farn hon, ystyriwyd bod mewnbwn gweithwyr proffesiynol allanol yn un cynghorol, ac roedd rhai gweithwyr iechyd proffesiynol wedi gwneud y pwynt hwn yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos law yn llaw â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym myd addysg.

Disgrifio AAA fel cyfrifoldeb pob athro

- 5.42 Mae bodolaeth gwahanol syniadau ynghylch arfer da ar gyfer AAA/AAD, yn enwedig syniadau sy'n ystyried SEP fel rhywbeth sy'n ddibynnol ar arfer a gwybodaeth arbenigol, yn codi cwestiynau ynghylch y ffaith bod AAA/AAD yn gyfrifoldeb pob athro. Mae'r polisi presennol ynghylch AAA/AAD, canllawiau o fewn y rhaglen trawsnewid ADY a dogfennau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm newydd i Gymru yn hyrwyddo arfer cynhwysol a disgwyliad bod AAA/ADY yn rhywbeth y mae a wnelo â phob ymarferwr sy'n gweithio gyda dysgwyr mewn lleoliad addysgol. Mewn cyferbyniad, wrth recriwtio cyfranogwyr ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, roedd y tîm yn aml yn cael ei gyfeirio at 'bobl sy'n gwybod', gyda'r argraff bod AAA/AAD yn fusnes rhai gweithwyr proffesiynol yn fwy nag eraill yn y bôn. Roedd nifer fawr o gyfleusterau addysgu arbenigol a dosbarthiadau arbennig yn gweithredu o fewn y lleoliadau ysgol a recriwtiwyd ar gyfer cyfweiliadau'r astudiaethau achos. Roedd rhai o'r rhain yn darparu SEP arbenigol i ddysgwyr sy'n bodloni meini prawf penodol, roedd rhai yn ganolfannau cyffredinol i ddysgwyr sydd ag amrediad o

anghenion ac roedd rhai yn gweithredu fel 'set waelod' o fewn pob grŵp blwyddyn mewn ysgol. Ystyriwyd y rhain fel mannau lle y mae arfer AAA yn digwydd yn bennaf, gyda rhai lleoliadau yn enwebu athrawon o fewn dosbarthiadau prif ffrwd fel ymgeiswyr addas i'w cyfweld.

- 5.43 Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriwyd at y drefn a'r arferion a ganfuwyd yn yr ysgol arbennig o fewn rhanbarth fel enghraifft o arfer rhagorol gan nifer o weithwyr proffesiynol prif ffrwd. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod yr holl ysgolion arbennig a fu'n ymwneud â'r cyfweiliadau astudiaethau achos yn gweithredu amrediad o gwricwla amgen a rhai arferion arbenigol y byddai'n anodd eu gweithredu mewn lleoliadau prif ffrwd. Yn yr un modd, cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion prif ffrwd at ffyrdd niferus y maent wedi datblygu arferion yn eu lleoliad, gan ddatblygu capasiti eu staff i gynorthwyo AAA (e.e. trwy ariannu hyfforddiant), ond roedd nifer yn gweld hwn yn fwy fel cam angenrheidiol yn wyneb llai o fewnbwn gan weithwyr proffesiynol allanol, o'r gwasanaethau iechyd yn bennaf, yn hytrach na symudiad dan reolaeth tuag at arfer mwy cynhwysol a theg.
- 5.44 Gyda'i gilydd, mae'r agwedd hon ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil yn dangos ymlyniad parhaus rhai gweithwyr proffesiynol ar draws gwasanaethau at yr hyn a elwir weithiau yn fodel addysg meddygol i ddysgwyr sydd ag AAA/AAD. Mae'r model meddygol yn ystyried cymorth ar gyfer dysgu fel rhywbeth sy'n gwella sgiliau diffygiol ac y mae gofyn cael gwybodaeth arbenigol ar ei gyfer, yn hytrach nag ymaddasu i wahaniaeth ac amrywiaeth a newid yr hyn sydd ar gael mewn ystafelloedd dosbarth fel arfer. Fel y nododd un ymatebydd mewn cyfweiliad, efallai bod angen gwneud mwy ar yr adeg hon i gyfleu'r ffaith bod AAA yn gyfrifoldeb pob athro ac ymarferwr addysgol arall. Mae gan yr agwedd hon ar y canfyddiadau oblygiadau ar gyfer arfer AAA/AAD fel y rhagwelwyd yn y rhaglen er mwyn trawsnewid ADY a gweithrediad y Ddeddf newydd, ac fe'i thrafodir yn llawnach yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

Cyfarwyddyd ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol

- 5.45 Mae'r canfyddiadau'n cyfeirio at sawl bwlch yn y dystiolaeth sy'n ymwneud â rhai materion allweddol a godwyd gan y gwaith ymchwil. Yn gyntaf ymhlith y rhain yw bodolaeth tensiynau wrth derfynau gwahanol arferion proffesiynol. Bydd datrys tensiynau yn bwysig i lwyddiant y rhaglen er mwyn trawsnewid ADY a byddai modd

archwilio ymchwiliadau o'r hyn sy'n sail i'r rhai sy'n bodoli rhwng arferion mewn gwahanol feysydd gwasanaeth, trwy gyfrwng dulliau megis grwpiau ffocws. Byddai gwybodaeth a gesglir o waith ymchwil o'r fath yn cynorthwyo datblygiad hyfforddiant i weithwyr proffesiynol oherwydd y byddai'n amlygu sut yr ystyrir gwahanol arferion proffesiynol a pha ddealltwriaeth sy'n bodoli mewn perthynas â meysydd allweddol AAA.

- 5.46 Yn ogystal, efallai y byddai o ddefnydd i waith ymchwil pellach ystyried arfer da ar gyfer AAA, yn enwedig ym maes addysg prif ffrwd yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi amlygu'r ffaith bod gwahanol syniadau yn bodoli am yr hyn sy'n cyfateb ag arfer da, ond mae angen cynnal mwy o waith ymchwil er mwyn nodi pa rai o'r rhain sy'n gweithredu mewn ysgolion ac ystafelloedd dosbarth ac y maent yn cynorthwyo datblygiad dysgwyr sydd ag AAA/AAD yn y ffordd fwyaf lwyddiannus. Mae gwerthusiad Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2014) o ysgolion yng Nghymru yn dynodi bod problemau addysgol penodol yn bodoli mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth dysgwyr a'r angen mwy am strategaethau addysgu gwahaniaethol. Byddai ymchwil a gynhelir mewn ystafelloedd dosbarth lle y cydnabyddir bod yr arfer mewn perthynas ag AAA/AAD yn rhagorol, er enghraifft, gan ddefnyddio gweithgarwch arsylwi a chyfweliadau gydag athrawon ac ymarferwyr eraill, yn helpu i egluro camau gweithredu addysgol sy'n cynorthwyo arfer da ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr ac sy'n cynorthwyo datblygiad hyfforddiant i athrawon.
- 5.47 Yn ogystal, ceir cyfleoedd i gynnal gwaith ymchwil pellach ynghylch anghenion y sector addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft deall cyflenwad y sgiliau Cymraeg a'r galw amdanynt mewn rolau sy'n ymwneud ag AAA, yn ogystal â chasglu safbwyntiau dysgwyr a rhieni/gofalwyr ynghylch argaeledd SEP a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod ALLau yn parhau i adolygu DDdY, gan gynnwys digonolrwydd DDdY yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY yn Gymraeg bob pum mlynedd ac y dylid paratoi a chyhoeddi adroddiadau am ganlyniad yr adolygiadau.

6. Casgliadau a'r goblygiadau ar gyfer arfer

Mae'r adran hon yn amlinellu casgliad yr astudiaeth ac yn cyflwyno'r hyn y gallai'r canfyddiadau fod yn ei awgrymu o ran y goblygiadau posibl ar gyfer arfer yn ystod gweithrediad y Ddeddf.

Asesu

- 6.1 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyfranogwyr o'r farn bod y broses asesu statudol yn gadarn ac yn deg, a bod y bobl gywir yn cymryd rhan ynddi. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn teimlo bod diffyg offerynnau sgrinio ac asesu AAA cyfoes ac addas i'r oedran ar gael yn Gymraeg, gan awgrymu bod hwn yn faes y mae gofyn ei wella. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn ystyried hefyd bod gwrthdaro rhwng y pwysau i gynnal asesiadau a gweithredu SEP yn gyflym (ar gyfer asesiadau yn yr ysgol ac asesiadau statudol) a'r angen i ymateb fesul cam, sy'n golygu y gellir monitro cynnydd a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ddigonol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod sefydliadau yn wynebu heriau wrth fodloni disgwyliadau rhieni mewn perthynas â pha mor gyflym y gellir cynnal gwaith asesu a rhoi cymorth yn ei le ar gyfer eu plentyn ar ôl y mynegir pryderon. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithgarwch ymgysylltu effeithiol gyda ddysgwyr a rhieni/gofalwyr trwy gydol prosesau asesu, gan gynnwys cynnig eglurder i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr am yr amser y disgwylir i dasgau penodol ei gymryd.
- 6.2 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod y math o dystiolaeth a ddarparir gan ysgolion ar gyfer asesu statudol yn amrywio, ac y ceir diffyg cysondeb mewn arfer ar draws ALLau, wrth i rai gynnig mwy o arweiniad i ysgolion nag eraill. Mae hyn yn awgrymu bod angen i ALLau ddarparu canllawiau mwy rhagnodol neu hyfforddiant i ysgolion efallai ynghylch casglu tystiolaeth er mwyn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch a oes gan ddysgwyr ADY dan y system newydd.

SEP

- 6.3 Mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod cyfranogwyr o'r farn bod SEP yn effeithiol ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng datganiadau a chynlluniau anstatudol. Roedd y sawl a gyfwelwyd mewn astudiaethau achos yn teimlo bod presenoldeb, sgorau cyflawniad, cyfraddau gwahardd, bodlonrwydd rhieni a lles a hyder dysgwyr yn cynnig tystiolaeth o effeithiolrwydd SEP. Fodd bynnag, er bod y canfyddiadau'n awgrymu yr ystyrir bod ansawdd y SEP ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy yn dda, mae'n ymddangos bod ymarferwyr yn ystyried bod llai o gapasiti ar gael o fewn asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau a ddarparir gan ALLau, iechyd) i ddarparu cymorth i'r dysgwyr hyn.
- 6.4 Gwelwyd safbwyntiau cymysg ynghylch defnyddio grwpiau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn feirniadol o'u defnydd, gan nodi eu bod yn lleihau'r mynediad i gwricwlwm eang ac nad ydynt wastad yn cael eu haddysgu ar lefel briodol, ac roedd eraill o'r farn bod hyn yn sicrhau ansawdd o ran addysgu a dysgu. Gallai hyn gael goblygiadau wrth ddatblygu polisi ac arfer sy'n ymwneud ag addysg gynhwysol.
- 6.5 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylai mewnbwn staff arbenigol (e.e. staff BILI) ganolbwyntio'n fwy ar ddarpariaeth uniongyrchol ymyriadau neu ar ddarparu arweiniad a hyfforddiant i staff anarbenigol. Mae'n ymddangos bod rhai tensiynau rhwng dymuniad i ymarferwyr iechyd gael cyswllt mwy uniongyrchol (yn enwedig ymhlith rhai ymarferwyr ysgol) a'r farn y bydd yn rhaid i staff BILlau fabwysiadu rôl mwy strategol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod safbwyntiau cymysg am y prosesau sicrhau ansawdd ym maes iechyd ar gyfer SEP. Gallai'r materion hyn gael goblygiadau pan gyflwynir rôl DECLO trwy gyfrwng y Ddeddf a sut y nodir cyfrifoldebau gwahanol sefydliadau mewn ffordd glir dan y system newydd.
- 6.6 Mae'r canfyddiadau'n dynodi bod angen i gynlluniau fod yn ddigon hyblyg er mwyn bodloni ystod eang anghenion nifer o ddysgwyr a hefyd, ymateb i anghenion y plentyn sy'n datblygu, sy'n newid. Er enghraifft, roedd y sawl a gyfwelwyd yn yr astudiaethau achos yn ystyried bod 3-4 targed o fewn IEPau yn nifer annigonol i ddysgwyr y mae ganddynt angen mewn mwy nag un neu ddau faes. Fodd bynnag, er bod Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Llywodraeth Cymru,

2004) yn nodi y dylai IEPau fod 'yn gryno gan ganolbwyntio ar dri neu bedwar targed allweddol', nid yw'n pennu cyfyngiad o ran nifer y targedau y gellir eu cynnwys.

Adolygu

- 6.7 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyfranogwyr o'r farn bod prosesau adolygu yn effeithiol yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n dynodi hefyd bod ymarferwyr o'r farn bod y broses o adolygu datganiadau yn ailadroddus ac mae nifer yn teimlo y gallai hwn fod yn faes lle y gall y Ddeddf gael dylanwad cadarnhaol ar yr arfer.
- 6.8 Roedd ymarferwyr mewn BILlau yn teimlo nad ydynt wastad yn cael gwybod am brosesau adolygu yn ddigon cynnar, ac nad oes ganddynt y capasiti i gymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu bob tro. Efallai bod angen ystyried goblygiadau posibl hyn ar ddatblygiad trefniadau partneriaeth amlasiantaeth dan y system newydd.

Cynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr

- 6.9 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod ymarferwyr o'r farn bod prosesau cynllunio wedi canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn dros y blynyddoedd diwethaf, er bod nifer o gyfranogwyr wedi amlygu y gallai hyn gynyddu'r amser y mae prosesau cynllunio yn ei gymryd (e.e. wrth hwyluso sgysiau mwy strwythuredig gyda rhieni/gofalwyr).
- 6.10 Fodd bynnag, mae canfyddiadau'n awgrymu hefyd, er bod ysgolion yn ceisio cyswllt rhieni mewn adolygiadau o gynlluniau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol/a mwy, bod gweithgarwch ymgysylltu rhieni yn parhau i fod yn eithaf cyfyngedig ar gyfer y rhai sydd â chynlluniau anstatudol.
- 6.11 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod dysgwyr yn arbennig yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael cynnwys mewn prosesau cynllunio ac adolygu, a bod hyn yn gwella 'buddsoddiad' dysgwyr yn eu haddysg. Fodd bynnag, efallai bod angen archwilio ffyrdd o gynorthwyo dysgwyr a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau am eu dysgu.

Gweithio gydag eraill

- 6.12 Mae'r canfyddiadau'n dynodi bod cyfleoedd i wella cyfathrebu a gweithgarwch rhannu gwybodaeth rhwng ymarferwyr iechyd a sectorau eraill, yn ogystal ag o fewn gwasanaethau iechyd. Er enghraifft, adroddodd staff BILlau nad ydynt wastad yn cael gwahoddiadau – naill ai gan ysgolion neu baediatregwyr – i gyfarfodydd cynllunio ac adolygu, yn ogystal ag adborth ac adroddiadau. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod rhai staff BILl yn teimlo nad ydynt yn cael eu hysbysu'n ddigon cynnar am faterion. Efallai bod angen ystyried pa oblygiadau y gallai hyn eu cael ar gyfer datblygiad trefniadau partneriaeth amlasiantaeth dan y system newydd.

Trosglwyddo

- 6.13 Roedd safbwyntiau ynghylch effeithiolrwydd trosglwyddo o ddarparwyr blynyddoedd cynnar i ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos. Gallai hyn awgrymu bod gofyn cael mwy o ganllawiau ynghylch trosglwyddo o ddarparwyr cyn ysgol, gofal plant a meithrin i ysgolion.
- 6.14 Nododd rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn SABau mai'r unig adeg y byddent yn cael eu hysbysu o anghenion dysgwyr cyn iddynt gofrestru yw pe byddai ganddynt ddatganiad, ac weithiau, mai'r unig adeg y byddent yn cael gwybod am anghenion dysgwyr yr oeddent wedi cael eu cynorthwyo trwy gyfrwng gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy yw pe byddent yn datgelu'r anghenion hyn wrth gofrestru (neu ar ôl hynny os na fyddai dysgwyr yn datgelu anghenion). Nododd rhai SABau bod gwybodaeth ynghylch AAA dysgwyr yn cael ei throsglwyddo iddynt mewn ffordd systematig gan rai ALLau ond nid gan eraill. Mae hyn yn awgrymu bod cyfleoedd i hyrwyddo arferion mwy cyson o ran rhannu gwybodaeth rhwng ALLau a SABau.
- 6.15 Mae canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod SABau ac ysgolion o'r farn bod rôl Gyrfa Cymru yn bwysig wrth gynorthwyo trosglwyddo ôl-16. Disgrifiwyd Gyrfa Cymru fel cyfryngwr pwysig gan rai cyfranogwyr yn y broses bontio ar gyfer dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach.

Yr iaith Gymraeg

- 6.16 Roedd ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi cyfeirio'n gyson at ddiffyg offerynnau asesu cyfoes ac addas i'r oedran yn Gymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y byddai modd bodloni hyn yn y dyfodol (e.e. trwy gomisiynu datblygiad adnoddau sgrinio ac asesu cyfrwng Cymraeg).
- 6.17 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y ceir diffyg capasiti i ddarparu SEP trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth am sgiliau'r gweithlu yn ddiweddar (Llywodraeth Cymru, 2018b)⁸⁷. Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod angen ystyried y goblygiadau o ran hyfforddiant Cymraeg a recriwtio ymarferwyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg yn y sector efallai.
- 6.18 Yn ogystal, awgrymodd ALLau bod lefel y galw am gymorth a SEP cyfrwng Cymraeg yn isel mewn rhai ardaloedd. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod ALLau yn parhau i adolygu DDdY, gan gynnwys digonolrwydd DDdY yn Gymraeg. Mae'r Ddeddf yn nodi hefyd bod yn rhaid i Weinidogion Cymru drefnu adolygiadau o ddigonolrwydd DDdY yn Gymraeg bob pum mlynedd a bod adroddiadau am ganlyniad yr adolygiadau yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi. Mae ALLau yn awgrymu eu bod wedi asesu'r galw am SEP cyfrwng Cymraeg, ond efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried pa mor systematig y caiff hyn ei wneud fel rhan o'r broses o adolygu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ALLau, yn ogystal ag yn benodol mewn perthynas â'r dyletswyddau uchod yn y Ddeddf.

Goblygiadau cyffredinol ar gyfer gweithrediad y Ddeddf

- 6.19 Mae canfyddiadau'n dangos bod ysgolion a sefydliadau eraill yn paratoi ar gyfer gweithredu newidiadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf. Disgrifiodd nifer o gyfranogwyr y newidiadau sydd ar y ffordd fel rhai diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo pwysigrwydd sicrhau gwahanol bersectifau am ddysgu (e.e. trwy gyfrwng PCP). Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod ysgolion o'r farn y gallai

⁸⁷ Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am sgiliau'r gweithlu yn [Data am weithlu gwasanaethau arbenigol yr awdurdodau lleol ym maes anghenion addysgol arbennig](#) (Llywodraeth Cymru, 2018b). (Cyrchwyd 3 Hydref 2018)

rhai o'r newidiadau hyn fod yn feichus a cheir pryderon ymhlith ymarferwyr ynghylch goblygiadau rhai agweddau ar y diwygiadau ar amser.

- 6.20 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod rhai ysgolion eisoes yn defnyddio CDUau, er na cheir templed cenedlaethol eto. Er y ceir tystiolaeth bod rhai wedi dechrau defnyddio templedi CDU a beilotwyd gan ALLau law yn llaw â'r trefniadau presennol ar gyfer AAA, mae'n ymddangos bod rhai ysgolion yn defnyddio terminoleg CDU ac IEP yn gyfnewidiol ac efallai nad oes ganddynt ddealltwriaeth glir o'r newidiadau sydd ar y ffordd i gynlluniau. Gallai hyn gael goblygiadau ar gyfer y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu gyda'r sector addysg ynghylch datblygu a chyflwyno CDU.
- 6.21 Mae'r memorandwm esboniadol (Llywodraeth Cymru, 2018a) yn nodi 'ar gyfer rhan fwyaf y plant sydd ag ADY ac sy'n derbyn gofal, bydd y Ddeddf yn mynnu bod eu CDU yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau addysg personol (PEPs) a luniwyd ar gyfer y dysgwyr hyn fel rhan o'u cynlluniau gofal a chymorth (CSP).' Roedd canfyddiadau o'r astudiaethau achos yn dangos bod rhai o'r rhai a gyfwelwyd mewn ysgolion yn ansicr ynghylch a fyddai prosesau adolygu ar gyfer PEPs a CDUau yn parhau i fod ar wahân neu a fyddent yn cael eu cyfuno yn y dyfodol. Gallai hyn awgrymu bod angen mwy o eglurder trwy gyfrwng y Cod ADY a Chod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal ac sy'n cael eu Lletya) (Llywodraeth Cymru, 2018c) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o ran sicrhau bod sefydliadau yn deall newidiadau i brosesau.⁸⁸
- 6.22 Mae canfyddiadau'n awgrymu y bernir bod tybiaeth ynghylch diffyg capasiti o fewn BILLau yn cyfyngu ar y graddau y gall gweithwyr ieched proffesiynol gymryd rhan mewn prosesau sy'n ymwneud ag AAA. Gallai hyn gael goblygiadau o ran y ffordd y caiff rôl gweithwyr ieched proffesiynol yn y system newydd ei gyfathrebu i BILLau a phartneriaid eraill.

⁸⁸ Llywodraeth Cymru, 2018c. [Cod Ymarfer Rhan 6 \(Plant sy'n Derbyn Gofal ac sy'n cael eu Lletya\) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014. Fersiwn 2 – Ebrill 2018](#). (Cyrchwyd 8 Tachwedd, 2018)

- 6.23 Mae canfyddiadau'n awgrymu bod rhai rhieni/gofalwyr o'r farn anghywir y bydd sicrhau datganiad AAA cyn gweithrediad y Ddeddf yn galluogi dysgwyr i 'sicrhau' cymorth na fyddai modd iddynt ei sicrhau fel arall. Mae hyn yn awgrymu yr hoffai Llywodraeth Cymru ystyried lledaenu negeseuon sy'n egluro'r agwedd hon ar y diwygiadau efallai.

Llyfryddiaeth

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (2014) [Gwellu Ysgolion yng Nghymru: Safbwynt OECD](#). Paris: OECD Publishing. (Cyrchwyd 19 Awst 2018).

Llywodraeth Cymru (2018a) [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\): memorandwm esboniadol yn ymgorffori'r asesiad effaith rheoleiddiol a'r nodiadau esboniadol](#). (Cyrchwyd 3 Hydref, 2018) Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018b) [Data am weithlu gwasanaethau arbenigol yr awdurdodau lleol ym maes anghenion addysgol arbennig: dadansoddiad](#). Hawlfraint y Goron. (Cyrchwyd 3 Hydref 2018)

Llywodraeth Cymru (2018c). [Cod Ymarfer Rhan 6 \(Plant sy'n Derbyn Gofal ac sy'n cael eu Lletya\) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014. Fersiwn 2 – Ebrill 2018](#). Hawlfraint y Goron. (Cyrchwyd 8 Tachwedd 2018)

Llywodraeth Cymru (2017a) Manyleb ar gyfer: ymchwil i bennu gwaelodlin y system ADY yng Nghymru, heb ei gyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2017b) [Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion, 2017](#). Hawlfraint y Goron. (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2018).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017) [Cod ADY drafft](#). (Cyrchwyd 12 Hydref 2018)

Llywodraeth Cymru (2014) [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014](#). Hawlfraint y Goron. (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2018).

Llywodraeth Cymru (2004) [Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#). Hawlfraint y Goron. (Cyrchwyd 3 Gorffennaf 2018).